# Rhaglen Gyflawn

**Adran y Prif Weithredwr**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**Y CYNGOR**

Dyddiad ac Amser

**1.00 y.h., DYDD IAU, 9FED GORFFENNAF, 2015**

***NODER**

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**http://www.gwynedd.public-i.tv/core/portal/home**

Lleoliad

**Siambr Dafydd Orwig - Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon, LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**maireirianroberts@gwynedd.gov.uk**

(DOSBARTHWYD 1/07/15)

**Dilwyn Williams**
**Prif Weithredwr**

www.gwynedd.gov.uk

Annwyl Gynghorydd,

**CYFARFOD O GYNGOR GWYNEDD – DYDD IAU, 9 GORFFENNAF 2015**

**FE'CH GWYSIR TRWY HYN** i gyfarfod o **GYNGOR GWYNEDD** a gynhelir am **1.00 y.h., DYDD IAU** nesaf, **DYDD IAU, 9FED GORFFENNAF, 2015 YN SIAMBR DAFYDD ORWIG - SWYDDFEYDD Y CYNGOR, SWYDDFA'R CYNGOR, CAERNARFON**, i ystyried y materion a grybwyllir yn y rhaglen a ganlyn.

Yr eiddoch yn gywir



Prif Weithredwr

Bydd yr ystafelloedd a ganlyn ar gael i'r grwpiau gwleidyddol yn ystod y bore:-

Plaid Cymru - Siambr Dafydd Orwig
Annibynnol – Siambr Hywel Dda
Llais Gwynedd – Ystafell Gwyrfai
Democratiaid Rhyddfrydol - Ystafell Peris
Llafur – Cefn Siambr Dafydd Orwig

# RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. COFNODION** 1 - 6

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion Cyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd ar 14 Mai, 2015 fel rhai cywir (ynghlwm).

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd.

**5. GOHEBIAETH, CYFATHREBIADAU, NEU FUSNES ARALL**

Derbyn unrhyw ohebiaeth, gyfathrebiadau neu fusnes arall a ddygir gerbron yn arbennig dan gyfarwyddyd y Cadeirydd*.*

**6. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**7. CWESTIYNAU**

Ystyried unrhyw gwestiynau y rhoddwyd rhybudd priodol ohonynt o dan Adran 4.19 o'r Cyfansoddiad*.*

**8. CYNLLUN STRATEGOL CYNGOR GWYNEDD 2015-17** 7 - 74

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol (ynghlwm).

**9. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYFARWYDDWR STATUDOL GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2014/15** 75 - 102

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Statudol a Chyfarwyddwr Corfforaethol (ynghlwm).

**10. CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR** 103 - 106

Cyflwyno adroddiad yr Arweinydd (ynghlwm).

**11. ABSENOLDEB AELOD O'R CYNGOR** 107 - 108

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (ynghlwm).

**12. RHYBUDDION O GYNNIG** 109 - 110

(A) Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrtho o dan Adran 4.20 y Cyfansoddiad, bydd y Cynghorydd R.H.Wyn Williams yn cynnig fel a ganlyn:-

**“Galwn ar Lywodraeth San Steffan i ddatganoli pwerau Comisiwn y Goron i Lywodraeth Cymru fel bod Cymru'n manteisio ar incwm a geir o diroedd ac arfordir Cymru. Bydd hyn yn golygu y bydd Cymru yn fwy llewyrchus drwy fod yn berchen ar yr hawliau i bysgota, mwyngloddio, chwilio am nwy ac olew, ynni'r llanw a thonnau'r môr a ffermydd gwynt, aur ac arian, a'r holl ynni a'r adnoddau sydd o fewn dyfroedd a ffiniau tiriogaethol dynodedig Cymru. Rydym hefyd yn gofyn i Awdurdodau Lleol eraill Cymru gefnogi'r cais."**

(B) Cyflwyno, er gwybodaeth, lythyr gan Mark Thomas, Golygydd y Daily Post, mewn ymateb i rybudd o gynnig y Cynghorydd Sian Gwenllian i'r cyfarfod diwethaf ynghylch penderfyniad Trinity Mirror i gau Swyddfa'r Herald yng Nghaernarfon. (ynghlwm).

# Y CYNGOR, 14.05.15

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Dilwyn Morgan (Cadeirydd);
Y Cynghorydd Eric Merfyn Jones (Is-gadeirydd).

**Y Cynghorwyr:** Craig ab Iago, Stephen Churchman, Endaf Cooke, Annwen Daniels, Anwen Davies, Lesley Day, Dyfed Edwards, Elwyn Edwards, Trevor Edwards, Thomas Ellis, Alan Jones Evans, Aled Evans, Jean Forsyth, Gwen Griffith, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Sian Gwenllian, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Louise Hughes, Jason Humphreys, Peredur Jenkins, Aeron M.Jones, Anne Lloyd Jones, Brian Jones, Charles W.Jones, Elin Walker Jones, John Wynn Jones, Sion Wyn Jones, Eryl Jones-Williams, Beth Lawton, June E.Marshall, Dafydd Meurig, Christopher O'Neal, Dewi Owen, Michael Sol Owen, W.Roy Owen, William Tudor Owen, Nigel Pickavance, Caerwyn Roberts, John Pughe Roberts, Liz Saville Roberts, W.Gareth Roberts, Mair Rowlands, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, Mike Stevens, Glyn Thomas, Ioan Thomas, Ann Williams, Eirwyn Williams, Elfed Williams, Hefin Williams, John Wyn Williams, Owain Williams, R.H.Wyn Williams, Mandy Williams-Davies a Robert J.Wright.

**Hefyd yn bresennol:** Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol / Swyddog Monitro), Rhun ap Gareth (Uwch Gyfreithiwr / Dirprwy Swyddog Monitro), Arwel E.Jones (Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Eddie Dogan, Gwynfor Edwards, Gweno Glyn, Simon Glyn, Linda Wyn Jones, Llywarch Bowen Jones, Dilwyn Lloyd, Linda Morgan, Peter Read, Gareth Thomas, Gethin Glyn Williams, Gruffydd Williams ac Eurig Wyn.

Rhoddwyd anerchiad gan y Cynghorydd Dewi Owen, Cadeirydd 2014/15.

**1. CADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Dilwyn Morgan yn gadeirydd am 2015/16.

Llofnododd y Cynghorydd Dilwyn Morgan ddatganiad yn derbyn y swydd o Gadeirydd Cyngor Gwynedd am 2015/16.

**2. IS-GADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Eric Merfyn Jones yn is-gadeirydd am 2015/16.

Llofnododd y Cynghorydd Eric Merfyn Jones ddatganiad yn derbyn y swydd o is-gadeirydd Cyngor Gwynedd am 2015/16.

**3. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 5 Mawrth, 2015 fel rhai cywir.

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

- Datganodd y Cynghorydd Aeron M.Jones fuddiant personol yn eitem 13(a) ar y rhaglen – Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorydd Sian Gwenllian – oherwydd ei fod wedi cynnig gofod swyddfa i Trinity Mirror.

- Datganodd y Cynghorydd Eryl Jones-Williams fuddiant personol yn eitem 13(a) ar y rhaglen – Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorydd Sian Gwenllian – oherwydd ei fod yn gweithio fel newyddiadurwr.

'Roedd yr aelodau o'r farn eu bod yn fuddiannau sy'n rhagfarnu a gadawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

**5. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

(1) Croeso

Croesawyd y Cynghorydd Glyn Thomas, yr aelod newydd dros Ward Cadnant, i'w gyfarfod cyntaf o'r Cyngor.

(2) Llongyfarchiadau

Llongyfarchwyd y canlynol:-

- Y Cynghorydd Liz Saville Roberts a Hywel Williams ar gael eu hethol yn Aelodau Seneddol. Gan mai hwn oedd ei chyfarfod olaf fel aelod o'r Cyngor hwn, rhoddodd y Cynghorydd Liz Saville Roberts anerchiad byr gan nodi y bu'n fraint bod yn aelod o Gyngor Gwynedd dros nifer o flynyddoedd a'i bod wedi dysgu llawer o'r profiad.
- Elfyn Evans o Ddinas Mawddwy a ddaeth yn drydydd yn yr Ariannin ym mhencampwriaeth ralio'r byd, ac a oedd ar hyn o bryd yn bedwerydd yn y bencampwriaeth. Nodwyd mai dyma'r tro cyntaf i Gymro gyrraedd y fath safon.
- Grŵp Gwerin 9bach ar eu llwyddiant diweddar yn ennill albwm y flwyddyn gyda'r albwm 'Tincian' yng Ngwobreuon Gwerin Radio 2 yn Stadiwm y Mileniwm.
- Clwb Pêl Droed y Bala ar gyrraedd cystadleuaeth Cwpan Europa am yr ail dymor yn olynol.

(3) Cydymdeimlad

Cydymdeimlwyd â'r Cynghorydd Glyn Thomas ar golli ei fam.

Nodwyd hefyd bod y Cyngor yn dymuno cofio am eraill o fewn cymunedau'r sir oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar.

Safodd y Cyngor fel arwydd o barch.

(4) Dymuniadau Gorau

Dymunwyd yn dda i'r Cynghorwyr Eddie Dogan a Linda Morgan oedd yn derbyn triniaeth ar hyn o bryd.

(5) Cyffredinol

Tynnu sylw at lythyr a anfonwyd at yr aelodau ynglŷn â'r gyfres o weithdai craffu aelodau ar y toriadau ac anogwyd pawb i fynychu'r sesiynau hollbwysig hyn.

Nodwyd bod y Cynghorydd Aeron M.Jones yn chwilio am 12 cynghorydd neu aelodau o staff i redeg neu gerdded am gyfnod o 2 awr ar gaeau Treborth, Bangor ym mis Mehefin er mwyn codi arian tuag at Apêl Nyrsus Macmillan yng Ngwynedd.

Atgoffwyd yr aelodau y byddai 2016 yn ganmlwyddiant Gwrthryfel y Pasg yn Iwerddon. Nodwyd y cynhelid digwyddiadau o gwmpas mis Mehefin y flwyddyn nesaf i gofio'r adeg pan gyrhaeddodd y carcharorion y gwersyll-garchar yn Fron-goch, Y Bala a phwysleisiwyd ei bod yn amserol i gysylltu â Llywodraeth Iwerddon er mwyn hybu twristiaeth yn yr ardal.

## 6. DIWYGIO CYNLLUN HAWLIAU DIRPRWYEDIG SWYDDOGION

Cyflwynodd yr Arweinydd adroddiad ar yr angen i addasu'r Cynllun Dirprwyo i Swyddogion yn dilyn ail strwythuro'r Adrannau Adnoddau Dynol a Strategol a Gwella er creu Adran Cefnogaeth Gorfforaethol.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad, diwygio'r Cynllun Dirprwyo i Swyddogion yn unol ag Atodiad 1 i'r adroddiad a dirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol i wneud addasiadau golygyddol i'r Cyfansoddiad sydd yn deillio o'r newidiadau.**

## 7. CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR

Cyflwynodd yr Arweinydd adroddiad yn adolygu cydbwysedd gwleidyddol y Cyngor gan ychwanegu y byddai'r mater hwn gerbron y Cyngor nesaf hefyd yn sgil datblygiadau y bore hwnnw.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu dyraniad seddau ar bwyllgorau'r Cyngor yn unol â'r tabl isod:-**

**PWYLLGORAU CRAFFU**

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur | Democratiaid Rhyddfrydol | Aelod Unigol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Corfforaethol | 9 | 4 | 3 | 1 | 1 | |
| Cymunedau | 8 | 4 | 3 | 1 | 1 | 1 |
| Gwasanaethau | 9 | 4 | 3 | 1 | | 1 |
| Archwilio | 8 | 5 | 3 | 2 | | |

**PWYLLGORAU ERAILL**

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur | Democratiaid Rhyddfrydol | Aelod Unigol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Democratiaeth | 7 | 4 | 3 | 1 | | |
| Iaith | 7 | 4 | 3 | 1 | | |
| Cynllunio | 7 | 3 | 3 | 1 | 1 | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Trwyddedu Canolog | 7 | 4 | 3 | | | 1 | |
| Apelau Cyflogaeth | 3 | 1 | 1 | 1 | | 1 | |
| Penodi Prif Swyddogion | 7 | 4 | 2 | 1 | 1 | | |
| **Nifer y seddau** | **72** | **37** | **27** | **10** | **4** | **4** | **154** |

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur | Democratiaid Rhyddfrydol | Aelod Unigol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pensiynau | 2 | 2 | 1 | 1 | 1 | | |
| Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol | 6 | 2 | 2 | 1 | | | |
| Cydbwyllgor Addysg Anghenion Arbennig | 3 | 2 | 1 | | | 1 | |
| Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd | 4 (3 sedd ac un eilydd) | 2 | 1 | 1 | | | |
| CYSAG | 3 | 2 | 2 | | | | |
| **Cyfanswm y Seddau** | **90** | **47** | **34** | **13** | **5** | **5** | **194** |

## 8. ADRODDIAD BLYNYDDOL GAN Y PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD AR RAN Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD YNG NGHYSWLLT CEFNOGAETH I AELODAU

(a) Cyflwynodd y Cynghorydd Lesley Day, Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd adroddiad blynyddol yn diweddaru'r aelodau ynghylch y gefnogaeth sydd ar gael, y datblygiadau sydd wedi'u gwireddu a'r rhai sydd ar waith.

Ar bwynt o gywirdeb, nododd fod angen cynnwys y Cynghorydd Beth Lawton, Pencampwr Iechyd Meddwl, yn y fersiwn Saesneg o'r rhestr pencampwyr (paragraff 2 o'r adroddiad).

Diolchwyd i'r Cynghorydd Lesley Day am ei gwaith yn symud yr agenda hwn yn ei flaen.

Yn ystod y drafodaeth:-

- Mynegwyd siomedigaeth nad oedd adroddiad yr Ymchwiliad Craffu O'r Ysbyty i'r Cartref (rhan 2) wedi'i gyhoeddi, er iddo gael ei gyflwyno yn Rhagfyr y llynedd. 'Roedd aelodau'r ymchwiliad wedi gweithio'n galed iawn ac 'roedd yr adroddiad, oedd yn feirniadol o'r Gwasanaeth Iechyd ac Adran y Gwasanaethau Cymdeithasol, wedi ei lastwreiddio ers hynny.
- Nodwyd y bu'r cyfweliadau datblygiad personol yn fuddiol dros ben ac anogwyd aelodau eraill i fanteisio ar y cyfle hwn.

(b) Adroddwyd bod angen dewis Cadeirydd ar gyfer 2015/16.

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Thomas Ellis yn Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd am 2015/16.**

**9. RHYBUDDION O GYNNIG**

(a) Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig a ganlyn gan y Cynghorydd Sian Gwenllian, yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn, ac fe'i heiliwyd.

**"Rwy'n galw ar y cyngor i ddatgan siom ynghylch penderfyniad Trinity Mirror, cyhoeddwyr papurau newydd, i gau swyddfa'r Herald yng Nghaernarfon gan roi terfyn ar bresenoldeb yn y dref sy'n ymestyn dros 180 mlynedd, a dangos cefnogaeth lwyr i'r newyddiadurwyr a'r aelodau staff eraill sy'n cael eu heffeithio.**

**Dyma swyddfa ar gyfer y Daily Post, y Caernarfon and Denbigh Herald, yr Holyhead and Anglesey Mail, y Bangor and Anglesey Mail ac Yr Herald Gymraeg. Mae Caernarfon yn gartref traddodiadol i'r wasg ac yn ganolbwynt pwysig yn fwrdeistrefol, yn ddiwylliannol ac yn hanesyddol. Ceir llys y goron, llys sirol a llys ynadon yn y dref; yn ogystal â chrwner gogledd orllewin Cymru a phencadlys Cyngor Gwynedd.**

**Galwaf hefyd ar y Cyngor i wneud popeth o fewn ei allu i sicrhau parhad presenoldeb staff Trinty Mirror mewn swyddfa yng Nghaernarfon. Mae gohebwyr yn gweithio yn y cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu, o stafell newyddion lleol, yn creu newyddiaduraeth dda - elfen hanfodol o ddemocratiaeth leol a ffynhonnell wybodaeth werthfawr i drigolion Gwynedd a thu hwnt. Pryderaf y byddai cau'r swyddfa bresennol yn cynrychioli lleihad pellach yn ymrwymiad Trinity Mirror i newyddiaduraeth leol yn y rhanbarth a'i fod yn arwain y ffordd at gau papurau newydd yr ydym yn eu gwerthfawrogi ac sydd wrth galon y gymuned."**

Cefnogwyd y cynnig yn unfrydol.

**PENDERFYNWYD derbyn y cynnig.**

(b) Cyflwynwyd, er gwybodaeth, lythyr gan y Trysorlys, mewn ymateb i rybudd o gynnig y Cynghorydd Sian Gwenllian i gyfarfod Rhagfyr ynghylch osgoi talu trethi.

**PENDERFYNWYD nodi'r llythyr.**

(c) Cyflwynwyd, er gwybodaeth, lythyr gan Brif Weinidog Cymru mewn ymateb i rybudd o gynnig y Cynghorydd R.H.Wyn Williams i'r cyfarfod diwethaf ynghylch Trident.

**PENDERFYNWYD nodi'r llythyr.**

(ch) Cyflwynwyd, er gwybodaeth, lythyr gan Lywodraeth Cymru, mewn ymateb i rybudd o gynnig y Cynghorydd Craig ab Iago i'r cyfarfod diwethaf ynghylch ymgyrch Traws Linc Cymru i ailagor y rheilffordd rhwng Gogledd a De Cymru.

**PENDERFYNWYD nodi'r llythyr.**

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00pm a daeth i ben am 2.10pm.

Eitem 8

**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Y Cyngor |
| **DYDDIAD** | 9 Gorffennaf 2015 |
| **TEITL** | Cynllun Strategol Cyngor Gwynedd 2015-17 |
| **PWRPAS** | Cymeradwyo'r Cynllun Strategol |
| **AWDUR** | Geraint Owen, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol |
| **AELOD CABINET** | Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn |
| **ARGYMHELLIAD** | Mabwysiadu'r Cynllun Strategol |

**1.0 Cyflwyniad**

1.1 Ym mis Mai 2013, mabwysiadodd y Cyngor ei Gynllun Strategol ar gyfer 2013-17. Prif bwrpas y Cynllun Strategol yw gosod gweledigaeth y Cyngor ar gyfer 2013-17, ac fe'i adolygir yn flynyddol. Hwn yw Cynllun Gwella'r Cyngor.

1.2 Mae'r Cynllun Strategol yn gosod meysydd blaenoriaeth y Cyngor ar gyfer y cyfnod, y sefyllfa rydym yn dymuno ei gweld ar gyfer y meysydd hynny, ac yn disgrifio'r hyn y bydd y Cyngor yn ei wneud er mwyn cyrraedd y sefyllfa honno.

1.3 Eleni eto, mae'n ofynnol i'r Cyngor fabwysiadu cynllun penodol ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae hyn oll yng nghyd-destun her enfawr yr arbedion y bydd yn rhaid i'r Cyngor eu canfod dros y blynyddoedd nesaf.

**2.0 Cynnwys y Cynllun**

2.1 Pwrpas adolygu'r cynllun eleni oedd gwneud yn si□r ein bod yn parhau i wneud y pethau iawn o ystyried y cyd-destun o galedi ariannol rydym yn gweithio ynddo. Er mwyn adolygu'n iawn, roedd angen inni ystyried beth oedd wedi newid ers y llynedd, gan edrych ar y materion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a pholisi sydd yn dylanwadu ar y Cyngor a'r sir ac sy'n debygol o wneud hynny yn y blynyddoedd nesaf.

2.2 Fel rhan o'r adolygiad, ac er mwyn cynnwys barn pobl Gwynedd ynddo, cynhaliwyd cyfres o sesiynau gyda'r cyhoedd ar draws y sir fis Tachwedd 2014 o'r enw Her Gwynedd.

2.3 Mae'r cynllun a gyflwynir yn Atodiad 1 yn cynrychioli'r newid sydd wedi bod ym mhwyslais y cynllun ers y llynedd. Bydd y pwyslais eleni a hyd at ddiwedd Mawrth 2017 ar wella gallu'r Cyngor i sicrhau'r gorau i bobl Gwynedd, ac fe fyddwn yn gwneud hynny drwy drawsffurfio gwasanaethau i fod yn wasanaethau y byddwn yn gallu eu cynnal i'r dyfodol.

2.4 Fel rhan o'r newid pwyslais roedd angen datgomisiynu rhai prosiectau a oedd wedi gwneud cynnydd digonol eisoes. Wrth gwrs, golyga hyn hefyd eu bod bellach yn addas i'w parhau fel rhan o waith dydd i ddydd y Cyngor. Rhestrir y prosiectau hyn isod.

Ymyrraeth Gynnar/Arbedol
Chwaraeon a Gweithgaredd Egnïol
Adolygiad Digonolrwydd y Ddarpariaeth Hamdden
Prosiectau Buddsoddi yng Ngwynedd: Yma Mae Pethau yn Digwydd
Cynllun Rheoli Carbon y Cyngor
Ymateb i Fygythiadau Newid Hinsawdd
Lleihau Gwastraff
Siartr Iaith Ysgolion Cynradd Gwynedd
Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg
Tai Gwag Nôl i Ddefnydd
Gwireddu Arbedion
Rheoli'r Galw
Lesu Tai Preifat*
Atal Digartrefedd*

*Noder y bydd y Prosiect Adolygu Strategaeth Cyflenwad Tai yng nghynllun 2015-17 yn adolygu ein strategaeth i gynyddu'r cyflenwad ac amrywiaeth o dai er mwyn sicrhau fod ein cyflenwad o dai yn addas ar gyfer anghenion pobl Gwynedd.

Bydd Adroddiad Perfformiad y Cyngor 2014-15 yn adrodd yn llawn ar berfformiad prosiectau Cynllun Strategol 2014-15.

2.5 Unwaith eto eleni, rydym wedi ceisio bod yn fwy eglur am ein rhesymeg dros fynd i'r afael â rhai o'r materion yn y cynllun gan amlinellu'r sefyllfa bresennol a chyfleu pa sefyllfa rydym eisiau ei gweld.

2.6 Mae goblygiadau ariannol posib ynghlwm â rhai o'r ymrwymiadau yn y cynllun, ac fe nodir y rheini fesul prosiect. Fe fydd y Cabinet yn anelu i adnabod cyllideb ar gyfer y prosiectau hynny.

2.7 Rydym hefyd yn dangos beth yn union rydan ni am ei wneud ac erbyn pryd i gyrraedd y sefyllfa rydym eisiau ei gweld. Mae'r cynllun yn cynnwys prosiectau a fydd yn cyfarch yr her, rhai sydd yn trawsffurfio gwasanaethau ac yn arbed arian, ac eraill lle mae blaenoriaeth glir ar gyfer gwireddu. Mae oes rhai o'r prosiectau yn ymestyn tu hwnt i fywyd y cynllun.

2.8 Mae gofyn statudol i baratoi ac ystyried canfyddiadau asesiad o effaith o safbwynt cydraddoldeb wrth baratoi'r Cynllun Strategol yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 fel y'i gweithredir yng Nghymru. Atodir yr asesiad yn Atodiad 2.

Nid yw'r asesiad yn canfod unrhyw effaith fyddai yn cyfiawnhau gwyro oddi wrth yr argymhelliad a rhagwelir elfennau fyddai ag effaith positif. Bydd y broses cynnal asesiad yn parhau wrth i gynigion penodol gael eu datblygu.

## 3.0 Argymhelliad

**Gwahoddir y Cyngor i fabwysiadu'r Cynllun Strategol.**

Atodiad 1

# CYNLLUN STRATEGOL CYNGOR GWYNEDD 2013 - 17
















CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

www.gwynedd.gov.uk

# Mynegai

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|
| Cyflwyniad yr Arweinydd | 02 |
| Proffil o Wynedd | 03 |
| Adolygu'r Cynllun | 05 |
| Gweledigaeth y Cynllun | 06 |
| Amcanion Gwella | 07 |
| **Plant a Phobl Ifanc** | 08 |
| **Gofal** | 15 |
| **Diogelu** | 20 |
| **Tlodi, Amddifadedd, Economi, Tai** | 23 |
| **Y Gymraeg** | 29 |
| **Cyngor Effeithiol ac Effeithlon** | 32 |
| **Cynllunio Ariannol** | 36 |
| Cyflawni'r Cynllun | 40 |
| Atodiad 1 - Mesurau | 41 |

# Cyflwyniad yr Arweinydd

Mae'r Cynllun Strategol hwn yn gyfle i ni fel Cyngor adolygu ein prif gynlluniau yn ystod y cyfnod diweddar, fel a amlygwyd yn ein cynllun gwreiddiol, gan gadarnhau ein bwriadau neu eu hail-wampio yn sgil newid yn yr amgylchiadau. Nid yw'r byd, na Gwynedd, yn aros yn llonydd ac mae'n rhaid i ni sicrhau ein bod yn effro i fygythiadau a chyfleon fel ei gilydd.


Yn yr un modd, mae'n rhaid i ni greu Cyngor sydd yn ystwyth ac sydd, yn anad dim, yn rhoi budd pobl a chymunedau Gwynedd yn flaenaf. Mae'r cyfnod hwn gyda'r tonnau di-ddiwedd o doriadau gan Lywodraeth Ganol yn mynnu ein bod yn sianelu ein hegnïon i geisio gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl ein sir, yn arbennig y rhai hynny sydd fwyaf dibynnol ar wasanaethau cyhoeddus.

Ac mae'n rhaid i ni yng Ngwynedd gydio yn y pethau arbennig sydd gennym i gynnig i Gymru ac i'r byd a thrwy hynny lywio ein Gwynedd yfory, er gwaetha'r wasgfa. Yng nghanol y storm, gallwn angori ein dyfodol yn ein cymunedau, yn ein hiaith a'n diwylliant, yn ein hamgylchedd naturiol, yn ein diwydiannau creadigol ac yn ein pobl ifanc.

Ond mae'r ffordd rydym yn cynnal gwasanaethau a chymunedau yn newid: wrth i'r sector cyhoeddus grebachu mae bwlch angen ei lenwi ac mae rôl gan bawb ohonom i ystyried pob posibilrwydd creadigol i'r dyfodol. Os ydym am geisio diogelu yr hyn rydym yn cyfrif yn bwysig yna mae rhaid bod yn barod i gefnogi ffyrdd newydd o gynnal y gwasanaethau hynny. Bydd Cyngor Gwynedd – yn aelodau a swyddogion – yn rhoi pob cefnogaeth sydd angen. Ond bydd unrhyw lwyddiant yn ddibynol ar ymdrechion grwpiau gwirfoddol, mentrau cymdeithasol, grwpiau trydydd sector, cynghorau tref a chymuned ac eraill.

Mae argyfwng economaidd yn aml yn arwain at newidiau radical. Credaf fod yma gyfle i ni yng Ngwynedd greu rhywbeth cadarnhaol yn ystod y cyfnod hwn: rhyw 'syndicatiaeth cymunedol' ble bydd asedau yn nwylo'r gymuned, nid y wladwriaeth a ble bydd grym yn nwylo y llawer, nid yr ychydig. Gadewch i ni gyd gyfrannu at y gwaith o ail-ddyfeisio ein dyfodol ein hunain.





Dyfed Edwards **Arweinydd y Cyngor**

# Proffil o Wynedd

Mae 75 Aelod Lleol yn eistedd ar Gyngor Gwynedd. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am ddarparu ystod eang o wasanaethau cyhoeddus ar gyfer 121,900 o breswylwyr, gan gynnwys: addysg ac ysgolion, gwasanaethau cymdeithasol, canolfannau hamdden, llyfrgelloedd, gwasanaethau cynllunio, priffyrdd, rheoli gwastraff, gwarchod y cyhoedd, gwasanaethau ieuenctid a datblygu'r economi.




Ers 2001, mae poblogaeth Gwynedd wedi cynyddu o 4.4% (5,100 o bobl). Mae hyn yn cymharu gyda chynnydd o 5.9% yng Nghymru.

Mae Gwynedd yn ardal wledig fawr sydd yn 2,535 cilomedr sgwâr o faint mewn termau daearyddol. Gwynedd yw'r ail sir fwyaf yng Nghymru ac mae'n werth 12% o gyfanswm arwynebedd y wlad.

Mae 65% o drigolion Gwynedd yn siarad Cymraeg a hithau hefyd yw iaith weinyddol fewnol y Cyngor.

Yn 2015-16, roedd Gwariant Refeniw Crynswth y Cyngor yn £367 miliwn. Ymhlith amrywiaeth eang o wasanaethau eraill, defnyddiwyd yr arian hwn i addysgu dros 16,000 o ddisgyblion, cynnal 2,888 cilomedr o briffyrdd a 301 cilomedr o arfordir.

Mae 97 Ysgol Gynradd, 14 Ysgol Uwchradd a 2 Ysgol Arbennig yng Ngwynedd.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am redeg 12 Canolfan Hamdden o fewn y sir ac 17 o Lyfrgelloedd.

Mae amgylchedd naturiol Gwynedd yn atyniad gwerthfawr o ran denu twristiaeth. Yn 2013, daeth oddeutu 6.6 miliwn o ymwelwyr i Wynedd gan greu £907 miliwn mewn refeniw.

Mae 67.5% o dir Gwynedd wedi ei leoli o fewn Parc Cenedlaethol Eryri, y parc cenedlaethol mwyaf yng Nghymru.

Cafodd ran helaeth o Ben Llŷn ei ddynodi yn Ardal o Harddwch Naturiol yn 1956, un o bump yng Nghymru.

Yn 2014, roedd canolrif incwm cartref yng Ngwynedd (£22,240) yn 8% yn is na'r ffigwr ar gyfer Cymru (£24,108) ac 25% yn is na'r ffigwr ar gyfer Prydain (£27,857).

Yn 2014, y pris canolrif ar gyfer tŷ yn cael ei werthu yng Ngwynedd oedd £136,000 sydd yn gynnydd o 3.0% o'i gymharu â 2011.

Amcangyfrifir bydd nifer yr aelwydydd yng Ngwynedd wedi cynyddu o 12.5% erbyn 2036. Mae hyn yn llai na'r amcangyfrif o gynnydd ar gyfer Cymru oll, sef 14.6%.

Yn ôl Arolwg Her Gwynedd (2014):

Roedd 84% o bobl yn fodlon neu'n fodlon iawn gyda Gwynedd fel lle i fyw;

Roedd 52% yn fodlon neu'n fodlon iawn gyda'r ffordd mae Cyngor Gwynedd yn rhedeg pethau;

Roedd 45% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod Cyngor Gwynedd yn cynnig gwerth am arian.

Roedd 17% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf fod Cyngor Gwynedd yn cynnig gwerth am arian.

Roedd 36% yn anghytuno eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau yn eu hardal leol, ond roedd 28% yn cytuno eu bod yn gallu dylanwadu ar y gwasanaethau maent yn eu defnyddio.

Gellir cael mwy o wybodaeth am y Cyngor a'i wasanaethau drwy ymweld â'r wefan - www.gwynedd.gov.uk

# Adolygu'r Cynllun

Cafodd y Cynllun Strategol gwreiddiol ar gyfer 2013-17 ei fabwysiadu gan y Cyngor ym mis Mai 2013.

Pwrpas adolygu'r cynllun eleni oedd gwneud yn siwr ein bod yn parhau i wneud y pethau iawn o ystyried y cyd-destun o galedi ariannol rydym yn gweithio ynddo. Er mwyn adolygu'n iawn, roedd angen inni ystyried beth oedd wedi newid ers y llynedd, gan edrych ar y materion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a pholisi sydd yn dylanwadu ar y Cyngor a'r sir ac sy'n debygol o wneud hynny yn y blynyddoedd nesaf. Rhoddwyd sylw hefyd i flaenoriaethau'r Bwrdd Gwasanaeth Lleol, sef: Pobl Hŷn, Adeiladu Teuluoedd Cryf, a Chymuneadau Cynaladwy/Adfywio Cymunedau.

Er mwyn cynnwys barn pobl Gwynedd yn yr adolygiad, fe wnaethon ni gynnal cyfres o sesiynau gyda'r cyhoedd ar draws Gwynedd fis Tachwedd 2014 o'r enw Her Gwynedd, a'u pwrpas oedd:

- Casglu barn trigolion Gwynedd ynghylch pa wasanaethau ac adnoddau y mae pobl yn eu gwerthfawrogi fwyaf
- Esbonio'n fanwl graddau'r her ariannol y mae Gwynedd yn ei wynebu
- Darganfod a oes ffyrdd eraill o ddarparu gwasanaethau er mwyn osgoi toriadau i wasanaethau lle bynnag bo hynny'n bosibl

Cafodd y sesiynau eu cynnal yn y lleoliadau canlynol: Caernarfon, Y Bala, Tywyn, Pwllheli, Blaenau Ffestiniog, Bangor, Porthmadog, Dolgellau ac Abermaw, a daeth cyfanswm o 280 o bobl iddynt, ac roedd y dystiolaeth o'r sesiynau hyn wedyn yn ein galluogi i benderfynu ar feysydd blaenoriaeth y cynllun. Mae'r adolygiad wedi arwain at newid pwyslais y cynllun, oherwydd y cyfnod ariannol anodd rydym ynddo:

<u>Meysydd</u>

Yn ystod yr adolygiad, daeth yn amlwg pa mor bwysig inni yn ystod cyfnod y Cynllun Stratgol hwn ydi meysydd Diogelu a Chynllunio Ariannol. Oherwydd hynny, rydym yn eu cynnwys fel meysydd newydd yn dilyn yr adolygiad. Nid yw cynllun eleni yn cynnwys y maes Amgylchedd. Mae hyn oherwydd ein bod wedi cyflawni ein blaenoriaethau strategol a byddwn nawr yn parhau i roi sylw i gynlluniau yn y maes amgylchedd fel rhan o waith dydd i ddydd y Cyngor.

<u>Prosiectau</u>

Ers y llynedd, mae chwe phrosiect wedi dod i ben oherwydd eu bod wedi cyflawni yr hyn roeddem wedi ei addo. Gan fod y cynllun diwygiedig yn newid ei bwyslais, roedd hynny'n golygu newid yn y prosiectau hefyd. Mae rhai ohonynt a oedd yng nghynllun y llynedd yn derbyn sylw fel rhan o waith dydd i ddydd y Cyngor, ac eraill wedi eu hymgorffori o fewn prosiectau newydd y cynllun.

<u>Mesurau</u>

Mae ein mesurau hefyd wedi eu haddasu er mwyn adlewyrchu'r newid pwyslais sydd yn y cynllun.

# Gweledigaeth y Cynllun

## Y gorau i bobl Gwynedd mewn cyfnod anodd

Ein gweledigaeth yn y cynllun hwn yw sicrhau ein bod yn parhau i gwrdd ag anghenion pobl Gwynedd er gwaetha'r ffaith bod adnoddau'r Cyngor yn prinhau. Bydd pwyslais ein Cynllun Strategol 2015-17 ar wella gallu'r Cyngor i sicrhau'r gorau i bobl Gwynedd, ac fe fyddwn yn gwneud hynny drwy drawsffurfio gwasanaethau i fod yn wasanaethau y byddwn yn gallu eu cynnal i'r dyfodol.

Heb gynllun fel hwn i gyfarch y sefyllfa, a pharatoi ar gyfer y cyfnod nesaf yn hanes Gwynedd, mae'n bosib y bydd gwasanaethau allweddol yn peidio â bod.

Mae'r cynllun eleni wedi ei baratoi mewn cyfnod o galedi ariannol, ac felly bu'n rhaid ystyried y cyd-destun hwnnw: Yn ychwanegol i'r arbedion o £13.6m rydym wedi eu cytuno er mwyn gweithredu yn fwy effeithlon, byddwn yn ymgynghori gyda'r cyhoedd rhwng mis Medi a Tachwedd 2015 ar y toriadau y bydd angen inni eu gwneud oherwydd y lleihad mewn adnoddau. Yn ogystal, etholwyd llywodraeth newydd i San Steffan fis Mai 2015, ac mae'r hyn yr ydym yn ei wybod am gynllun y Canghellor i leihau'r diffyg ariannol yn golygu y gallwn ddisgwyl parhad yn y pwysau ar ein cyllidebau dros y blynyddoedd i ddod, ac fe all hyn olygu toriadau pellach.

Mae Cyngor Gwynedd yn benderfynol o wynebu'r her ariannol, a gweithio yn ddi-flino i wella ein gwasanaethau er mwyn parhau i gynnig y gorau i bobl Gwynedd er gwaetha'r amgylchiadau. Bydd hyn, heb amheuaeth, yn golygu gwneud penderfyniadau anodd a lleihau ar rai gwasanaethau er mwyn gallu trawsnewid a chynnal rhai eraill.

Byddwn yn adolygu'r cynllun yn rheolaidd dros y ddwy flynedd nesaf, ac yn rhoi sylw gofalus i effaith unrhyw benderfyniad a wneir i dorri gwasanaeth ar ein gallu i gyflawni yr hyn rydym wedi ei addo yn y cynllun hwn.

Trefnir y cynllun yn ôl ein meysydd blaenoriaeth fel a ganlyn:

**Plant a Phobl Ifanc**
**Gofal**
**Diogelu**
**Tlodi, Amddifadedd, Economi, Tai**
**Y Gymraeg**
**Cyngor Effeithiol ac Effeithlon**
**Cynllunio Ariannol**

# Amcanion Gwella

Rhestrir yma grynodeb o'n **hamcanion gwella**. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar y materion y byddwn yn rhoi sylw pennaf iddynt dros gyfnod y cynllun. Rydym wedi pennu 16 o amcanion gwella, gyda'r cyntaf, sef 'Rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud' yn arwain y cyfan:

## Cyngor Effeithiol ac Effeithlon

AG1 Rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud

## Plant a Phobl Ifanc

AG2 Gwella ansawdd addysg

AG3 Creu rhwydwaith o ysgolion hyfyw i'r dyfodol

AG4 Gwella darpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig a Chynhwysiad

AG5 Gwella gwasanaethau ataliol i blant a phobl ifanc bregus

## Gofal

AG6 Gwella ymgysylltu gyda chymunedau ar yr her gofal

AG7 Gwella gweithio'n integredig gan ganolbwyntio ar yr hyn sy'n cyfri i unigolion

AG8 Paratoi'r gweithlu gofal er mwyn cwrdd â'r ffordd newydd o weithio

AG9 Gwella darpariaeth llety a gofal ar gyfer oedolion bregus

## Diogelu

AG10 Gwella trefniadau diogelu'r Cyngor

## Tlodi, Amddifadedd, Economi, Tai

AG11 Gwella ansawdd swyddi a lefelau cyflog

AG12 Cryfhau cryfder a chadernid busnesau a chadw'r budd yn yr economi leol

AG13 Cryfhau'r economi wledig

AG14 Cydymdrechu yn erbyn tlodi

## Y Gymraeg

AG15 Hybu defnydd y Gymraeg yng Ngwynedd

## Cynllunio Ariannol

AG16 Sicrhau cyllideb gytbwys gynaliadwy i'r dyfodol

Bydd yr amcanion gwella hyn yn cael eu gwireddu drwy gyfrwng y prosiectau sydd yn cael eu cynnwys yn y cynllun hwn.

# Plant a Phobl Ifanc

Mae dechrau cyfnod bywyd pob un ohonom wedi bod yn allweddol inni ar gyfer gosod sylfaen ar gyfer gweddill ein bywydau, ac mae'r egwyddor o wneud yn siwr fod pob plentyn a person ifanc yn cael yr un cyfleoedd ac yn derbyn yr un safon dda o addysg yn un bwysig.

Wrth inni ddatblygu trefniadau addysg Gwynedd, mae hefyd yn hanfodol ein bod yn gwneud yn siwr eu bod yn gynaliadwy i'r dyfodol, a'n bod yn gallu cynnig yr amgylchedd ddysgu orau i'n holl blant, pobl ifanc a staff. Mae'n flaenoriaeth i sicrhau bod y dysgwyr mwyaf bregus yn profi llwyddiant, a bydd angen hefyd sicrhau bod plant gydag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu hasesu yn gynnar a chywir ac yn cael cyfleoedd addysgu o'r ansawdd cywir. Mae hyn yn golygu y bydd rhaid inni ganolbwyntio ar sicrhau cysondeb yn ansawdd yr addysg rydym yn ei gynnig i holl blant a phobl ifanc y sir, lle bynnag y bônt yn byw.

Mae hefyd angen ystyried buddsoddi mewn gwaith ataliol ac ymyrraeth gynnar a darparu'r math cywir o wasanaeth. O wneud hyn yn llwyddiannus, bydd modd lleihau'r galw am wasanaethau statudol a galluogi plant a phobl ifanc i fyw yn fwy annibynnol.

**Rydym angen gweld sefyllfa** lle bydd ansawdd addysg yn fwy cyson o fewn y sir, ac y bydd trefniadau cadarn yn eu lle er mwyn helpu plant ag anghenion dysgu ychwanegol i gyflawni'u potensial. Rydym hefyd angen gwneud yn siwr bod ein cynlluniau ataliol yn fwy cynaliadwy a'n bod yn canolbwyntio ymdrechion yn y llefydd iawn.

**Beth yn union ydan ni am ei wneud ac erbyn pryd i gyrraedd y sefyllfa da ni eisiau ei gweld?**

Fe fydd gennym gyfres o brosiectau er mwyn cyfarch yr her sy'n ein hwynebu dros y ddwy flynedd nesaf:

### P1: Prosiect Strategaeth Ansawdd Addysg

Pwrpas y prosiect hwn yw paratoi a datblygu Strategaeth Ansawdd Addysg fydd yn sail i wella a chysoni safonau addysg ar draws y sir. Bydd y Strategaeth yn canolbwyntio yn enwedig ar wella cyrhaeddiad addysgol rhai grwpiau penodol, megis cyflawniad bechgyn a'r disgyblion hynny sy'n derbyn prydau ysgol am ddim. Bydd sylw penodol hefyd yn cael ei roi i wella arweinyddiaeth o fewn y maes addysg, ynghyd â chynigion i sicrhau rhwydwaith o ysgolion hyfyw i'r dyfodol. Bydd datblygu Strategaeth Ansawdd yn allweddol os am dargedu adnoddau cyfalaf ychwanegol i'r sir, yn enwedig o gyfeiriad Llywodraeth Cymru.

Erbyn diwedd Mawrth 2017, byddwn wedi datblygu a rhoi ar waith Strategaeth Ansawdd Addysg i'r sir.

Cost: Dim cost ychwanegol.

## P2: Prosiect Gwella Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Pwrpas y prosiect yma yw gwella amodau arweinyddiaeth er mwyn codi safonau. Bydd y prosiect yn gweithredu ar gynigion fydd yn gwella arweinyddiaeth a rheolaeth, gyda'r bwriad o symud tuag at y nod bod penaethiaid ysgolion yn ddigyswllt, hynny yw, nad ydynt yn dysgu plant.

Erbyn diwedd y prosiect, bydd gwell ansawdd o ran arweinyddiaeth o fewn ysgolion y sir. Yn ogystal, bydd strwythur gyrfa gliriach yn ei le ar gyfer athrawon. Bydd hyn yn allweddol os am sicrhau bod plant a phobl ifanc yn elwa o safonau mwy cyson yn ein hysgolion, gan y bydd effaith arweinyddiaeth gref yn cael effaith positif ar gyrhaeddiad plant a phobl ifanc.

Erbyn diwedd Mawrth 2017, byddwn wedi:

- Comisiynu adroddiad ar amodau arwain a rheoli ysgolion y sir a gweithredu ar yr argymhellion cytunedig
- Monitro a herio pob ysgol a defnyddio'r holl bwerau sydd ar gael i'r awdurdod wella arweinyddiaeth a rheolaeth mewn ysgolion sy'n tanberfformio
- Datblygu rheolwyr a darpar reolwyr o fewn gwasanaethau ac adnabod arweinwyr ar gyfer y dyfodol
- Datblygu cyfundrefn ysgol i ysgol rymus a sicrhau bod trefniadau mewn lle er mwyn rhannu arfer orau i osgoi dyblygu
- Sicrhau bod buddsoddiadau cyfalaf yn arwain at wella amodau arweinyddiaeth a rheolaeth

Cost: Dim cost ychwanegol.

## Rhaglen Creu Rhwydwaith o Ysgolion Hyfyw i'r Dyfodol

Pwrpas y rhaglen yma yw datblygu rhwydwaith o ysgolion hyfyw i'r dyfodol. Bydd cyflawni'r rhaglen yn creu gwell amodau i ddatblygu arweinyddiaeth, cynyddu a chysoni safonau addysg, a gwella profiadau i blant a phobl ifanc.

## P3: Prosiect Ysgol Bro Llifon

Pwrpas y prosiect yma yw darparu ysgol newydd yn sgil penderfyniad y Cyngor i gau ysgolion y Groeslon, Carmel, a Bron y Foel. Mae'r achos busnes eisoes wedi'i gymeradwyo, a bydd buddsoddiad o £4.84m yn creu amgylchedd dysgu ac yn cynnig adnodd newydd, addas i bwrpas a chynaliadwy, gan sicrhau ysgol a fydd yn gallu diwallu gofynion addysg heddiw.

Erbyn diwedd Mawrth 2017, byddwn wedi:

- Cwblhau holl elfennau gwahanol y gwaith sydd yn gysylltiedig â sefydlu'r ysgol ardal newydd
- Parhau â'r gwaith adeiladu gwerth £4.84 miliwn fel bod Ysgol Bro Llifon yn agor (Medi 2015)

Cost: Dim cost ychwanegol.

## P4: Prosiect Ysgol Hafod Lon

Pwrpas y prosiect yma yw darparu ysgol arbennig newydd i ddisgyblion Meirionnydd a Dwyfor a hynny yn wyneb y penderfyniad i gau'r Ysgol Hafod Lon bresennol.

Bydd lle i dros 100 o ddisgyblion yn yr ysgol newydd, ynghyd â darpariaeth breswyl ac egwyl fer. Bydd y datblygiad newydd yn creu darpariaeth fodern ac yn cynnwys adnoddau newydd a phwrpasol ar gyfer anghenion addysgol arbennig, gan wella cyfleoedd a phrofiadau plant, ac o ganlyniad safon eu haddysg. Bydd yr adeilad newydd yn cynnwys dosbarthiadau modern, pwll hydrotherapi, ystafelloedd therapi, offer synhwyraidd, ardaloedd addas tu allan ar gyfer chwarae a dysgu, yn ogystal â gardd a chaffi lle caiff y plant hŷn ddatblygu eu sgiliau mentergarwch. Bydd y cyfleusterau diweddaraf yma yn gwella profiadau plant sy'n mynychu yn ogystal â'u teuluoedd.

Erbyn diwedd Mawrth 2017, byddwn wedi:

- Cwblhau a chyflwyno'r Achos Busnes Llawn i Lywodraeth Cymru am eu cyfraniad o £6.5 miliwn fel rhan o Raglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain
- Cwblhau'r prosesau statudol angenrheidiol
- Cychwyn a chwblhau'r gwaith yn gysylltiedig â symud Ysgol Hafod Lon a Tŷ Aran i Benrhyndeudraeth a sefydlu'r uned breswyl newydd
- Cwblhau'r gwaith adeiladu arfaethedig ym Mhenrhyndeudraeth sydd gwerth £13 miliwn ac agor yr ysgol newydd (Medi 2016)

Cost: Dim cost ychwanegol.

## P5: Prosiect Dalgylch Y Gader

Pwrpas y prosiect hwn yw sefydlu un Ysgol Ddilynol Ddalgylchol cyfrwng Cymraeg 3-16 oed yn nalgylch Ysgol y Gader.

Bydd y cynnig hwn yn creu gwell amodau i ddatblygu arweinyddiaeth, rhannu adnoddau a gwella a chysoni ansawdd yr addysg ar draws y dalgylch. Golyga hefyd fuddsoddiad cyfalaf sylweddol o £4.34m i wella'r amgylchedd ddysgu ar safleoedd penodol yn y dalgylch.

Bydd yr ysgol ddilynol newydd yn agor yn Medi 2017.

Erbyn diwedd Mawrth 2017, byddwn wedi:

- Cwblhau a chyflwyno'r Achos Busnes Llawn i Lywodraeth Cymru am eu cyfraniad o £1.8 miliwn fel rhan o Raglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain.
- Cwblhau'r prosesau statudol angenrheidiol
- Cychwyn y broses o sefydlu corff llywodraethol cysgodol yr ysgol arfaethedig, pendoi pennaeth ac yna cwblhau'r strwythur staffio

Erbyn diwedd y prosiect, byddwn wedi agor ysgol ddilynol newydd (Medi 2017), a

- Chwblhau gwariant ôl-groniad cynnal a chadw safleoedd Friog, Y Gader a Dinas Mawddwy
- Cwblhau'r gwaith adeiladu arfaethedig gwerth £4.34 miliwn ar safleoedd Rhydymain, Llanelltyd a Cynradd Dolgellau

Cost: Dim cost ychwanegol.

**P6: Prosiect Ysgol Glancegin**

Pwrpas y prosiect hwn yw sicrhau buddsoddiad i ddarparu adeilad o'r newydd i Ysgol Glancegin sydd wedi ei lleoli ym Maesgeirchen, Bangor. Nid yw amgylchedd dysgu'r ysgol yn addas, gan fod yr adeiladau presennol wedi cyrraedd diwedd eu oes, ac mae eu cyflwr yn wael iawn.

Bydd y cynllun newydd yma yn sicrhau gofod modern a phwrpasol er mwyn gwella amodau i athrawon a phlant. Bwriedir yn ogystal ymchwilio i'r posibiliadau o ddatblygu Canolfan Integredig ar gyfer plant a theuluoedd ger safle yr ysgol newydd. Bydd y ganolfan hon yn dwyn ynghyd rai o'r gwasanaethau hynny sy'n cefnogi plant a theuluoedd ar Stad Maesgeirchen, a rhoi sylw penodol i wasanaethau blynyddoedd cynnar a rhai sy'n ataliol eu natur.

Erbyn diwedd Mawrth 2017, byddwn wedi:

- Cwblhau a chyflwyno'r Achos Busnes Llawn i Lywodraeth Cymru am eu cyfraniad o £2.55 miliwn fel rhan o Raglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain.
- Cwblhau proses ddylunio a thendro i ddatblygu cynllun adeilad a safle fydd yn cynnig yr ysgol newydd orau posib a pwrpasol i'r disgyblion

Erbyn diwedd y prosiect, byddwn wedi:

- Cwblhau'r gwaith adeiladu arfaethedig gwerth £5.11 miliwn
- Paratoi achos busnes llawn er mwyn datblygu canolfan integredig i blant a theuluoedd ar safle ger yr ysgol newydd ar stad Maesgeirchen

Cost: Dim cost ychwanegol.

**P7: Prosiect Dalgylch Y Berwyn**

Pwrpas y prosiect yma yw creu Campws Dysgu Gydol Oes cyfrwng Cymraeg ar safle presennol Ysgol y Berwyn. Bydd y Campws yn adnodd cymunedol o'r radd flaenaf i'r ardal, ac yn chwarae rhan allweddol wrth hyrwyddo'r iaith Gymraeg.

Bydd y cynnig yn arwain at fuddsoddiad o £9.27m yn nhref y Bala, gan wella yn sylweddol yr amgylchedd ddysgu i blant yr ardal. Yn ogystal, bydd y campws yn cynnwys adnoddau cymunedol fel llyfrgell a darpariaeth gelfyddydol, a bwriedir cyflwyno achos i ddenu adnoddau ychwanegol i wella'r ddarpariaeth chwareon.

Bydd y campws yn agor ym mis Medi 2018.

Erbyn diwedd Mawrth 2017, byddwn wedi:

- Cwblhau a chyflwyno'r Achos Busnes Llawn i Lywodraeth Cymru am eu cyfraniad o £4.63 miliwn fel rhan o Raglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain
- Cwblhau'r prosesau statudol ar yr opsiwn ffafredig i sefydlu Campws Dysgu 2-19
- Sefydlu corff llywodraethol cysgodol y Campws Dysgu arfaethedig, a chychwyn gwaith y corff o benodi pennaeth a chwblhau y strwythur staffio
- Cwblhau'r prosesau statudol er mwyn sefydlu ffederasiwn rhwng y tair ysgol yn y dalgylch
- Targedu adnoddau ychwanegol ar gyfer gwella'r ddarpariaeth chwaraeon i'r dyfdodol
- Cychwyn ar y gwaith adeiladu arfaethedig gwerth £9.27 miliwn ar safle presennol Ysgol Y Berwyn

Cost: Dim cost ychwanegol.

**P8: Prosiect Trawsnewid y ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad**

Pwrpas y prosiect yma fydd trawsnewid y gwasanaeth ar gyfer plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Nod y prosiect yw sicrhau bod plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn derbyn mwy o gefnogaeth ar gyfer manteisio ar gyfleoedd ac ennill profiadau sydd wedi'u cynllunio yn effeithiol ar eu cyfer, fel eu bod yn gwneud cynnydd priodol yn unol â'u gallu.

Erbyn diwedd y prosiect, bydd plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu hasesu yn gynnar a chywir ac yn cael y cyfleoedd addysgu o'r ansawdd cywir.

Erbyn diwedd Mawrth 2017, byddwn wedi:

- Mabwysiadu Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad a rhoi trefniadau mewn lle i'w gweithredu, gan gyflawni gwell deilliannau i blant a phobl ifanc am gost sylweddol lai
- Ail-strwythuro ac uwchsgilio'r gweithlu
- Sicrhau cysondeb mewn ansawdd darpariaeth

Cost: Dim cost ychwanegol.

**P9: Prosiect sicrhau ystod o wasanaethau ataliol ar gyfer grwpiau o blant a phobl ifanc bregus Gwynedd**

Pwrpas y prosiect hwn yw darparu cefnogaeth ar gyfer grwpiau bregus o blant a phobl ifanc er mwyn eu galluogi i fyw yn annibynnol heb orfod bod yn ddibynnol ar wasanaethau statudol. Bydd y prosiect yn sicrhau ymyrraeth gynnar ac yn pwysleisio bod y gefnogaeth briodol yn cael ei rhoi ar yr adeg gywir. Y bwriad yma yw sicrhau bod rhaglen glir o weithgareddau ataliol ar gael i bobl ifanc o fewn y sir, a bod honno yn rhaglen sydd â pherchnogaeth traws-sector, yn cynnwys y trydydd sector.



Wrth fuddsoddi yn y gwaith ataliol, yn y dyfodol, bydd llai o deuluoedd a phlant yn cael eu cyfeirio at ymyraethau cost uchel o fewn y gwasanaethau statudol. Bydd deilliannau positif i blant a phobl ifanc oherwydd bydd modd iddynt fyw yn annibynnol a bydd deilliannau busnes i'r gwasanaethau cyhoeddus gan y bydd lleihad yn y galw am wasanaeth statudol.

Erbyn diwedd Mawrth 2017, byddwn wedi:

- Cynnal awdit ac asesiad effaith o'r gweithgareddau/rhaglenni yn y maes
- Gweithredu Strategaeth Ataliol sy'n gosod cyfeiriad hirdymor ar gyfer gweithgareddau ataliol o fewn Gwynedd gan roi ystyriaeth i raglenni o fewn y trydydd sector, y Gwasanaeth Iechyd a'r Heddlu
- Gweithredu fframwaith ymgysylltu'r Llywodraeth, sy'n rhoi sylw i grwpiau bregus o blant a phobl ifanc

Cost: Dim cost ychwanegol.

| Beth fydd effaith yr hyn y byddwn yn ei wneud ar fywydau pobl Gwynedd? |
|---|
| Lefelau cyrhaeddiad disgyblion yn cynyddu ar draws y sir.<br><br>Llais a barn pobl ifanc yn gryf wrth lunio darpariaeth.<br><br>Rhieni yn teimlo bod eu barn yn cyfrif. |

| Cyfeirnod | Mesur | Tuedd diweddaraf | Cyfeiriad i'r dyfodol |
|---|---|---|---|
| EDU/016a | Canran presenoldeb yn ysgolion cynradd yn y flwyddyn academaidd |  | Cynnal |
| EDU/016b | Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd |  | Gwelliant |
| EDU/008aN | Nifer o waharddiadau parhaol yn ysgolion cynradd yn y flwyddyn academaidd |  | Bodolon gweld gostyngiad |
| EDU/008bN | Nifer o ddisgyblion a waharddwyd yn barhaol yn yr Uwchradd |  | Cynnal |
| Adn28 | Canran y Llefydd Gweigion (cyfunol) yn Ysgolion y Sir | (Dim digon o ddata hanesyddol) | Cynnal |
| CSP3 | Canran y cynnydd a wnaed gan deuluoedd yn dilyn ymyrraeth y Tîm o Amgylch y Teulu, Gyda'n gilydd | (Dim digon o ddata hanesyddol) | Cynnal |
| DANS08 | Canran disgyblion 15 oed sydd yn ennill trothwy lefel 2 (5 gradd A* - C TGAU) neu gyfatebol |  | I'w sefydlu |

# Gofal

Rydym wedi gwybod ers tro fod y boblogaeth pobl hŷn yng Ngwynedd yn cynyddu. Dangosodd cyfrifiad 2011 y rhagwelir twf yn ein poblogaeth dros 85 o 3,875 yn 2015 i 4,110 erbyn 2017 a 6,832 erbyn 2032. Wrth inni fyw yn hŷn, mae ein hanghenion yn newid gydag amser ac yn aml, fe all hyn olygu fod ar bobl angen gwasanaethau gofal a gwasanaethau iechyd ar yr un adeg.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru yn gosod cyfrifoldebau newydd ar y Cyngor, ac yn cynnig cyfle unwaith mewn cenhedlaeth i foderneiddio cyfraith gwasanaethau cymdeithasol. Mae'n nodi newid sylweddol yn y ffordd mae gwasanaethau allweddol llywodraeth leol yn cael eu darparu, ac mae pedair egwyddor sylfaenol:

1) Pobl – rhoi pobl a'u hanghenion yn ganolog i'w gofal, rhoi llais iddynt a rheolaeth dros eu canlyniadau bywyd
2) Llesiant – cefnogi pobl i gyrraedd at y cyflwr llesiant gorau y gallant, a mesur llwyddiant hyn
3) Ymyrraeth gynt – cynyddu gwasanaethau ataliol o fewn y gymuned er mwyn lleihau anghenion mwy dwys rhag codi
4) Cydweithio – asiantaethau a sefydliadau yn gweithio'n gryf mewn partneriaeth â'i gilydd

Ochr yn ochr â hyn, mae adnoddau'r Cyngor yn prinhau, sydd wedi golygu fod angen inni ganfod arbedion. Mae pobl hefyd yn dweud wrthym eu bod yn awyddus i barhau i fyw yn eu cartrefi ac i fod yn rhan o'u cymunedau.

Rydym angen ymateb i hyn drwy wneud yn siwr fod pobl Gwynedd yn ymwybodol o'r her sydd yn ein hwynebu a gweithio tuag at ffyrdd newydd a gwahanol o ddarparu gwasanaethau. Er mwyn cyflawni hyn, mae dau beth allweddol rydym angen eu wneud, sef yn gyntaf, gwneud yn siwr fod gennym staff sydd yn barod ar gyfer yr her, ac yn ail, gweithio'n agos gyda'r gwasanaethau iechyd er mwyn gwneud yn siwr ein bod yn medru ymateb i anghenion pob unigolyn.

**Rydym angen gweld sefyllfa** lle y bydd gan bobl Gwynedd ymwybyddiaeth dda o'r sialens sy'n wynebu'r maes gofal, ac y bydd gan staff yr hyder i gwrdd â'r ffordd newydd o weithio. Ffordd fydd hon a fydd yn addas i gwrdd â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 ac a fydd yn gwneud yn siwr fod mwy o bobl yn byw eu bywydau yn unol â'u dewis. Fe fydd angen i'r gwasanaethau sydd ar gael gyfarfod â'r gofynion fydd yn codi, a bydd angen gweithio gyda'n partneriaid yn y trydydd sector a chymunedau er mwyn i hynny ddigwydd. Fe fydd hefyd angen ystod o ymyraethau cynnar ac ataliol er mwyn gallu canolbwyntio ein gwasanaethau ar yr unigolion mwyaf bregus yn ein cymdeithas.

**Beth yn union ydan ni am ei wneud ac erbyn pryd i gyrraedd y sefyllfa da ni eisiau ei gweld?**

Fe fydd gennym gyfres o brosiectau er mwyn cyfarch yr her sy'n ein hwynebu dros y ddwy flynedd nesaf:

## G1: Prosiect Her Gofal

Pwrpas y prosiect hwn fydd ceisio sicrhau fod pobl Gwynedd yn gwbl glir o'r her sydd yn ein hwynebu i ysgogi a chefnogi cymunedau i gyfrannu drwy weithredu'n gymunedol. Fe fydd llwyddiant y prosiect hwn yn allweddol o ran gwaith ataliol a sicrhau ein bod fel Cyngor, ynghyd â'n partneriaid yn ymateb yn rhagweithiol i'r newid.

Ar ddiwedd y prosiect, bydd gan bobl Gwynedd ddealltwriaeth o'r maes a fydd yn golygu ein bod yn cyfrannu ac yn cefnogi'n naturiol y rhai mwyaf bregus yn ein cymunedau.

Erbyn Ebrill 2016, byddwn wedi:

- Creu y 'stori' ar gyfer cynulleidfaoedd gwahanol
- Datblygu rhaglen ddigwyddiadau ar gyfer rhan-ddeiliaid allweddol
- Datblygu adnoddau ar gyfer gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd
- Datblygu a dechrau gweithredu strategaeth gyfathrebu drwy ddefnyddio cyfryngau amrywiol
- Adnabod cryfderau cymunedau, hyrwyddo hyfywdra ac ysgogi gweithredu cymunedol
- Gweithio hefo cymunedau a partneriaethau allweddol i weithredu cynlluniau sydd yn hybu llesiant

Cost: Bydd y prosiect yn cael ei ariannu o adnoddau sydd eisoes wedi eu clustnodi ar gyfer y maes gofal.

## G2 Prosiect Gweithio'n Integredig ar yr hyn sy'n cyfri i unigolion

Er mwyn ymateb i heriau amlwg y maes mae'n allweddol ein bod yn gweithio'n effeithiol, a hynny lle'n briodol, yn integredig gyda Bwrdd Iechyd Lleol Betsi Cadwaladr. Pwrpas y prosiect hwn fydd ail ddylunio ein ffordd gyfredol o weithio gan sicrhau ein bod yn rhoi pobl Gwynedd (pobl hŷn a phobl ag anableddau corfforol yn benodol yng nghyswllt y prosiect yma) yn gwbl ganolog. Ar hyn o bryd, mae'r gwaith yn parhau i gael ei ddatblygu a'i dreialu mewn ardal benodol ond mae disgwyl y bydd hwn yn sylfaen ar gyfer y model gwasanaethu newydd cwbl integredig ar draws gwasanaethau oedolion.

Erbyn diwedd y prosiect, bydd gennym wasanaethau sydd yn gallu cwrdd â'r hyn sy'n cyfri i unigolion yn y ffordd fwyaf effeithiol bosib, gan sicrhau hefyd nad ydym yn sugno unigolion i fod yn ddibynnol ar wasanaethau statudol heb fod angen.

Mae'n anodd rhoi amcangyfrif amser penodol ar gyfer y newid yn ei gyfanrwydd. Oherwydd maint y trawsffurfio, mae'n debygol y bydd yn 2020 cyn y bydd y newid diwylliant wedi ei ymgorffori yn llwyr.

Er hyn, bydd disgwyl i'r prosiect gyflawni'r canlynol erbyn Mawrth 2017:

- Sefydlu'r trefniadau gweithio a sicrhau eglurder ynglŷn â sut y byddwn yn mesur effaith
- Cytuno ar yr amserlen prif ffrydio'r ffordd newydd o weithio drwy'r sir (pobl hŷn a phobl ag anableddau corfforol)

- Penderfynu os yw'r ffordd yma o weithio yn addas ar gyfer meysydd anableddau dysgu ac iechyd meddwl

Cost: Dim cost ychwanegol.

**G3: Ail-strwythuro Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant**

Os am lwyddo gyda'r newid sylweddol a newid meddylfryd a diwylliant yr adran, mae'n hanfodol bod strwythur staffio yr adran yn addas i bwrpas ar gyfer y dyfodol. Nid yw'r strwythur fel ag y mae yn addas, ac felly mae'n anorfod fod angen ei adolygu.

Yn y dyfodol bydd gan yr adran staff a rheolwyr sydd yn gallu gweithio yn effeithiol ac yn gallu ymateb yn llawn i ofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a'r dull newydd o weithio.

Erbyn Mawrth 2017, rhagwelir y bydd y prosiect wedi ei weithredu'n llawn ac wedi ail-strwythuro yr elfennau canlynol yn yr adran:

- Uwch Reolaeth – Mehefin 2015
- Rheolaeth – Hydref 2015
- Strwythur ehangach – Rhagfyr 2016

Cost: Dim cost ychwanegol.

**Rhaglen o brosiectau Lletya a Darpariaethau Gofal**

Pwrpas y rhaglen hon yw sicrhau fod gan bobl Gwynedd y ddarpariaeth llety a gofal mwyaf addas er mwyn cyfarch eu hanghenion i'r dyfodol, o fewn y cyfyngiadau adnoddau a'n bod fel Cyngor yn ymateb yn rhagweithiol i'r galw.

Erbyn diwedd y rhaglen bydd gan oedolion bregus Gwynedd yr ystod addas o ddewisiadau lletya a gofal fydd yn eu galluogi i fyw bywydau mor llawn a bodlon â phosib.

Erbyn diwedd Mawrth 2017 bydd y rhaglen wedi cyflawni y prosiectau canlynol:

**G4: Prosiect Strategaeth Letya Pobl Hŷn**

Pwrpas y prosiect yma yw sicrhau cytundeb ar y Strategaeth Letya Pobl Hŷn a'i defnyddio i bwrpas trafodaethau datblygol gyda phartneriaid.

Byddwn wedi cwblhau y prosiect erbyn diwedd Mawrth 2016.

Cost: Dim cost ychwanegol.

**G5: Prosiect Tai Gofal Ychwanegol**

Pwrpas y prosiect yma yw adeiladu Tai Gofal Ychwanegol ym Mhorthmadog.

Erbyn diwedd Mawrth 2017, byddwn wedi cyrraedd camau olfa y gwaith adeiladu ym Mhorthmadog, ac erbyn diwedd y prosiect yn haf 2017, byddwn wedi ei gwblhau.

Cost: Dim cost ychwanegol.

**G6: Prosiect Frondeg**

Pwrpas y prosiect yma yw sicrhau eglurder ar safle Frondeg a phenderfynu ar y ffordd ymlaen.

Byddwn wedi cwblhau y prosiect erbyn diwedd Mawrth 2017.

Cost: Dim cost ychwanegol.

**G7: Prosiect Darpariaeth Fewnol**

Pwrpas y prosiect yma yw penderfynu ar sut rydan ni'n rhedeg y Gwasanaeth Darparu (sydd yn darparu gwasanaeth gofal) yn ogystal â'r hyn rydym yn ei gyflawni a dechrau gweithredu ar hynny.

Byddwn wedi cwblhau y prosiect erbyn diwedd Mawrth 2017.

Cost: Bydd angen ystyried yr angen am adnoddau ychwanegol unwaith y bydd penderfyniad ar ddyfodol y Gwasanaeth Darparu wedi ei wneud.

| Beth fydd effaith yr hyn y byddwn yn ei wneud ar fywydau pobl Gwynedd? |
|---|
| Fod pobl Gwynedd yn deall mwy o'r her sy'n wynebu'r maes Gofal, Iechyd a Llesiant Oedolion a sut allent gyfrannu.<br><br>Fod defnyddwyr gwasanaeth yn gallu gwneud yr hyn sy'n cyfri iddyn nhw.<br><br>Fod diwylliant staff wedi newid a'u bod yn defnyddio egwyddorion Ffordd Gwynedd i roi'r cwsmer yn gwbl ganolog. |

| Cyfeirnod | Mesur | Tuedd diweddaraf | Cyfeiriad i'r dyfodol |
|---|---|---|---|
| | Nid does unrhyw fesurau ychwanegol i'r hyn sydd wedi ei nodi fel mesurau allweddol.<br><br>Noder fod mesurau cenedlaethol yn cael eu datblygu i gyd fynd a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a bod rhai ohonynt sydd wedi eu drafftio yn ddelfrydol o ran mesur effaith rhai o'r prosiectau dan sylw yma. Bydd y mesuryddion rhain wedi eu ffurfioli ac yn weithredol erbyn Ebrill 2016. | | |

# Diogelu

Mae diogelu plant ac oedolion bregus yn hollbwysig er mwyn sicrhau fod pob unigolyn yn cael yr un cyfleoedd mewn bywyd a diogelu'r rhai mwyaf bregus yn ein cymdeithas. Er bod cynnydd da eisoes wedi ei wneud o ran trefniadau gwaith, mae angen gwaith pellach er mwyn sicrhau bod ymwybyddiaeth a diwylliant o bwysigrwydd diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion bregus yn treiddio i bob rhan o'r Cyngor.

**Rydym angen gweld sefyllfa** lle mae holl drefniadau diogelu'r Cyngor yn gadarn, gyda thystiolaeth bendant bod staff ac aelodau'r Cyngor yn gweithredu yn unol â'r disgwyliadau. Rydym hefyd angen gweld tystiolaeth bod ein trefniadau yn cael effaith bositif ar y maes diogelu.

**Beth yn union ydan ni am ei wneud ac erbyn pryd i gyrraedd y sefyllfa da ni eisiau ei gweld?**

Rydym angen gwella perchnogaeth aelodau a staff o'r maes diogelu, a gweithredu yn effeithiol o ran diogelu plant ac oedolion bregus Gwynedd. Bydd tri phrosiect yn ein galluogi i gyflawni hyn, ond bydd diogelu, wrth gwrs, yn faes blaenoriaeth parhaus i'r Cyngor, a byddwn yn parhau i adolygu a monitro tu hwnt i gyfnod y Cynllun Strategol:

### D1 Prosiect sicrhau perchnogaeth Cyngor cyfan i'r maes diogelu

Pwrpas y prosiect yw sicrhau fod perchnogaeth gorfforaethol i'r agenda diogelu a bod gweithredu yn effeithiol o ran diogelu plant ac oedolion bregus Gwynedd.

Erbyn diwedd Mawrth 2017 byddwn wedi:

- Adolygu polisïau a gweithdrefnau yn flynyddol
- Sicrhau bod trefniadau yn eu lle ar gyfer mesur effaith y trefniadau diogelu corfforaethol
- Cynnal sesiynau codi ymwybyddiaeth o'r maes a monitro eu heffaith
- Cynnal awdit blynyddol o gydymffurfiad gyda'r polisi
- Monitro trefniadau cytundebu (staff a darpariaethau) o ran diogelu gan gryfhau gweithdrefnau lle bo angen
- Sicrhau bod aelodau craffu yn ymwybodol o waith y Panel Strategol Diogelu

Cost: Dim cost ychwanegol.

### D2 Prosiect diogelu plant a phobl ifanc

Pwrpas y prosiect yma yw gwella yn barhaus y trefniadau a diwylliant diogelu o fewn y maes plant a phobl ifanc. Erbyn diwedd Mawrth 2016, byddwn wedi:

Adolygu trefniadau y Cyngor o ran ymateb i'r risg o Ecsploetio Plant yn Rhywiol (CSE) gan:

- Sicrhau fod trefniadau'r Cyngor yn cyd fynd â'r strategaeth ranbarthol sy'n cael ei datblygu'n aml asiantaethol

- Sicrhau fod y Cyngor, gymaint ag sydd bosib, yn deall y galw am wasanaeth, a thueddiadau CSE yng Ngwynedd
- Gwella dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth unigolion a grwpiau allweddol o'r maes arbennig hwn gan gynnwys sut i adnabod arwyddion
- Gydnabod bod y risg yn uwch i blant mewn gofal a gweithio gyda'r Panel Rhiant Corfforaethol ar geisio gwarchod y plant mwyaf bregus

Byddwn hefyd yn ystod 2015-16 yn cryfhau ymhellach weithdrefnau a diwylliant diogelu o fewn y maes Addysg drwy:

- Gynnal yr awdit blynyddol o drefniadau diogelu a llywodraethu o fewn yr adran ac o fewn ysgolion
- Greu rhaglen hyfforddiant i ddiwallu anghenion yr awdit blynyddol
- Weithredu rhaglen waith yn unol ag argymhellion yr awdit blynyddol ac ystyried hefyd unrhyw gyfleoedd i wella

Cost: £60,000.

## D3 Prosiect diogelu oedolion bregus

Pwrpas y prosiect yw anelu i wella yn barhaus y trefniadau a diwylliant diogelu o fewn y maes oedolion. Erbyn diwedd Mawrth 2016, fe fydd y prosiect yn benodol wedi ymateb i argymhellion Adroddiad Winterbourne a hefyd adroddiad y Comisiynydd Pobl Hŷn "Lle i alw'n gartref" gan:

- Ddatblygu ystod o wahanol ddulliau lle gall unigolion cael eu clywed
- Adnabod a oes defnydd addas o eiriolaeth a cheisio ymateb i unrhyw ddiffygion
- Ddarparu tystiolaeth bod y grwpiau corfforaethol yn gallu dangos eu bod yn gwrando ar lais oedolion bregus

Cost: Dim cost ychwanegol.

| Beth fydd effaith yr hyn y byddwn yn ei wneud ar fywydau pobl Gwynedd? |
|---|
| Fod Plant ac Oedolion bregus Gwynedd yn gwybod sut i leisio barn.<br><br>Fod Plant ac Oedolion bregus Gwynedd yn teimlo'n saff.<br><br>Fod Staff ac Aelodau Etholedig yn gwybod be i wneud o ran achosion diogelu.<br><br>Fod y canlyniadau yr Awdit blynyddol yn adlewyrchu cynnydd neu gostyngiad o ran effaith. |

| Cyfeirnod | Mesur | Tuedd diweddaraf | Cyfeiriad i'r dyfodol |
|---|---|---|---|
| PEN14 | Canran o'r holl staff sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion bregus sydd a gwiriad Disclosure and Baring Service (DBS) cyfredol. | (Dim digon o ddata hanesyddol) | Cynnal |
| BUS07 | Canran holl staff Gwynedd wedi derbyn hyfforddiant Lefel 1 mewn amddiffyn a diogelu. | (Dim digon o ddata hanesyddol) | Gwelliant |
| Diogelu2 | Cyfradd yr asesiadau risg a gafodd eu cyflwyno i Gynadleddau Achos a oedd yn cael eu hystyried yn rhai a oedd yn dangos ansawdd wrth wneud penderfyniadau. | ✓ | Cynnal |

# Tlodi, Amddifadedd, Economi, Tai

Mae patrwm yr economi yng Ngwynedd yn dangos amrywiaeth o elfennau sydd yn dylanwadu ar sefyllfa ariannol pobl y sir. Rydym yn gwybod fod 39% o weithwyr y sir yn cael eu cyflogi yn y sector gyhoeddus, sydd yn cymharu â 35% yng Nghymru. Yn ogystal, mae dros 14,000 o fusnesau yng Ngwynedd, gyda 13,250 o'r rheini yn fusnesau sy'n cael eu disgrifio yn 'meicro', sef yn cyflogi 0-9 o bobl.

Mae tlodi mewn gwaith yn fater cynyddol bwysig yn genedlaethol a lleol gan gynnwys yn yr ardaloedd mwyaf gwledig. Mae cyflogau isel yn nodwedd amlwg yn y sir, gyda chyflog wythnos cyfartalog i weithiwr llawn amser yn Nwyfor/Meirionnydd yn £389.20, sef yr isaf yng Nghymru a'r 5ed isaf ym Mhrydain. Yn ychwanegol i hyn, mae Gwynedd yn bell o'r ardaloedd mawr, ac mae hyn yn ogystal â maint busnesau yn golygu eu bod yn ei chael yn anodd i gystadlu am fusnes.

Mae'r diffyg amrywiaeth economaidd yma yn rhwystr allweddol i bobl gael mynediad i'r farchnad dai, gyda 61% o aelwydydd y sir wedi eu prisio allan o'r farchnad a 1,993 o bobl wedi eu cofrestru ar restr aros am dŷ cymdeithasol.

Fel rhan o'n hymateb i hyn rydym yn aelod o Fwrdd Uchelgais Gogledd Cymru a trwy'n gwaith yn dylanwadu ar y rhaglen waith er mwyn i bobl a busnesau Gwynedd gallu elwa'n llawn o'r cyfleoedd rhanbarthol.

**Rydym angen gweld sefyllfa** lle mae gennym swyddi o ansawdd a lefelau cyflog da, busnesau cryf a chadarn a buddion contractau mawr yn cael eu cadw'n lleol. Rydym hefyd yn awyddus i weld effaith tlodi ar grwpiau ac ardaloedd daearyddol penodol wedi ei liniaru, a chynnydd mewn cyflenwad tai mewn ardaloedd o angen er mwyn i bobl gael mwy o ddewisiadau tai.

**Beth yn union ydan ni am ei wneud ac erbyn pryd i gyrraedd y sefyllfa da ni eisiau ei gweld?**

Fe fydd gennym gyfres o brosiectau er mwyn cyfarch yr her sy'n ein hwynebu dros y ddwy flynedd nesaf:

### T1 Prosiect Swyddi Gwerth Uchel ac o Ansawdd

Pwrpas y prosiect hwn yw creu'r amodau er mwyn creu swyddi gwerth uchel ac o ansawdd yn y sir. Bydd yn anelu i sicrhau bod trigolion y sir wedi eu paratoi ar gyfer y cyfleoedd swyddi sydd yng Ngwynedd, ac yn creu cyswllt gydag addysg pobl ifanc. Mae'r prosiect hefyd yn ymwneud â marchnata'r sir i gwmnïau o fewn sectorau penodol sydd â'r gallu i greu swyddi gwerth uchel yn ogystal â chynnig cefnogaeth i fusnesau dyfu er mwyn iddynt gael y gallu i greu swyddi gwerth uchel i drigolion yr ardal.

Erbyn diwedd y prosiect, bydd mwy o swyddi gwerth uchel ac o ansawdd o fewn y sir, ac erbyn diwedd Mawrth 2017, byddwn wedi:

- Adnabod y sectorau mwyaf arwyddocaol i Wynedd o ran creu swyddi gwerth uchel rŵan ac i'r dyfodol (gan gynnwys adnabod cyfleoedd penodol a daw i fusnesau lleol)
- Creu, a rhoi ar waith, becyn o ddeunyddiau marchnata arloesol, wedi'u targedu yn uniongyrchol at fusnesau o fewn y sectorau penodol hynny
- Hwyluso creu a chynnal clystyrau busnes yn y sectorau penodol hynny
- Cydweithio gyda'r sector addysg a'r Consortiwm ôl-16 i hyrwyddo'r hyn yr ydym yn ei ragweld fel "swyddi'r dyfodol" yn yr ardal
- Paratoi achos busnes ar gyfer rhaglen Llwyddo'n Lleol er mwyn hyrwyddo mentergarwch yn y sector swyddi gwerth uchel
- Gweithredu ymgyrch benodol i dargedu buddsoddiad fydd yn creu swyddi o ansawdd yn ardal fenter Trawsfynydd/Llanbedr
- Cydweithio gyda Chyngor Ynys Môn ar raglenni Ynys Ynni er mwyn sicrhau budd i bobl Gwynedd o fuddsoddiad datblygu Wylfa newydd

Cost: Dim cost ychwanegol.

## T2 Prosiect Cadw'r Budd yn Lleol

Pwrpas y prosiect yw sicrhau bod gan fusnesau'r sir yr wybodaeth a'r gallu i fanteisio ar drefn gaffael gwasanaethau a nwyddau newydd y Cyngor. Bydd cefnogaeth ychwanegol ar gael i alluogi busnesau i gystadlu ac ennill cytundebau'r Cyngor a thu hwnt, yn cynnwys prosiectau cyfalaf a digwyddiadau rhanbarthol. Bydd pwyslais ar geisio datblygu rhwydwaith o gadwyni cyflenwi lleol.

Erbyn diwedd y prosiect bydd cynnydd arwyddocaol yn nifer o fusnesau'r sir sydd gyda'r ddealltwriaeth a'r gallu i ennill cytundebau'r Cyngor, ac erbyn diwedd Mawrth 2017, byddwn wedi:

- Uchafu gwariant y Cyngor efo busnesau lleol
- Mewnosod 3 categori rheolaeth caffael o fewn y Cyngor

Cost: Dim cost ychwanegol.

## T3 Prosiect Gwynedd Digidol

Pwrpas y prosiect yw cefnogi ymdrechion i drawsnewid defnydd busnesau, gwasanaethau a thrigolion Gwynedd o dechnoleg drwy sicrhau bod darpariaeth o fandeang cyfoes ar draws y sir. Byddwn yn hyrwyddo'r cyfleoedd newydd ac yn annog a chefnogi unigolion a busnesau i fabwysiadu'r dechnoleg. Byddwn yn cefnogi busnesau i ennyn mantais o'r ddarpariaeth newydd a chefnogi cymunedau i fanteisio ar y dechnoleg newydd.

Erbyn diwedd y prosiect, bydd busnesau a thrigolion y sir yn manteisio ar fandeang cyflym a'r budd mae'n ei gynnig, ac erbyn diwedd Mawrth 2017, byddwn wedi:

- Rhoi cefnogaeth i fusnesau a thrigolion Gwynedd gael mynediad i fandeang
- Cefnogi mentrau Gwynedd i ddeall manteision busnes y dechnoleg newydd
- Cefnogi busnesau i e-fasnachu rhagor

- Cefnogi cymunedau i ddefnyddio technoleg mewn ffordd arloesol
- Cydweithio i gefnogi trigolion Gwynedd i gael mynediad i wasanaethau ar lein

  Cost: Dim cost ychwanegol.

### T4 Cefnogi'r Economi Wledig

Pwrpas y prosiect yw creu'r amodau i gryfhau sail economi wledig Gwynedd gan annog mentrau lleol i sefydlu a datblygu er mwyn cynnal cyflogaeth ar draws cymunedau Gwynedd. Bydd y prosiect yn canolbwyntio ar adeiladu ar gryfderau Gwynedd a byddwn yn cyfeirio ymdrech i ardaloedd mwyaf gwledig y sir. Bydd adnoddau rhaglenni gwledig LEADER a Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru yn cael ei dargedu i ymateb i flaenoriaethau Cynllun Cyflogaeth Meirionnydd a Chynllun Cyflogaeth Llŷn ac Eifionydd.

Erbyn diwedd y prosiect, byddwn wedi gweithio gyda'n partneriaid i sefydlu rhaglenni a phrosiectau ar draws yr ardaloedd gwledig.

Erbyn diwedd Mawrth 2017, byddwn wedi:

- Mabwysiadu Cynllun Cyflogaeth Llŷn ac Eifionydd
- Sefydlu rhaglen Ewropeaidd LEADER yng Ngwynedd a'i gweithredu i gefnogi datblygiad mentrau gwledig
- Cydweithio gyda phartneriaid i dargedu adnoddau Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru i gwrdd ag anghenion penodol Gwynedd wledig

Cost: Dim cost ychwanegol.

### T5 Prosiect Safle Treftadaeth y Byd

Pwrpas y prosiect hwn fydd creu budd economaidd o dreftadaeth gyfoethog Gwynedd. Bydd y rhaglen yn canolbwyntio ar Safleoedd Treftadaeth Byd presennol ac yn cyflwyno achos am statws Safle Treftadaeth Byd i rannau o'r dyffrynnoedd llechi.

Erbyn diwedd y prosiect, bydd safleoedd ar draws Gwynedd yn cael eu cydnabod yn rhyngwladol a bydd y sir yn manteisio ar y budd economaidd fydd yn dod yn sgil hyn.

Erbyn diwedd Mawrth 2017, byddwn wedi:

- Cyflwyno cais i UNESCO i ennill statws safle treftadaeth y byd i'r diwydiant llechi
- Paratoi rhaglen o ymyraethau gyda phartneriaid i hyrwyddo balchder a gwaith yn y cymunedau
- Cyflwyno cais am arian Ewropeaidd i ddatblygu rhaglen Glannau Menai ar y cyd â Llywodraeth Cymru a phartneriaid lleol
- Cydweithio gyda CADW a phartneriaid i farchnata a hyrwyddo'r Safleoedd Treftadaeth Byd

Cost: Dim cost ychwanegol.

## T6 Gwella mynediad pobl y sir i waith ac ymateb i rwystrau

Pwrpas y prosiect hwn fydd hwyluso a gweithredu pecyn o brosiectau er mwyn cefnogi unigolion bregus i mewn i waith. Mae'n brosiect rhanbarthol (Gogledd Cymru) gyda Gwynedd wedi bod yn cyfrannu at gomisiynu'r gwaith.

Mae hyn yn cynnwys cynlluniau megis TRAC 11-16 sy'n cefnogi pobl ifanc rhwng 11 a 16 oed sydd wedi datgysylltu ag addysg, ac sydd fwyaf tebygol o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET); TRAC 16-24 sy'n ymgysylltu â phobl ifanc rhwng 16-24 oed sydd yn NEET a'u hannog yn ôl i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth a chynllun OPUS sy'n gweithio gydag unigolion gydag anableddau dysgu neu broblemau iechyd meddwl sy'n economaidd anweithredol ac yn 25 oed neu drosodd er mwyn eu cael i mewn i gyflogaeth gynaliadwy. Er bod nifer o'r cynlluniau sydd ar y gweill yn y maes yma yn rhanbarthol eu natur, mae'n allweddol bod trefniadau cadarn yn eu lle er mwyn sicrhau bod grwpiau bregus o blant a phobl ifanc Gwynedd yn cael budd uniongyrchol ohonynt.

Erbyn diwedd Mawrth 2017, byddwn wedi:

- Gweithredu rhaglenni ataliol mewn ysgolion er mwyn cefnogi grwpiau bregus o blant a phobl ifanc
- Sicrhau y ddarpariaeth gywir ar gyfer pobl ifanc er mwyn osgoi iddynt golli allan ar y cyfleoedd yn y farchnad lafur
- Gweithio gydag unigolion gydag anableddau dysgu neu broblemau iechyd meddwl er mwyn eu cefnogi i gyflogaeth gynaliadwy

Erbyn diwedd y prosiect bydd unigolion bregus yn cael eu cefnogi a'u hannog i mewn i fyd gwaith.

Cost: Dim cost ychwanegol

## T7 Cydymdrechu yn erbyn tlodi

Pwrpas y prosiect hwn fydd mabwysiadu a gweithredu Strategaeth i Drechu Tlodi yng Ngwynedd ar y cyd gyda phartneriaid. Bydd gweithredu'r Strategaeth yn cynnwys ymyraethau mewn pedwar maes, sef: Cynhwysiad Digidol (ar y cyd â Gwynedd Ddigidol a Citizens Online), Cynhwysiad Ariannol, Cynhwysiad Economaidd (ar y cyd â Phecyn Gwella Mynediad Pobl i Waith), ac Ymateb i Ddiwygio Lles.

Erbyn diwedd Mawrth 2017, byddwn wedi:

- Sefydlu trefn bartneriaethol ar gyfer yr Agenda Trechu Tlodi yng Ngwynedd
- Mabwysiadu Strategaeth Trechu Tlodi Tymor Hir
- Cytuno ar raglen waith gyda phartneriaid
- Hyfforddi Staff Rheng Flaen mewn llythrennedd ariannol a digidol
- Parhau i weithredu'r gronfa Tâl Dewisol Tai er mwyn cefnogi teuluoedd i osgoi mynd i ddyled oherwydd y dreth llofftydd
- Darparu Gwasanaethau Cymorth Lleol newydd i gefnogi Hawlwyr y Credyd Cynhwysol

- Sicrhau cyngor arbenigol i hawlwyr budd-daliadau mewn lleoliadau hanesyddol dirwasgedig yn ardaloedd Caernarfon, Bangor a Thalysarn (hyd at Fawrth 2016)
- Datblygu a gweithredu pecyn o gynlluniau i gefnogi grwpiau bregus o bobl ifanc fel eu bod yn cael mynediad i gyfleon gwaith

Cost: Dim cost ychwanegol.

## T8 Prosiect Adolygu Strategaeth Cyflenwad Tai

Pwrpas y prosiect hwn fydd adolygu ein strategaeth i gynyddu'r cyflenwad ac amrywiaeth o dai er mwyn sicrhau fod ein cyflenwad o dai yn addas ar gyfer anghenion pobl Gwynedd. Bydd y prosiect yn arwain at ddatrysiadau gwahanol mewn gwahanol ardaloedd ac hefyd yn gwneud yn siŵr fod gennym eglurder ar beth yw ein dylanwad a beth yn union y medrwn ei wneud.

Hyd nes y byddwn yn penderfynu ar yr hyn y byddwn yn ei wneud, byddwn yn parhau i weithio i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd, ynghyd â sefydlu unedau tai fforddiadwy yn y sir.

Erbyn diwedd y Mawrth 2017, byddwn wedi adolygu'r strategaeth gyflenwad tai a phenderfynu ar beth yn union y byddwn yn ei wneud i'r dyfodol.

Cost: Dim cost ychwanegol.

| **Beth fydd effaith yr hyn y byddwn yn ei wneud ar fywydau pobl Gwynedd?** |
|---|
| Bydd trigolion yn fwy hysbys o'r cyfleoedd gwaith sy'n bodoli rŵan ac i'r dyfodol.<br><br>Bydd gan gyflogwyr berthynas dda gyda'r sefydliadau addysg er mwyn hwyluso llwybrau at waith. |

| Cyfeirnod | Mesur | Tuedd diweddaraf | Cyfeiriad i'r dyfodol |
|---|---|---|---|
| CAFF06d | Canran gwariant y Cyngor efo busnesau lleol | | Gwelliant |
| YRE1 | Nifer busnesau'r Sir yn adrodd iddynt ddefnyddio technoleg (e.fusnes / e.fasnachu) o ganlyniad i ymyrraeth Gwynedd Ddigidol. | (Dim digon o ddata hanesyddol) | Gwelliant |
| Uchel07 | Nifer swyddi gwerth uchel wedi'u creu. | (Dim digon o ddata hanesyddol) | Gwelliant |
| PENECON1 | Nifer swyddi wedi eu creu gyda chymorth y Cyngor | | Bodlon gweld gostyngiad i gymharu a'r flwyddyn flaenorol oherwydd ansicrwydd derbyn arian grant. Ond swyddi yn parhau i gael eu creu o ganlyniad i'r prosiect. |
| GD01 | Nifer cymuned (daearyddol / o ddiddordeb) yn defnyddio technoleg mewn ffordd newydd / arloesol. | (Dim digon o ddata hanesyddol) | Gwelliant |
| GD02 | Nifer o unigolion sydd wedi derbyn cymorth i fynd ar-lein / defnyddio'r we er eu budd personol. | (Dim digon o ddata hanesyddol) | Gwelliant |

# Y Gymraeg

Mae Gwynedd wedi bod yn gadarnle i'r iaith a'r diwylliant Cymraeg erioed, ond gwelwyd gostyngiad graddol yn niferoedd y siaradwyr Cymraeg. Yn ôl cyfrifiad 2011, roedd gostyngiad o -846 yn y nifer o siaradwyr Cymraeg yng Ngwynedd, sef -3.5% o'i gymharu gyda Chyfrifiad 2001.

Mae yna bocedi o ddiffyg ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a hunaniaeth Gymraeg ymysg trigolion, ynghyd â diffyg defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg gan blant a phobl ifanc. Mae diffyg hyder ymysg rhai trigolion i ddefnyddio'r gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau, ac mae anghysondeb mewn darpariaeth gwasanaethau dwyieithog ar draws y sir. Mae'r Cyngor hefyd yn awyddus i hyrwyddo defnydd y Gymraeg yng nghyd-destun Safonau Iaith y Comisiynydd Iaith.

**Rydym angen gweld sefyllfa** lle mae Gwynedd yn parhau yn gadarnle i'r iaith, a'i bod yn iaith bob dydd sydd yn cael ei chlywed a'i siarad yn naturiol gan blant, pobl ifanc ac oedolion ar hyd ac ar led y sir.

**Beth yn union ydan ni am ei wneud ac erbyn pryd i gyrraedd y sefyllfa da ni eisiau ei gweld?**

Fe fydd gennym gyfres o brosiectau er mwyn cyfarch yr her sy'n ein hwynebu dros y ddwy flynedd nesaf:

### I1 Cymunedau yn Hyrwyddo'r Gymraeg

Pwrpas y prosiect hwn fydd hyrwyddo'r Gymraeg drwy gefnogi a grymuso pedair cymuned i weithredu'r Fframwaith Gweithredu'n Lleol gan gynorthwyo trigolion i gynnal asesiad o sefyllfa'r Gymraeg yn y gymuned er mwyn cryfhau statws a defnydd yr iaith.

Erbyn diwedd Mawrth 2017, byddwn wedi cefnogi trigolion yn y pedair gymuned i lunio a chyflawni eu cynlluniau gweithredu mewn ymateb i ganfyddiadau'r Fframwaith Gweithredu'n Lleol

Cost: Cyllidir drwy grant gan Lywodraeth Cymru.

### I2 Y Gymraeg a'r Gwasanaethau Cyhoeddus

Pwrpas y prosiect hwn yw creu diffiniad o weithle dwyieithog y byddai'r Cyngor ac wedi hynny, y Bwrdd Gwasanaeth Lleol yn ei fabwysiadu fel diffiniad safonol ac yn ymgyrraedd ato dros gyfnod o amser er mwyn sicrhau eglurder a safon cyson o wasanaethau cyhoeddus dwyieithog i drigolion y ddwy sir. Yn ychwanegol at hyn, bydd yn gyfrwng i gefnogi'r dyletswydd fydd ar gyrff cyhoeddus yn ystod y blynyddoedd nesaf i gydymffurfio efo'r Safonau Iaith a osodir arnynt gan Gomisiynydd y Gymraeg. Bydd hefyd yn gyfrwng i ategu'r gofynion sydd ynghlwm â'r strategaeth *Mwy na Geiriau*.

Erbyn diwedd Mawrth 2016, bydd diffiniad safonol o weithle dwyieithog, ac erbyn Mawrth 2017, bydd cyrff cyhoeddus Gwynedd a Môn wedi mabwysiadu'r diffiniad.

Cost: Dim cost ychwanegol.

## I3 Pobl Ifanc yn defnyddio'r Gymraeg yn Gymdeithasol

Pwrpas y prosiect hwn fydd sefydlu gwaelodlin a mesur cynnydd yn nefnydd cymdeithasol o'r Gymraeg gyda phobl ifanc. Bydd yn fan cychwyn ar gyfer gweithredu pellach i gynyddu defnydd cymdeithasol pobl ifanc o'r Gymraeg, ac yn sicrhau dilyniant i'r prosiect Siarter Iaith sydd yn weithredol yn ysgolion cynradd Gwynedd.

Erbyn diwedd Mawrth 2016, byddwn wedi sefydlu a byddwn yn gweithredu dull safonol o fesur defnydd cymdeithasol pobl ifanc o'r Gymraeg. Bydd yn ein galluogi i fesur cynnydd defnydd cymdeithasol hyd at 500 o bobl ifanc o'r Gymraeg

Yn ystod y cyfnod hwn hefyd, bydd hyd at 250 o bobl ifanc wedi cynnal 10 gweithgaredd i gynyddu defnydd cymdeithasol y Gymraeg.

Cost: Dim cost ychwanegol.

## I4 Awdit o sefyllfa'r Gymraeg yng Nghyngor Gwynedd

Mae dau bwrpas i'r prosiect hwn:

Yn gyntaf, bydd yn ystyried llwyddiant y Cyngor i normaleiddio'r Gymraeg drwy ei adrannau a'r gwasanaethau a ddarperir i drigolion y sir.

Yn ail, bydd yn cyflawni gwaith ymchwil er mwyn canfod a chadarnhau i ba raddau y mae'r Cyngor yn mynd gam ymhellach ac yn llwyddo i fanteisio ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg drwy gyfrwng y gwasanaethau rydym yn eu darparu i drigolion y sir. Gwasanaethau rydym yn eu darparu yn uniongyrchol, yn ogystal â gwasanaethau rydym yn eu darparu drwy drefniadau a chytundebau trydydd parti.

Bydd y gwaith hwn yn gyd-destun ac yn sylfaen gadarn ar gyfer y Safonau Iaith y bydd y Cyngor yn atebol am eu gweithredu gan Gomisiynydd y Gymraeg ac a fydd yn dod i rym yn ystod 2015-16.

Erbyn Mawrth 2016, byddwn wedi sefydlu dealltwriaeth gadarn o'r modd y mae'r Cyngor yn hyrwyddo'r Gymraeg ar hyn o bryd, a'r cyfleoedd ychwanegol sydd ar gael i'r Cyngor i hyrwyddo'r Gymraeg gyda thrigolion y sir.

Erbyn Mawrth 2017, byddwn wedi datblygu a gweithredu rhaglen waith gadarn mewn ymateb i ganfyddiadau'r ymchwil, gan sicrhau fod rhagor o wasanaethau'r Cyngor yn atebol ac yn rhagweithiol yn hyrwyddo'r Gymraeg.

Cost: Byddwn yn cyflawni'r gwaith o fewn yr adnoddau presennol.

| Beth fydd effaith yr hyn y byddwn yn ei wneud ar fywydau pobl Gwynedd? |
|---|
| Plant a phobl ifanc Gwynedd yn dewis defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol.<br><br>Plant a phobl ifanc Gwynedd â gwell ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a hunaniaeth.<br><br>Pobl Gwynedd (mewn 4 cymuned) wedi eu grymuso i gynllunio'n ieithyddol.<br><br>Pobl Gwynedd yn manteisio ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned, y gweithle, ac wrth gyrchu gwasanaethau cyhoeddus.<br><br>Gwasanaethau'r Cyngor yn hyrwyddo'r Gymraeg ymysg trigolion, a thrigolion yn manteisio ar y cyfleoedd hynny i ddefnyddio'r Gymraeg. |

| Cyfeirnod | Mesur | Tuedd diweddaraf | Cyfeiriad i'r dyfodol |
|---|---|---|---|
| Iaith13 | Canran y ysgolion uwchradd sydd wedi sefydlu gwaelodlin o ddefnydd cymdeithasol pobl ifanc Blwyddyn 7 o'r Gymraeg | (Dim digon o ddata hanesyddol) | Gwelliant |
| Iaith14 | Canran cyrff cyhoeddus Gwynedd a Môn sydd wedi mabwysiadu diffiniad safonol o weithle dwyieithog. | (Dim digon o ddata hanesyddol) | Gwelliant |

# Cyngor Effeithiol ac Effeithlon

Oherwydd y sefyllfa ariannol bresennol, mae'n hanfodol i'r Cyngor fod yn rhoi ei dŷ mewn trefn a gwneud yn siwr fod ganddo'r gallu i ymateb i anghenion pobl Gwynedd nawr ac i'r dyfodol. Mae hynny'n golygu gwneud y mwyaf o'r adnoddau sydd gennym, e.e. arian a staff, gwneud yn siwr nad oes gennym brosesau gwastraffus a diangen, a gwybod beth mae pobl Gwynedd yn ei ddweud wrthym ynglyn â sut rydym yn ymateb i'w hanghenion.

Yr egwyddor allweddol i hyn yw rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud. Yn ogystal â gwrando ar farn a sylwadau pobl, fe all hyn hefyd olygu bod yn agored i feddwl am fodelau newydd o ddarparu gwasanaeth, e.e. cydweithio gydag awdurdodau eraill, gweithio gydag awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru, gweithio gyda gweddill awdurdodau Gogledd Cymru, neu weithio i allanoli neu fewnoli gwasanaethau, h.y. beth bynnag fydd yn gweithio orau i bobl Gwynedd.

**Rydym angen gweld sefyllfa** lle y bydd trefniadau gwaith y Cyngor yn hwyluso cyflawni yn hytrach na chynnal proses ac y bydd meddylfryd staff y Cyngor yn parhau i newid i edrych drwy lygaid ein dinesydd.

**Beth yn union ydan ni am ei wneud ac erbyn pryd i gyrraedd y sefyllfa da ni eisiau ei gweld?**

Fe fydd gennym gyfres o brosiectau er mwyn cyfarch yr her sy'n ein hwynebu dros y ddwy flynedd nesaf:

### C1 Prosiect Rhoi Ffordd Gwynedd ar Waith

Pwrpas y prosiect hwn fydd yn arwain timau gwasanaeth i adlewyrchu ar eu trefniadau gwaith presennol, i herio a ydynt yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog, ac i ystyried a oes lle i wella.

Drwy wneud hyn byddwn yn sicrhau fod pob uned gwasanaeth o fewn y Cyngor yn rhoi bobl Gwynedd yn ganolog i bopeth y maent yn ei wneud. Bydd hefyd yn sicrhau ein bod yn ystyried dulliau amgen o weithredu (gan gynnwys cydweithio ag eraill) gan fesur y syniadau hynny yn ôl un llinyn mesur yn unig – sef i ba raddau y mae'n cynyddu'r budd i bobl Gwynedd.

Erbyn diwedd y prosiect (Mawrth 2019), bydd 31 o adolygiadau gwasanaeth wedi eu cynnal a diwylliant y Cyngor wedi newid yn sylweddol o'r herwydd.

Erbyn diwedd Mawrth 2017, byddwn wedi cwblhau 12 adolygiad gwasanaeth a hyrwyddo egwyddorion Ffordd Gwynedd ymysg rheolwyr y Cyngor.

Cost: Gyda buddsoddiad ychwanegol o £150mil, gellir cwblhau 31 adolygiad erbyn diwedd 2018-19, o'u cymharu â 22 a fyddai'n bosib heb fuddsoddiad ychwanegol.

### C2 Prosiect Rhaglen Ddatblygu Arweinwyr

Pwrpas y prosiect hwn yw sicrhau fod arweinwyr o fewn Cyngor Gwynedd yn deall egwyddorion Ffordd Gwynedd, eu bod yn ymwybodol o beth sydd angen iddynt hwy ei wneud er mwyn atgyfnerthu egwyddorion Ffordd Gwynedd drwy holl haenau'r sefydliad, a bod yna gyfundrefn yn ei le i sicrhau bod hynny'n digwydd yn gyson.

Erbyn diwedd Mawrth 2017, byddwn wedi cynnal rhaglen o ddatblygiad personol ar gyfer pob aelod o Grwp Rheoli'r Cyngor a'r Cabinet fydd yn eu harfogi i arwain ac atgyfnerthu'r diwylliant gwaith o fewn y Cyngor.

Cost: Dim cost ychwanegol.

### C3 Prosiect Ymgysylltu

Pwrpas y prosiect hwn yw gwella ymgysylltu ar draws y Cyngor. Bydd y gweithgareddau ynghlwm a'r prosiect yn:

- Cynyddu ymwybyddiaeth adrannau o'r gefnogaeth gorfforaethol sydd ar gael i wella gweithgareddau ymgysylltu
- Rhoi hyfforddiant i staff ac aelodau yn y maes
- Sicrhau cytundeb ar sut i ymestyn y defnydd o lwyfannau cyfathrebu ac ymgysylltu newydd megis gwefannau cymdeithasol
- Adolygu a diwygio deunyddiau ymgysylltu'r Cyngor
- Ymateb yn lleol i argymhellion y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar ein trefniadau ymgysylltu
- Adolygu ról a bodlonrwydd aelodau ar drefniadau ymgysylltu
- Cynnal cyfres o ymgyrchoedd dan faner Her Gwynedd i ymgysylltu gyda phobl Gwynedd er mwyn sicrhau fod ganddynt lais ym mhenderfyniadau'r Cyngor ac adrodd nol ar y canlyniadau

Erbyn diwedd Mawrth 2017, bydd y prosiect yma wedi sicrhau bod Strategaeth Ymgysylltu yn cael ei gweithredu ac yn cynnwys cyfres o weithgareddau i wella ymgysylltu ar draws y Cyngor.

Cost: Dim cost ychwanegol.

### C4 Prosiect Gweithredu Cyfundrefn Berfformiad

Pwrpas y prosiect hwn fydd datblygu a gweithredu cyfundrefn berfformiad newydd. Bydd y gyfundrefn yn sicrhau fod timau gwasanaeth yn mesur yr hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd, a defnyddir y mesurau hynny i wella perfformiad. Bydd y drefn adrodd ar hynny yn ychwanegu gwerth drwy ddal gwasanaethau yn atebol.

Cost: Dim cost ychwanegol.

**C5 Prosiect ymestyn y defnydd o hunanwasanaeth**

Pwrpas y prosiect hwn yw ymestyn y defnydd o hunanwasanaeth i hwyluso mynediad pobl Gwynedd at wasanaethau'r Cyngor ac ar gost is na'r sianeli traddodiadol. Fe fydd y sianel ddigidol yn cael ei datblygu dros gyfnod o dair blynedd ac yn cyflwyno hyd at 38 gwasanaeth ar y sianel hon.

Cost: Byddai'r prosiect yn darparu arbedion tebygol o oddeutu £90-£185k y flwyddyn, fodd bynnag, byddai angen £255k unwaith ac am byth i gyflogi adnodd 2 swyddog am gyfnod o 2 flynedd a 3 blynedd.

Erbyn diwedd Mawrth 2017, byddwn wedi creu system graidd ar gyfer cofnodi a hwyluso mynediad at wasanaethau'r Cyngor fydd yn cynnwys y sianeli cyswllt traddodiadol a'r sianel ddigidol ar gyfer hunanwasanaeth.

**C6 Prosiect Strategaeth Technoleg Gwybodaeth (TG)**

Pwrpas y prosiect hwn yw llunio Strategaeth Technoleg Gwybodaeth fydd yn gosod allan y cyfeiriad am y cyfnod i ddod ar gyfer uchafu'r budd a geir o ddefnyddio'r arf yma ynghyd a'r rhaglen waith ar gyfer gwireddu'r strategaeth honno.

Erbyn diwedd Mawrth 2016, byddwn wedi llunio Strategaeth TG.

Cost: Dim cyllid ychwanegol.

**C7 Prosiect Electronig Document and Records Management System (EDRMS)**

Pwrpas y prosiect hwn yw sefydlu system EDRMS fydd yn sicrhau bod trefniadau rhannu gwybodaeth y Cyngor yn llawer haws ac effeithiol. Bydd y system yn storio a rheoli mynediad i holl ddogfennau electronig. Bydd hefyd yn hwyluso cynlluniau arbedion drwy alluogi staff i arbed amser.

Erbyn diwedd 2017, bydd o leiaf pump o adrannau'r Cyngor yn defnyddio system EDRMS.

Cost: Dim cost ychwanegol.

**C8 Prosiect Llywodraethu Gwybodaeth**

Pwrpas y prosiect hwn yw adolygu ein trefniadau hyfforddi ar gyfer staff sy'n gweithio gyda gwybodaeth bersonol er mwyn sicrhau bod hyfforddiant yn effeithiol a'n bod yn hyderus fod gwybodaeth bersonol pobl Gwynedd yn gwbl ddiogel yn ein dwylo.

Erbyn diwedd 2017, byddwn wedi asesu priodoldeb ein trefniadau diogelu gwybodaeth (gan gynnwys effeithiolrwydd ein trefniadau hyfforddiant) gan lunio unrhyw gynigion sydd ei angen ar gyfer gwreiddio egwyddorion diogelwch gwybodaeth drwy'r holl sefydliad.

| Beth fydd effaith yr hyn y byddwn yn ei wneud ar fywydau pobl Gwynedd? |
|---|
| Gwasanaethau yn gallu dangos eu bod wedi deall ac yn ymateb i'r hyn sydd yn bwysig i bobl Gwynedd.<br><br>Gwell ymwybyddiaeth o'r her ariannol mae'r Cyngor yn ei wynebu.<br><br>Mesurau perfformiad yn adlewyrchu'r hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd. |

| Cyfeirnod | Mesur | Tuedd diweddaraf | Cyfeiriad i'r dyfodol |
|---|---|---|---|
| FfG01 | Canran o unedau busnes o fewn y Cyngor sydd wedi derbyn marc siartr Ffordd Gwynedd | (Dim digon o ddata hanesyddol) | Gwelliant |
| FfG02 | Canran o fesurau a sefydlwyd wrth ddilyn trywydd Prosiect Rhoi Ffordd Gwynedd ar Waith sydd yn dangos gwelliant | (Dim digon o ddata hanesyddol) | Gwelliant |

# Cynllunio Ariannol

Y cyd-destun i'r Cynllun Strategol yma yw'r gostyngiadau digynsail yn y grantiau gan Lywodraeth Cymru i llywodraeth leol yng Nghymru ar gyfer 2014-15 a 2015-16 ar gofynion cynyddol sydd ar ein gwasanaethau oherwydd galw ychwanegol, ac effaith chwyddiant. Ar gyfer 2014-15 fe welodd Cyngor Gwynedd ostyngiad o 4.4% yn yr arian y mae'n ei dderbyn mewn grant oddi wrth y Llywodraeth ym Mae Caerdydd, ac roedd y setliad terfynol ar gyfer 2015-16 yn golygu fod Cyngor Gwynedd yn wynebu colled grant o £7m, sy'n ostyngiad o 4% arall. Rydym felly mewn sefyllfa lle byddwn yn wynebu gwario mwy na'r incwm sydd ar gael dros y tair blynedd sydd i ddod.

Er mwyn cynnal gwasanaethau allweddol i'r dyfodol, rhaid wynebu'r her a gwneud penderfyniadau anodd. Mae'r rhagolygon yn dangos fod y bwlch hyn am gynyddu yn sylweddol dros y blynyddoedd i ddod, a dros y cyfnod hyd at 2017-18 y gallasai fod gymaint â £50miliwn. Er byddwn yn wynebu sefyllfa anodd dros ben am gyfnod estynedig, mae'r Cyngor yn benderfynol o beidio gadael i hynny weithredu fel esgus i beidio â cheisio gwella pethau i bobl Gwynedd.

Ar yr un pryd, rhaid inni barhau i sicrhau fod pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud. Mae'n bwysig fod effaith yr arbedion ar bobl Gwynedd yn cael ei gadw i'r lleiafswm lleiaf posib, gan geisio parhau i gyflawni mwy yn y meysydd hynny sydd o flaenoriaeth.

Ar sail yr wybodaeth sydd gennym, rydym wedi rhagweld be allwn ei wynebu, ac wedi ystyried sut byddwn yn dygymod â sefyllfa o'r fath, ac mae'r tafluniad ar gyfer y tair blynedd i ddod yn gosod darlun realistig o'r hyn a allai ein taro, ac yn nodi'r arbedion hynny sydd eisoes yn cael eu cynllunio a'u gwireddu. Dylid nodi y gallai'r amcangyfrifol hyn newid dros amser.

**Tafluniad cyllidebol at ddibenion cynllunio 2015-16 – 2017-18**

| | 2015-16 £m | 2016-17 £m | 2017-18 £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|---|
| Gofynion Gwario ychwanegol | 6.1 | 10.2 | 6.7 | 23 |
| Colled oherwydd gostyngiad grant | 7.1 | 3.5 | 6.1 | 16.7 |
| Y Bwlch | 13.2 | 13.7 | 12.8 | 39.7 |
| Treth Gyngor | -2.5 | -1.9 | -2 | -6.4 |
| Diffyg Cynlluniedig | 10.7 | 11.8 | 10.8 | 33.3 |
| Hen Gynlluniau Arbedion | -0.3 | -0.2 | 0 | -0.5 |
| Cynlluniau Arbedion newydd | -8.4 | -2.7 | -3.8 | -14.9 |
| | | | | |
| Defnydd balansau / arbedion i'w darganfod / toriadau | 2 | 8.9 | 7 | 17.9 |

Dros y tair blynedd nesaf felly, byddwn yn cynllunio i ddarganfod y bwlch ariannol o £33.3m drwy gadw'r holl opsiynau yn agored (gan gynnwys y posibilrwydd o gynyddu'r Dreth Cyngor yn uwch na 3.5% a darganfod arbedion o gyllidebau'r ysgolion). Mae'n egwyddor pwysig fodd bynnag, fod pwyslais yr arbedion ar sicrhau arbedion effeithlonrwydd, h.y. cynnal gwasanaethau gyda llai o adnoddau, heb gael effaith ar bobl Gwynedd. Fodd bynnag, lle mae'n rhaid gwneud toriadau i wasanaethau, mae angen i'r rheini gael eu gwneud yn y meysydd sy'n cael y lleiaf o effaith ar bobl Gwynedd. Dyma yw sail nifer o'r cynlluniau a nodir o dan y maes hwn.

Bydd modd cyflawni nifer o'r cynlluniau a nodir yn y Cynllun Strategol drwy ddefnyddio adnoddau presennol, ond ar gyfer rhai ohonynt bydd angen buddsoddi er mwyn cyflawni'r uchelgais dan sylw.

**Rydym angen gweld sefyllfa** lle mae gennym gyllideb gytbwys gynaliadwy, tra ar yr un pryd yn sicrhau fod gennym yr adnoddau angenrheidiol i wireddu uchelgais y Cyngor ar gyfer pobl Gwynedd.

**Beth yn union ydan ni am ei wneud ac erbyn pryd i gyrraedd y sefyllfa da ni eisiau ei gweld?**

Fe fydd gennym gyfres o brosiectau er mwyn cyfarch yr her sy'n ein hwynebu dros y ddwy flynedd nesaf:

**CA1 Prosiect Gwireddu Arbedion**

Pwrpas y prosiect hwn yw sicrhau fod trefniadau yn eu lle er mwyn gwireddu'r arbedion effeithlonrwydd o £13.6m sydd eisoes wedi eu cytuno fel rhan o'r gyfundrefn arbedion ynghyd ag unrhyw arbedion pellach a adnabyddir.

Erbyn diwedd Mawrth 2017, byddwn wedi gwireddu yr arbedion effeithlonrwydd a gafodd eu cynllunio ar gyfer y cyfnod.

Cost: Dim cost ychwanegol.

**CA2 Prosiect Cytundeb Canlyniadau**

Pwrpas y prosiect hwn yw sicrhau fod y Cyngor yn gallu hawlio'r swm llawn o £1.3m sydd ar gael yn 2014-15 ac 2015-16 am gyflawni canlyniadau sydd wedi eu cytuno gyda'r Llywodraeth.

Erbyn diwedd Mawrth 2017, byddwn wedi hawlio'r gyfradd llawn o'r cyllid sydd ar gael inni am wireddu'r canlyniadau a gafodd eu cytuno gyda'r Llywodraeth.

Cost: Dim cost ychwanegol.

**CA3 Prosiect Toriadau**

Pwrpas y prosiect hwn yw sefydlu y toriadau y gellir eu gwireddu er mwyn cau'r bwlch ariannol fydd ar ôl yn ystod cyfnod y Cynllun Strategol wedi i ni gyflawni'r arbedion effeithlonrwydd.

Erbyn diwedd Mawrth 2017, byddwn wedi sefydlu rhestr, ac wedi gwireddu unrhyw doriadau y bydd y Cyngor wedi eu cymeradwyo yn ystod cyfnod y cynllun strategol.


Cost: Dim cost ychwanegol.

**CA4** Prosiect Effeithlonrwydd pellach a modelau darparu gwasanaeth

Pwrpas y prosiect yma yw darganfod cynlluniau effeithlonrwydd pellach er mwyn lleihau maint y toriadau fydd eu hangen yn ogystal ag ymchwilio i feysydd lle mae'n bosib newid y model presennol o ddarparu gwasanaeth gan felly wneud arbedion.

Erbyn diwedd Mawrth 2017, byddwn wedi darganfod cynlluniau effeithlonrwydd pellach i'w gwireddu.

Cost: Dim cost ychwanegol.

| Cyfeirnod | Mesur | Tuedd diweddaraf | Cyfeiriad i'r dyfodol |
|---|---|---|---|
| DT3.1b | Swm arbedion a gyflawnwyd |  | Gwelliant |
| Arb01 | Swm arbedion effeithlonrwydd a gyflawnwyd fel canran o'r holl arbedion |  | Gwelliant |
| CytC03 | Canran o'r swm a hawliwyd drwy'r cytundeb canlyniadau |  | Cynnal |

# Cyflawni'r Cynllun

Mae cyflawni'r cynllun yn flaenoriaeth bwysig ynddo'i hun. Rydym wedi rhoi trefniadau priodol mewn lle ar bob lefel o fewn y Cyngor er mwyn cyflawni'r cynllun ac mae gan bawb ran bwysig i'w chwarae yn hynny.

Y Cyngor llawn sy'n gyfrifol am fabwysiadu'r Cynllun Strategol a gosod y cyfeiriad i waith y Cyngor dros y blynyddoedd nesaf.

Bydd **Aelodau Cabinet y Cyngor** yn gyfrifol am weithredu'r Cynllun Strategol o fewn eu meysydd cyfrifoldeb ac yn sicrhau fod trefniadau rheoli prosiect a rheoli perfformiad cadarn mewn lle er mwyn cyflawni'r hyn rydym yn mynd i'w wneud.

Bydd y **Pwyllgorau Craffu** yn dal yr Aelodau Cabinet i gyfrif am eu perfformiad o safbwynt cyflawni a byddant hefyd yn craffu effaith y cynllun ar drigolion Gwynedd.

Bydd y **Cyngor** yn parhau i gydweithio gyda'i bartneriaid yn y sector gyhoeddus, trydydd sector a sector breifat i wireddu blaenoriaethau sydd angen mewnbwn gan fwy nag un partner i'w cyflawni.

Fel rhan o'n ymrywmiad i roi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud, byddwn yn ymgysylltu'n barhaus gyda thrigolion a chymunedau er mwyn rhoi cyfleoedd iddynt ddylanwadu ar waith y Cyngor a'u grymuso i gymryd perchnogaeh a chyfrifoldeb o'r dyfodol.

# Atodiad 1 – Mesurau

| Mesurau pwysig i bobl Gwynedd | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfeirnod** | **Mesur** | **Tuedd diweddaraf** | **Cyfeiriad i'r dyfodol** |
| EDU/006ii | Canran y disgyblion a aseswyd mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cael Asesiad Athrawon yn y Gymraeg (iaith gyntaf) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 |  | Gwelliant |
| EDU/011 | Cyfartaledd y sgôr pwyntiau ar gyfer disgyblion sy'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol |  | Gwelliant |
| EDU/017 | Canran y disgyblion 15 oed ar y 31 Awst blaenorol, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol a gyflawnodd y trothwy Lefel 2+ yn cynnwys gradd A*-C TGAU mewn Cymraeg mamiaith neu Saesneg a Mathemateg |  | Gwelliant |
| Iaith 05 | Canran yr ysgolion cynradd sydd yn gallu dangos cynnydd yn nefnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg | (Dim digon o ddata hanesyddol) | I'w sefydlu |
| CHR/002 | Nifer y diwrnodau/shifftiau gwaith wedi'u colli oherwydd salwch, fesul gweithiwr awdurdod lleol cyfwerth ag amser llawn |  | Cynnal |
| CD5.01 | Llwyddiant i gadw o fewn y gyllideb |  | Cynnal |
| CD6.01 | Canran yr anfonebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod (ar draws y Cyngor) |  | Cynnal |
| TMGC4 | Budd i'r economi o gefnogi digwyddiadau proffil uchel a strategol |  | Bodlon gweld gostyngiad oherwydd ansicrwydd derbyn arian grant |
| PENECON2 | Nifer y busnesau wedi eu cefnogi yng Ngwynedd gan yr Adran Economi a Chymuned |  | Bodlon gweld gostyngiad oherwydd ansicrwydd derbyn arian grant |

| Mesurau pwysig i bobl Gwynedd | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfeirnod** | **Mesur** | **Tuedd diweddaraf** | **Cyfeiriad i'r dyfodol** |
| LCS/002b | Nifer o ymweliadau i ganolfannau hamdden fesul 1,000 y pen o'r boblogaeth |  | Bodlon gweld gostyngiad oherwydd effaith derbyn lleihad sylweddol yn y grant Nofio Am Ddim gan Lywodraeth Cymru. Bydd hyn yn effeithio ar gyfanswm y mynychwyr |
| HHA/008 | Canran y cyflwyniadau digartref sy'n cael eu penderfynu o fewn 33 diwrnod gwaith |  | I'w sefydlu |
| OED03 | Galluogi – Canran o achosion sydd wedi derbyn cyfnod o alluogi sy'n gadael heb becyn gofal |  | Cynnal |
| PSR/002 | Y nifer o ddiwrnodau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i roi Grant Cyfleusterau i'r Anabl |  | I'w sefydlu |
| SCA/001 | Cyfradd oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75+ oed |  | Cynnal |
| SCA/002a | Cyfradd y bobl oedrannus (65 oed neu drosodd) sy'n cael cymorth i fyw gartref fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed a throsodd. |  | Gwelliant |
| SCA/002b | Cyfradd pobl hyn (sy'n 65oed neu drosodd) y mae'r awdurdod yn rhoi cymorth iddynt mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65oed neu drosodd ar 31 Mawrth. |  | Gwelliant |
| SCA/002b (LLEOL) | Cyfradd pobl hyn (sy'n 65oed neu drosodd) y mae'r awdurdod yn rhoi cymorth iddynt mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65oed neu drosodd ar 31 Mawrth - gan eithrio hunan arianwyr. |  | Gwelliant |
| Strat6 | Nifer o unedau fforddiadwy a sicrhawyd i Wynedd |  | I'w sefydlu |
| Diogelu7 | Canran o gynadleddau achos lle bu clywed llais/barn y plentyn |  | Cynnal |
| SCC/004 | Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi cael tri lleoliad neu'n fwy yn ystod y flwyddyn |  | Cynnal |
| SCC/021 | Canran yr adolygiadau plant sy'n derbyn gofal wedi eu cynnal o fewn amserlen statudol yn ystod y flwyddyn |  | Cynnal |
| SCC/025 | Canran yr ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal oedd fod I gael eu cynnal yn ystod |  | Gwelliant |

| Mesurau pwysig i bobl Gwynedd | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfeirnod** | **Mesur** | **Tuedd diweddaraf** | **Cyfeiriad i'r dyfodol** |
| | y flwyddyn a'u cynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau | | |
| SCC/033f | Canran y bobl ifanc oedd yn arfer derbyn gofal ac mae'r awdurdod mewn cysylltiad â nhw, ac yn gwybod eu bod yn derbyn addysg, hyfforddiant neu sy'n gweithio pan yn 19 oed | | Gwelliant |
| SCC/039 | Canran yr asesiadau iechyd ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal sydd wedi'u cynnal yn ystod y flwyddyn | | Gwelliant sylweddol |
| SCC/041a | Canran y plant cymwys, perthnasol a phlant a fu'n berthnasol: a chanddynt gynlluniau llwybr yn ôl yr angen | | Cynnal |
| WMT/004 | Canran y gwastraff trefol yrrwyd i'w dirlenwi | | Gwelliant |
| WMT/009 | Canran y gwastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol ac a gaiff ei baratoi ar gyfer ei ailddefnyddio, ailgylchu neu ei gompostio | | Gwelliant |
| PAM9a | Canran o sefydliadau bwyd sydd yn y system sy'n cyrraedd sgôr 4/5 safonau hylendid bwyd | | Gwelliant |

| Dangosyddion Strategol Cenedlaethol | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfeirnod** | **Mesur** | **Tuedd diweddaraf** | **Cyfeiriad i'r dyfodol** |
| EDU/002ii | Canran y disgyblion sydd yng ngofal awdurdodau lleol, sydd mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol, a hwythau'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol ac sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb fod ganddynt gymhwyster allanol a gymeradwywyd. | | Defnyddir fel data rheolaeth, felly ni osodir cyfeiriad |
| EDU/015a | Canran y datganiadau terfynol am anghenion addysgol arbennig wedi'u cyhoeddi o fewn 26 wythnos: a) Yn cynnwys eithriadau | | Cynnal |
| EDU/015b | Canran y datganiadau terfynol am anghenion addysgol arbennig wedi'u cyhoeddi o fewn 26 wythnos: b) Ddim yn cynnwys eithriadau | | Cynnal |
| EDU/002i | Canran yr holl ddisgyblion (gan gynnwys y rhai sydd yng ngofal awdurdod lleol); a sydd mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol, a hwythau'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol ac sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb fod ganddynt gymhwyster allanol a gymeradwywyd | | Cynnal |

| Dangosyddion Strategol Cenedlaethol | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfeirnod** | **Mesur** | **Tuedd diweddaraf** | **Cyfeiriad i'r dyfodol** |
| EDU/003 | Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cyrraedd y Dangosydd Pynciau Craidd, fel y penderfynir gan Asesiadau Athrawon |  | Defnyddir fel data rheolaeth, felly ni osodir cyfeiriad |
| LCL/001b | Nifer ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth |  | Defnyddir fel data rheolaeth, felly ni osodir cyfeiriad |
| SCA/019 | O'r atgyfeiriadau amddiffyn oedolion sydd wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn, y canran lle mae'r perygl wedi'i reoli |  | Gwelliant |
| PSR/004 | Canran o'r anheddau sector preifat a oedd wedi bod yn wag am fwy na 6 mis ar 1 Ebrill ac a feddiannwyd eto yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i weithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol |  | I'w sefydlu |
| SCC/033d | Canran y bobl ifanc oedd yn arfer derbyn gofal y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â nhw pan yn 19 oed |  | Gwelliant |
| SCC/033e | Canran y bobl ifanc oedd yn arfer derbyn gofal y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â nhw, ac yn gwybod eu bod mewn llety di-frys addas pan yn 19 oed |  | Gwelliant |
| SCC/002 | Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd â phrofiad o symud ysgol unwaith neu fwy yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, nad oedd y symud hwnnw oherwydd trefniadau trosiannol, yn y 12 mis hyd at 31 Mawrth |  | Gwelliant |
| SCC/011b | Canran yr asesiadau cychwynnol sydd wedi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn lle mae yna dystiolaeth bod Gweithiwr Cymdeithasol wedi gweld y plentyn ar ben ei hun |  | Cynnal |
| SCC/037 | Y sgôr ar gyfartaledd, o'r pwyntiau cymwysterau allanol ar gyfer plant sy'n 16 oed ac yn derbyn gofal, mewn unrhyw osodiad dysgu sy'n cael eu cynnal gan yr awdurdod |  | Cynnal |
| STS/006 | Canran o ddigwyddiadau gwaredu slei bach ar dir perthnasol sydd wedi clirio o fewn 5 diwrnod gwaith i'r amser hysbyswyd |  | Cynnal |
| PLA006b | Nifer o unedau tai fforddiadwy a gafodd eu darparu fel canran o'r holl unedau tai ychwanegol a gafodd eu darparu yn ystod y flwyddyn drwy'r drefn cynllunio |  | I'w sefydlu gan fod archwiliadau 2014-15 yn parhau |

| Dangosyddion Strategol Cenedlaethol | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfeirnod** | **Mesur** | **Tuedd diweddaraf** | **Cyfeiriad i'r dyfodol** |
| THS/007 | Canran yr oedolion sy'n 60 oed neu drosodd sy'n ddeiliaid tocynnau teithio rhatach ar y bws. |  | Defnyddir fel data rheolaeth, felly ni osodir cyfeiriad |

# CYNNAL ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB

Os am gymorth gyda llenwi'r templed yma, cysylltwch â delythgadlyswilliams@gwynedd.gov.uk Est. 2440

**1) AWDUR (ON) YR ASESIAD**

Delyth G Williams, Swyddog Polisi

**2) PARTNERIAID**

Nodwch unrhyw rai eraill sydd angen eu cynnwys fel rhan o'r broses asesu: Gall hyn gynnwys staff rheng flaen, sefydliadau partner, arbenigwyr maes ayb.

Staff y Cyngor
Trigolion Gwynedd
Budd-ddeiliaid sy'n berthnasol i bob prosiect

**3) DYDDIAD DECHRAU'R ASESIAD**

Tachwedd 2014

**4) DYDDIAD GORFFEN YR ASESIAD**

11 Mehefin 2015

**5) NOD AC AMCANION Y POLISI / GWASANAETH / SWYDDOGAETH**

Nodwch pam fod angen y polisi a beth mae'r Awdurdod yn gobeithio ei gyflawni drwyddo

Pwrpas adolygu'r cynllun yw gwneud yn siŵr fod y Cyngor yn parhau i wneud y pethau iawn o ystyried y cyd-destun o galedi ariannol y mae'n gweithredu ynddo.

Roedd angen ystyried beth oedd wedi newid ers y llynedd, gan edrych ar y materion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a pholisi sy'n dylanwadu ar y Cyngor a'r sir ac sy'n debygol o wneud hynny yn y blynyddoedd nesaf.

**6) CYFRANOGIAD AC YMGYNGHORIAD**
Pa gyfranogiad ac ymgynghoriad a gynhaliwyd ar y polisi / gwasanaeth / swyddogaeth a beth oedd y canlyniad?

Fel rhan o'r adolygiad, ac er mwyn cynnwys barn pobl Gwynedd, cynhaliwyd cyfres o sesiynau gyda'r cyhoedd ar draws Gwynedd fis Tachwedd 2014 o'r enw Her Gwynedd, a'u pwrpas oedd:

- Casglu barn trigolion Gwynedd ynghylch pa wasanaethau ac adnoddau y mae pobl yn eu gwerthfawrogi fwyaf
- Esbonio'n fanwl graddau'r her ariannol y mae Gwynedd yn ei wynebu
- Darganfod a oes ffyrdd eraill o ddarparu gwasanaethau er mwyn osgoi toriadau i wasanaethau lle bynnag bo hynny'n bosibl.

Cafodd y sesiynau eu cynnal yn y lleoliadau canlynol: Caernarfon, Y Bala, Tywyn, Pwllheli, Blaenau Ffestiniog, Bangor, Porthmadog, Dolgellau ac Abermaw, a daeth cyfanswm o 280 o bobl iddynt.

**7) TYSTIOLAETH SYDD AR GAEL**
Gall y dystiolaeth fod yn seiliedig ar ddata lleol neu genedlaethol, ar fonitro ar ymgynghori, sylwadau staff ayb

Gan mai adolygiad o'r cynllun yw hwn mae'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd i greu'r cynllun gwreiddiol yn sefyll.

Hefyd ystyriwyd yr wybodaeth a gasglwyd fel rhan o Her Gwynedd oedd yn nodi blaenoriaethau'r cyhoedd wrth ystyried yr her ariannol mae'r Cyngor yn ei wynebu.

**8) BYLCHAU MEWN TYSTIOLAETH**
Nodwch unrhyw fylchau mewn tystiolaeth ac esboniwch sut y caiff y rhain eu llenwi

Trosolwg yn unig yw'r asesiad effaith yma. Bydd angen i bob prosiect unigol adnabod y dystiolaeth sydd ei angen a chreu rhaglen ymgysylltu ar gyfer llenwi unrhyw fylchau. Mae'n ddisgwyliedig i bob prosiect wneud eu hasesiad effaith eu hunain.

**9) PERTHNASEDD AC EFFAITH**

Dylai hyn amlinellu beth yw perthnasedd y polisi/ gwasanaeth/ swyddogaeth i'r dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol ac i bob un o'r grwpiau cydraddoldeb (nodweddion gwarchodedig). Dylid nodi'n glir beth fydd yn effaith wir neu debygol. Efallai na fydd perthnasedd nag effaith i bob un o'r dyletswyddau na'r nodweddion , ond os canfyddir perthnasedd a/ neu effaith mewn unrhyw un neu fwy o gategorïau, yna bydd gofyn bwrw ymlaen gyda'r Asesiad

**9a)**

| Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb | Perthnasedd | Yr effaith wirioneddol neu debygol |
|---|---|---|
| **Cael gwared â chamwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | **Plant a Phobl Ifanc**<br><br>Dim perthnasedd penodol<br><br>**Gofal**<br><br>Oes<br><br>**Diogelu**<br><br>Oes<br><br>**Tlodi, Amddifadedd, Economi, Tai**<br><br>Dim perthnasedd penodol | <br><br><br><br><br><br>Disgwylir i bob prosiect adnabod pob siawns i gael gwared a chamwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth.<br><br><br><br>Bydd gwella trefniadau diogelu yn symud tuag at gael gwared â chamwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth. |

| | | |
|---|---|---|
| | **Y Gymraeg**<br><br>Dim perthnasedd penodol<br><br>**Cyngor Effeithiol ac Effeithlon**<br><br>Dim perthnasedd penodol<br><br>**Cynllunio Ariannol**<br><br>Dim perthnasedd penodol | |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | **Plant a Phobl Ifanc**<br><br>Oes | Mae'r Prosiect Trawsnewid y Ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad a'r Rhaglen Sicrhau Ystod o Wasanaethau Ataliol ar gyfer Grwpiau Bregus o Blant a Phobl Ifanc Gwynedd yn hybu cyfleoedd cyfartal. |
| | **Gofal**<br><br>Oes | Rhoi'r siawns i fwy o bobl fyw eu bywydau yn unol â'u dewis yn arbennig drwy'r Prosiect Gweithio'n Integredig a'r Prosiect Lletya a Darpariaeth Gofal. |
| | **Diogelu**<br><br>Oes | Bydd gwella trefniadau diogelu yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal. |
| | **Tlodi, Amddifadedd, Economi, Tai**<br><br>Oes | Bydd gwella sefyllfa economaidd Gwynedd yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i wahanol nodweddion gwarchodedig. |

| | | |
|---|---|---|
| | **Y Gymraeg**<br><br>Oes | Mae'r maes yma yn ymwneud â hyrwyddo'r Iaith Gymraeg |
| | **Cyngor Effeithiol ac Effeithlon**<br><br>Oes | Os yw'r Prosiect Ymgysylltu yn sicrhau fod pob nodwedd warchodedig yn cael ei ystyried yna bydd yn hyrwyddo cyfle cyfartal. Hefyd bydd ymestyn y defnydd o hunanwasanaeth yn sicrhau dulliau amgen o gysylltu gyda'r gwasanaeth. |
| | **Cynllunio Ariannol**<br><br>Oes | Bydd angen i'r prosiectau gyflawni asesiadau effaith sy'n ystyried yr holl nodweddion gwarchodedig ar eu gwaith |
| **Meithrin perthnasau da** | **Plant a Phobl Ifanc**<br><br>Dim perthnasedd penodol | |
| | **Gofal**<br><br>Oes | Bydd Prosiect Her Gofal yn ceisio sicrhau fod pobl Gwynedd yn gwbl glir o'r her sydd yn wynebu'r Cyngor i ysgogi a chefnogi cymunedau i gyfrannu drwy weithredu'n gymunedol. Ar ddiwedd y prosiect bydd gan bobl Gwynedd ddealltwriaeth o'r maes a fydd yn golygu ein bod yn cyfrannu ac yn cefnogi'n naturiol y rhai mwyaf bregus yn ein cymunedau. |
| | **Diogelu**<br><br>Oes | Bydd y Prosiect i sicrhau perchnogaeth Cyngor cyfan i'r maes diogelu yn meithrin perthnasau gwell. |

| | | |
|---|---|---|
| | **Tlodi, Amddifadedd, Economi, Tai**<br><br>Dim perthnasedd penodol<br><br>**Y Gymraeg**<br><br>Oes<br><br>**Cyngor Effeithiol ac Effeithlon**<br><br>Oes<br><br>**Cynllunio Ariannol**<br><br>Dim perthnasedd penodol | Dylai gweithio mewn pedair cymuned i hyrwyddo'r Gymraeg feithrin perthnasau da.<br><br>Gall y Prosiect Ymgysylltu feithrin perthnasau da drwy ystyried pob nodwedd warchodedig. |

**9b)**

| Nodweddion | Perthnasedd | Yr effaith wirioneddol neu debygol |
|---|---|---|
| **Hil** | **Plant a Phobl Ifanc**<br><br>Dim perthnasedd penodol | |
| | **Gofal**<br><br>Oes | Bydd sicrhau'r siawns i fwy o bobl fyw eu bywydau yn unol â'u dewis yn ei gwneud yn fwy tebygol eu bod yn gallu byw o fewn eu cymuned a'u diwylliant. |
| | **Diogelu**<br><br>Oes | Bydd y prosiectau yn sicrhau gwell ymateb i gamwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth ar sail hil |
| | **Tlodi, Amddifadedd, Economi, Tai**<br><br>Dim perthnasedd penodol | |
| | **Y Gymraeg**<br><br>Oes | Mae'r maes yma'n cyfarch cenedligrwydd. |
| | **Cyngor Effeithiol ac Effeithlon**<br><br>Dim perthnasedd penodol | |

| | | |
|---|---|---|
| | **Cynllunio Ariannol**<br><br>Oes | Bydd angen i'r prosiectau gyflawni asesiadau effaith sy'n ystyried y nodwedd warchodedig yma |
| **Anabledd** | **Plant a Phobl Ifanc**<br><br>Oes<br><br>**Gofal**<br><br>Oes<br><br>**Diogelu**<br><br>Oes<br><br>**Tlodi, Amddifadedd, Economi, Tai**<br><br>Oes | Mae dau brosiect yn ymwneud yn benodol â disgyblion anabl a disgyblion bregus. Mae'r cyntaf yn sicrhau asesiad cynnar a chywir a chyfleoedd addysgu o ansawdd cywir a'r ail yn sicrhau gwasanaethau ataliol fydd yn galluogi plant a'u teuluoedd ii fyw yn annibynnol heb orfod bod yn ddibynnol ar wasanaethau statudol.<br><br>Dylai'r prosiectau roi'r siawns i fwy o bobl fyw eu bywydau yn unol â'u dewis yn arbennig drwy'r Prosiect Gweithio'n Integredig a'r Prosiect Lletya a Darpariaeth Gofal effeithio pobl anabl mewn modd positif.<br><br>Bydd y prosiectau yn sicrhau gwell ymateb i gamwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth ar sail anabledd<br><br>Bydd cynyddu'r cyflenwad ac amrywiaeth o dai yn golygu mwy o dai hygyrch ar gyfer pobl anabl. Mae darparu band eang cyfoes am fod o fydd i bobl anabl ynghyd a hybu creu swyddi o ansawdd a lefelau cyflog da a busnesau cryf a chadarn. |

| | | |
|---|---|---|
| | **Y Gymraeg**<br><br>Dim perthnasedd penodol<br><br>**Cyngor Effeithiol ac Effeithlon**<br><br>Oes<br><br>**Cynllunio Ariannol**<br><br>Oes | Bydd y Prosiect Ymgysylltu yn gallu meithrin perthnasau da drwy ystyried anghenion cyfathrebu pobl anabl e.e. taflenni hawdd eu darllen, technoleg amgen ayb<br><br>Bydd angen i'r prosiectau gyflawni asesiadau effaith ar sy'n ystyried y nodwedd warchodedig yma |
| **Rhyw** | **Plant a Phobl Ifanc**<br><br>Dim perthnasedd penodol<br><br>**Gofal**<br><br>Nid oes perthnasedd penodol<br><br>**Diogelu**<br><br>Oes<br><br>**Tlodi, Amddifadedd, Economi, Tai**<br><br>Dim perthnasedd penodol | Bydd y prosiectau yn sicrhau gwell ymateb i gamwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth ar sail rhyw |

| | | |
|---|---|---|
| | **Y Gymraeg**<br><br>Dim perthnasedd penodol<br><br>**Cyngor Effeithiol ac Effeithlon**<br><br>Dim perthnasedd penodol<br><br>**Cynllunio Ariannol**<br><br>Oes | Bydd angen i'r prosiectau gyflawni asesiadau effaith ar sy'n ystyried y nodwedd warchodedig yma |
| **Ailbennu rhywedd** | **Plant a Phobl Ifanc**<br><br>Dim perthnasedd penodol<br><br>**Gofal**<br><br>Nid oes perthnasedd penodol<br><br>**Diogelu**<br><br>Oes<br><br>**Tlodi, Amddifadedd, Economi, Tai**<br><br>Dim perthnasedd penodol<br><br>**Y Gymraeg**<br><br>Dim perthnasedd penodol | Bydd y prosiectau yn sicrhau gwell ymateb i gamwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth ar sail ailbennu rhywedd |

| | | |
|---|---|---|
| | **Cyngor Effeithiol ac Effeithlon**<br><br>Dim perthnasedd penodol<br><br>**Cynllunio Ariannol**<br><br>Oes | <br><br><br><br><br><br>Bydd angen i'r prosiectau gyflawni asesiadau effaith ar sy'n ystyried y nodwedd warchodedig yma. |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | **Plant a Phobl Ifanc**<br><br>Dim perthnasedd penodol<br><br>**Gofal**<br><br>Nid oes perthnasedd penodol<br><br>**Diogelu**<br><br>Oes<br><br>**Tlodi, Amddifadedd, Economi, Tai**<br><br>Dim perthnasedd penodol<br><br>**Y Gymraeg**<br><br>Dim perthnasedd penodol | <br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>Bydd y prosiectau yn sicrhau gwell ymateb i gamwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth ar sail cyfeiriadedd rhywiol. |

| | | |
|---|---|---|
| | **Cyngor Effeithiol ac Effeithlon**<br><br>Dim perthnasedd penodol<br><br>**Cynllunio Ariannol**<br><br>Oes | Bydd angen i'r prosiectau gyflawni asesiadau effaith ar sy'n ystyried y nodwedd warchodedig yma |
| **Crefydd neu gred** | **Plant a Phobl Ifanc**<br><br>Dim perthnasedd penodol<br><br>**Gofal**<br><br>Oes<br><br>**Diogelu**<br><br>Oes<br><br>**Tlodi, Amddifadedd, Economi, Tai**<br><br>Dim perthnasedd penodol<br><br>**Y Gymraeg**<br><br>Dim perthnasedd penodol<br><br>**Cyngor Effeithiol ac Effeithlon**<br><br>Dim perthnasedd penodol | Bydd rhoi'r siawns i fwy o bobl fyw eu bywydau yn unol â'u dewis yn ei gwneud yn fwy tebygol eu bod yn gallu byw o fewn eu cymuned, eu diwylliant a'u crefydd.<br><br>Bydd y prosiectau yn sicrhau gwell ymateb i gamwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth ar sail crefydd neu gred. |

| | | |
|---|---|---|
| | **Cynllunio Ariannol**<br><br>Oes | Bydd angen i'r prosiectau gyflawni asesiadau effaith sy'n ystyried y nodwedd warchodedig yma. |
| **Yr iaith Gymraeg** | **Plant a Phobl Ifanc**<br><br>Dim perthnasedd penodol | |
| | **Gofal**<br><br>Oes | Wrth weithio'n integredig gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr bydd angen sicrhau'r defnydd cynyddol o'r Iaith Gymraeg. |
| | **Diogelu**<br><br>Oes | Bydd y prosiectau yn sicrhau gwell ymateb i gamwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth ar sail yr Iaith Gymraeg |
| | **Tlodi, Amddifadedd, Economi, Tai**<br><br>Oes | Bwriad y prosiectau yw gwella'r economi leol er mwyn sicrhau swyddi ar gyfer pobl Gwynedd. Dylai hyn gryfhau sefyllfa'r Iaith Gymraeg. |
| | **Y Gymraeg**<br><br>Oes | Mae'r maes yma'n hyrwyddo'r Iaith Gymraeg |
| | **Cyngor Effeithiol ac Effeithlon**<br><br>Dim perthnasedd penodol | |

| | | |
|---|---|---|
| | **Cynllunio Ariannol**<br><br>Oes | Bydd angen i'r prosiectau gyflawni asesiadau effaith ar sy'n ystyried y nodwedd yma |
| **Oedran** | **Plant a Phobl Ifanc**<br><br>Oes<br><br>**Gofal**<br><br>Oes<br><br>**Diogelu**<br><br>Oes<br><br>**Tlodi, Amddifadedd, Economi, Tai**<br><br>Oes | Mae'r maes yma'n effeithio ar blant a'u rheini yn benodol<br><br>Mae'r newidiadau ym maes Gofal yn effeithio pobl hŷn yn fwy penodol.  Dylai'r newidiadau roi gwasanaethau gwell i'r rhai sydd ag anghenion.<br><br>Bydd y prosiectau yn sicrhau gwell ymateb i gamwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth ar sail oedran.<br><br>Bydd y Prosiect Swyddi Gwerth Uchel ac o Ansawdd yn creu cyswllt gydag addysg pobl ifanc ac yn sicrhau fod pobl ifanc y sir wedi eu paratoi ar gyfer y cyfleoedd swyddi sydd yng Ngwynedd.  Yn arbennig bydd yn gweithio gyda'r sector addysg a'r Consortiwm ôl-16 i hyrwyddo'r hyn y ragwelir fel "swyddi'r dyfodol" yn yr ardal. |

| | | |
|---|---|---|
| | **Y Gymraeg**<br><br>Oes | Mae’r Prosiect Pobl Ifanc yn defnyddio’r Gymraeg yn Gymdeithasol yn hyrwyddo’r Iaith Gymraeg ymysg bobl ifanc. |
| | **Cyngor Effeithiol ac Effeithlon**<br><br>Oes | Bydd y defnydd o ddulliau amgen o gyfathrebu yn apelio at wahanol oedrannau |
| | **Cynllunio Ariannol**<br><br>Oes | Bydd angen i’r prosiectau gyflawni asesiadau effaith ar sy’n ystyried y nodwedd warchodedig yma<br>. |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | **Plant a Phobl Ifanc**<br><br>Dim perthnasedd penodol | |
| | **Gofal**<br><br>Nid oes perthnasedd penodol | |
| | **Diogelu**<br><br>Oes | Bydd y prosiectau yn sicrhau gwell ymateb i gamwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth ar sail beichiogrwydd a mamolaeth. |
| | **Tlodi, Amddifadedd, Economi, Tai**<br><br>Dim perthnasedd penodol | |

| | | |
|---|---|---|
| | **Y Gymraeg**<br><br>Dim perthnasedd penodol<br><br>**Cyngor Effeithiol ac Effeithlon**<br><br>Dim perthnasedd penodol<br><br>**Cynllunio Ariannol**<br><br>Oes | <br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>Bydd angen i'r prosiectau gyflawni asesiadau effaith ar sy'n ystyried y nodwedd warchodedig yma |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | **Plant a Phobl Ifanc**<br><br>Dim perthnasedd penodol<br><br>**Gofal**<br><br>Oes<br><br><br>**Diogelu**<br><br>Oes<br><br><br>**Tlodi, Amddifadedd, Economi, Tai**<br><br>Dim perthnasedd penodol<br><br>**Y Gymraeg** | <br><br><br><br><br><br>Bydd caniatáu i bobl fwy o bobl fyw eu bywydau yn unol â'u dewis yn golygu y bydd angen ystyried priodas a phartneriaeth sifil.<br><br><br><br>Bydd y prosiectau yn sicrhau gwell ymateb i gamwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth ar sail priodas a phartneriaeth sifil. |

| | | |
|---|---|---|
| | Dim perthnasedd penodol<br><br>**Cyngor Effeithiol ac Effeithlon**<br><br>Dim perthnasedd penodol<br><br>**Cynllunio Ariannol**<br><br>Oes | <br><br><br><br><br><br><br><br>Bydd angen i'r prosiectau gyflawni asesiadau effaith ar sy'n ystyried y nodwedd warchodedig yma |

**10) MYND I'R AFAEL A'R EFFAITH**

| | |
|---|---|
| a) | **Nodwch unrhyw effaith posib o safbwynt cydraddoldeb**<br><br>Dylai'r prosiectau sy'n cael eu gweithredu wella'r sefyllfa o safbwynt cydraddoldeb. |
| b) | **Pa gamau gellir eu cymryd i leihau neu wella'r effeithiau yma?**<br><br>Trosolwg o'r effeithiau yn unig a geir yma. Mae'n hanfodol i bob prosiect gasglu data, adnabod bylchau a gwneud asesiad eu hunain. Mae'n bosib y bydd asesiadau penodol y prosiectau yn canfod perthnasedd ac effeithiau gwahanol i'r rhai a nodir uchod. |
| c) | **A oes angen ail-ystyried y cynllun?**<br><br>Nac oes. |

**11) TREFNIADAU MONITRO AC ADOLYGU**

Adolygu'n flynyddol

**12) CYNLLUN GWEITHREDU**
Dylid atodi Cynllun Gweithredu sy'n cynnwys y camau gweithredu, cyfrifoldebau, amserlen, ac amlinelliad o'r trefniadau adolygu a gwerthuso

Bydd gan y prosiectau eu cynlluniau gweithredu eu hunain.

**13) PENDERFYNU**

Cyflwyno i'r Cabinet am benderfyniad ar 23 Mehefin 2015.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **Y Cyngor** |
| **DYDDIAD:** | **9 Gorffennaf 2015** |
| **AELOD CABINET:** | **Cynghorydd William Gareth Roberts**<br>**Cynghorydd Mair Rowlands** |
| **TEITL:** | **Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol 2014/15** |
| **AMCAN:** | **Adrodd ar effeithlonrwydd Gwasanaethau Cymdeithasol 2014/15**<br>**Gofynnir i Aelodau gydnabod yr adroddiad** |
| **AWDUR:** | **Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Statudol a Chyfarwyddwr Corfforaethol** |

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'n ofyn statudol i'r Cyngor gyhoeddi 'Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol' sydd yn adrodd ar effeithlonrwydd Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol.

1.2 Rhaid i'r adroddiad fod mewn iaith hawdd i'w ddeall gan ddweud wrth drigolion a chyfranddalwyr pa mor dda rydym yn meddwl mae'r Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol yn perfformio yng Ngwynedd. Ar ddiwedd y broses, mae'n ddisgwyliad ein bod yn cyflwyno'r adroddiad i Aelodau'r Cyngor.

## 2. Y gyfundrefn

2.1 Cyflwynwyd y gyfundrefn hon yn 2010. Mae'n unigryw i Gymru ac i Wasanaethau Cymdeithasol ac mae gofyn i Gyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol dderbyn cyfrifoldeb personol i adrodd yn gyhoeddus ar berfformiad y gwasanaethau ynghyd â'r profiad o ddarparu gwasanaethau mewn cyd-destun lleol.

2.2 Gofynnir i'r Cyfarwyddwr Statudol ystyried yr ystod wybodaeth a phrofiadau sy'n cael effaith ar allu'r Gwasanaethau Cymdeithasol i ddarparu gwasanaethau dibynadwy a chynaliadwy o'r safon uchaf.

2.3 Er bod hwn yn gyfrifoldeb penodol ar y Cyfarwyddwr Statudol rhaid cyflawni'r gwaith a'r dasg mewn ffordd sy'n adlewyrchu a grymuso'r cydweithio, sy'n rhan annatod o'r maes.

2.4 Mae 4 cam i'r broses, sef:

**i. Yr Adroddiad Blynyddol (a gyflwynir fel Atodiad 1).**
Dogfen gyhoeddus sy'n crynhoi barn y Cyfarwyddwr ar effeithlonrwydd y gwasanaeth yn ystod 2014/15 gan nodi'r blaenoriaethau er sicrhau gwella gwasanaeth ar gyfer y dyfodol. Yn dilyn y Cyngor Llawn, bydd y ddogfen yn cael ei dylunio, er mwyn rhoi diwyg mwy lliwgar, a chynnwys rhywfaint o ddyfyniadau, lluniau a graffiau atodol. Yna, bydd yn cael ei rhoi ar wefan y cyngor.

**ii. Dadansoddiad o effeithiolrwydd Gwasanaethau**
Proses fanwl o hunan asesu effeithiolrwydd y gwasanaeth, gan gytuno ar ddadansoddiad ac adnabod blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae angen sicrhau fod cyfranddalwyr wedi cael cyfle i herio'r asesiad. Nid yw'n ddogfen gyhoeddus ond ar gael i bawb sydd eisiau'i gweld.

**iii. Llwybr Tystiolaeth**
Rhaid casglu tystiolaeth sydd yn cyfiawnhau'r asesiad a'r dyfarniad yn yr hunan asesiad.

**iv. Cynllun busnes**
Llunnir y cynllun busnes er mwyn cyflawni'r gwelliannau a nodir yn yr adroddiad.

## 3. <u>Argymhelliad</u>

3.1 Gofynnir i'r Cyngor gydnabod yr adroddiad fel crynodeb cywir a chytbwys o berfformiad y gwasanaethau cymdeithasol yng Ngwynedd yn ystod 2014/15, ynghyd â'r bwriadau strategol ar gyfer 2015/16. Gofynnir yn ogystal am hawl olygyddol i'r Cyfarwyddwr Statudol ychwanegu lluniau, graffiau a dyfyniadau ychwanegol, fel bo'n briodol, i fywiogi diwyg yr adroddiad cyn ei gyhoeddi'n ffurfiol.

# Atodiad 1

# Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd 2014-15

## Cynnwys


| **Rhan** | **Teitl** | **Tudalen** |
|---|---|---|
| **1** | Gair agoriadol gan y Cyfarwyddwr | **3** |
| **2** | Darparu gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy ag integredig | **5** |
| **3** | Diogelu | **9** |
| **4** | Gwella Gwasanaethau i Oedolion | **11** |
| **5** | Gwella Gwasanaethau i Blant | **17** |
| **6** | Llywodraethu | **21** |
| **7** | Edrych i'r dyfodol | **24** |

## 1. Gair agoriadol gan y Cyfarwyddwr

Pleser yw cael cyflwyno fy Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2014-2015. Ei bwrpas yw adlewyrchu ar berfformiad y gwasanaethau cymdeithasol yng Ngwynedd yn ystod y flwyddyn a fu, ac adrodd ar ein blaenoriaethau a'n bwriadau ar gyfer 2015/16. Rwy'n gobeithio y cewch amser i bori drwyddo a gweld a yw'r blaenoriaethau yn cyd-fynd â'r hyn yr ydych chi'n credu sy'n bwysig i chi, eich teulu a'ch cymunedau. Byddwn yn croesawu unrhyw sylwadau gennych. Yn arbennig, hoffwn glywed am syniadau ynglŷn â sut y gallwn, hefo'n gilydd, barhau i wella a datblygu'r modd y mae pobl Gwynedd yn cael cefnogaeth i fwy bywydau bodlon, llawn a diogel.

Rwy'n ymwybodol iawn fy mod, fel Cyfarwyddwr Statudol, wedi siarad llawer iawn ynglŷn â'r angen i newid yn ystod y flwyddyn aeth heibio. Mae'r angen yma yn ganlyniad i sawl ffactor - yr angen i newid i gydymffurfio a deddfwriaeth newydd, yr angen i newid i sicrhau ein bod yn gallu arbed arian a'r angen i ni newid oherwydd fod disgwyliadau pobl Gwynedd wedi newid.

Gall siarad di-baid am newid achosi pryder i bobl, ond sut bynnag fydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yng Ngwynedd yn edrych yn y blynyddoedd sydd i ddod, gallaf eich sicrhau o ddau beth:

- Byddwn yn blaenoriaethu diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion bregus doed a ddel.
- Byddwn yn gwneud pob ymdrech i dargedu'n adnoddau fel ei'n bod yn cyfarfod ag anghenion y plant, pobl ifanc a'r oedolion hynny sy'n byw gyda'r anghenion dwysaf.

Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gosod cyfrifoldebau newydd arnom fel awdurdodau lleol, ynghyd â gosod cyfeiriad ynglŷn â darparu gwasanaethau cynaliadwy i'r dyfodol. Mae'r Ddeddf yn amlygu'r angen i awdurdodau hyrwyddo Llesiant wrth weithredu o ddydd i ddydd a hynny ar gyfer y boblogaeth yn ei chyfanrwydd. Mae hefyd yn pwysleisio'r angen i awdurdodau weithio mewn partneriaeth agos gyda defnyddwyr gwasanaeth, darpar ddefnyddwyr, teuluoedd, gofalwyr anffurfiol a chymunedau. Mae disgwyliad hefyd y byddwn yn gweithio'n agos iawn gyda'r Gwasanaeth Iechyd a'r trydydd sector. Yn ychwanegol mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn nodi dyletswydd ar y gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau tai i gydweithio er mwyn cynyddu'r cyflenwad o dai. Byddai hyn yn arwain at helpu i ddiwallu anghenion tai pobl ac atal digartrefedd, gwella ein cymunedau a helpu i atal yr anawsterau a'r diffyg cyfleoedd a wynebir yn aml gan unigolion sy'n agored i niwed.

Er bod Cyngor Gwynedd wedi gwneud cryn waith i baratoi ar gyfer cyflawni arbedion, mae'r angen i leihau'r gyllideb dros £50 miliwn yn golygu y bydd angen parhau ac yn wir dwysau'n ymdrechion. Mae'n anorfod y bydd hyn yn effeithio ar wasanaethau. Fel y dywedais yn barod mae gennym flaenoriaethau cadarn ond os am warchod y rhain bydd angen newid y ffordd yr ydym yn ymateb i'r heliw o'r cyfeiriadau a dderbyniwn. Ni fyddwn yn gwrthod gwasanaeth i bobl sydd yn gymwys. Byddwn fodd bynnag byddwn yn cynorthwyo eraill i fanteisio ar yr adnoddau sydd ar gael o fewn eu cymunedau, o fewn eu rhwydwaith cymdeithasol ac sydd ar gael trwy weithgareddau'r trydydd sector yn hytrach na chynnig ymyrraeth ffurfiol fel cam cyntaf. Mae hyn yn cyd-fynd a chanlyniad ymchwil sy'n dangos y gellir creu dibyniaeth drwy drefnu ymyrraeth ffurfiol yn rhy fuan.


Ein hamcan fel Cyngor yw cwrdd ag anghenion pobl Gwynedd yn y ffordd orau posib o fewn yr adnoddau sydd gennym a hynny drwy roi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth wnawn. Er bod heriau

amlwg yn ein hwynebu, rydym hefyd mewn cyfnod lle bo gwir gyfleoedd ar gael i ni fod yn hyrwyddo ffyrdd gwahanol o weithio ac arloesi er mwyn symud yr agenda trawsffurfio gwasanaethau yn ei flaen. Rwyf yn hyderus iawn bod yr adroddiad yma yn adlewyrchu ein bod eisoes ar y daith o drawsffurfio gwasanaethau, ac er yn cydnabod fod cryn waith dal o'n blaenau, fod gennym yma lwyddiannau yn barod yng Ngwynedd i ni oll ymfalchïo ynddynt.

Bu llynedd yn flwyddyn lle gwelwyd symudiad tuag at gyd-gynllunio a gweithredu gwasanaethau ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd a mudiadau trydydd sector, gan ddatblygu a chryfhau'r agenda ataliol ag ymyrraeth gynnar maes oedolion ac ym maes plant mewn modd mwy integredig. Mae strwythurau diogelu ein plant a'u teuluoedd a'n hoedolion mwyaf bregus wedi eu cryfhau yn sylweddol yn ystod y flwyddyn. Yn ogystal â hyn gwnaed gwaith rhagorol o ran codi ymwybyddiaeth o'r maes ar draws y Cyngor gan sicrhau perchnogaeth mewn adrannau y tu draw i'r rhai traddodiadol yn unig.

Mae'r flwyddyn ddiwethaf unwaith yn rhagor wedi bod yn gyfnod o newid sylweddol i ddefnyddwyr gwasanaeth, i'n partneriaid ac i'n staff. Sefydlwyd dwy adran a phenodwyd dau bennaeth. Yn anffodus profodd un o'r penaethiaid gyfnod o salwch a welodd orfod ymdopi heb bennaeth dros hanner y flwyddyn. Bellach mae penodiad dros dro wedi ei wneud i lenwi'r bwlch. Bydd y flwyddyn nesaf yn gyfnod o newidiadau a thrawsffurfio pellach - newid strwythurau, newid ymarfer a newid ein perthynas gyda defnyddwyr gwasanaeth.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle i ddiolch o waelod calon am ymrwymiad a gwaith caled ein staff, darparwyr a phartneriaid wrth sicrhau fod plant, pobl ifanc ac oedolion bregus a'u teuluoedd yn derbyn y gwasanaethau gorau bosibl. Yn ogystal, diolch yn arbennig i bawb sydd yn gofalu yn anffurfiol drwy'r flwyddyn, am aelod o'r teulu, neu am gymydog. Hoffwn hefyd ddiolch am arweiniad a chefnogaeth ddiflino'r cyn Aelod Cabinet Gofal, y Cynghorydd R H Wyn Williams, a hefyd dymuno yn dda i'w olynyddion, y Cynghorydd William Gareth Roberts a hefyd i'r Cynghorydd Mair Rowlands.



**Awen Morwena Edwards**
**Cyfarwyddwr Corfforaethol a Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Cyngor Gwynedd**

# 2. Darparu gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy ag integredig

Roedd 2014/15 yn flwyddyn o barhau i osod sylfeini cadarn ar gyfer sicrhau y bydd gennym wasanaethau cymdeithasol hyfyw a chynaliadwy i'r dyfodol. Y flwyddyn hon, hefyd, oedd y cyntaf ers i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 dderbyn Cydsyniad Brenhinol. Bydd y ddeddf hanesyddol yma yn cyflwyno'r trawsnewid mwyaf a welwyd i'r Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru ers dros 60 blynedd. Mae hefyd yn ei gwneud yn hollol glir fod cyfrifoldeb ar y Cyngor yn ei gyfanrwydd gyfrannu i sicrhau llesiant pobl Gwynedd. O ran ymdrechion yn lleol, mae'r Cyngor wedi cychwyn ar gynllunio i ymateb i wahanol agweddau o'r Ddeddf wrth lunio blaenoriaethau ar gyfer 2014/15 a thu hwnt.

## 2.1 Arweinyddiaeth

Mae swyddogaethau'r 'Cyfarwyddwr Statudol' ar lefel Cyfarwyddwr Corfforaethol o fewn y Cyngor yn sicrhau arweinyddiaeth ac atebolrwydd i'r maes ar y lefel uchaf. Yn ystod 2013/14 sefydlwyd dwy adran newydd, sef yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd. Penodwyd penaethiaid i arwain y ddwy adran ac mae gwaith yn mynd rhagddi i lunio strwythurau newydd ar gyfer yr adrannau yma. Y bwriad yw sicrhau trefniadau llywodraethu cryf ar gyfer trawsnewid gwasanaethau fydd yn addas ar gyfer y dyfodol.

Golyga sefydlu adran newydd ar gyfer plant a theuluoedd yng Ngwynedd, fod yr holl wasanaethau plant a phobl ifanc, ac eithrio Addysg a Gwasanaethau Ieuenctid, wedi dod at ei gilydd o dan arweinyddiaeth pennaeth adran arbenigol. Mae'r Adran wedi symud i ganolbwyntio ar ddatblygu gwasanaethau ymyrraeth gynnar ar draws yr holl ystod o angen fel bod modd cynnig cefnogaeth a gwasanaethau i deuluoedd yn gynt na'r hyn sydd wedi bodoli yn draddodiadol. Amcan hyn yw lleihau'r ddibyniaeth ar wasanaethau statudol.

O fewn y maes oedolion rydym yn rhagweld newidiadau sylweddol o ran strwythurau'r Adran ac mewn perthynas ag ymarfer gwaith a gofal cymdeithasol. Mae'r pwyslais ar wrando ar ddefnyddwyr a gofalwyr a chydweithio gyda nhw i gynllunio a datblygu gwasanaethau i'r dyfodol. Dylai pob sgwrs gychwyn gan holi beth sy'n bwysig i'r defnyddiwr a dylai pop darpariaeth fod yn unigryw i'r unigolyn. Yn hanesyddol rydym wedi dibynnu ar fwydlen fer a chyfyng o ddarpariaethau. Bellach byddwn yn canolbwyntio ar adnabod yr adnoddau o fewn cymuned yr unigolyn, adnabod cysylltiadau personol yr unigolyn a defnyddio'r rhain i gefnogi pobl i fyw eu bywydau fel y dymunant.

O ran arweinyddiaeth wleidyddol penodwyd dau Aelod Cabinet i gynrychioli'r ddwy adran. Mae newid hyn yn sicrhau fod y maes gofal yn derbyn y sylw priodol. Dros y flwyddyn mae pwyllgorau amrywiol y Cyngor Gwynedd wedi ymdrin â chraffu sawl agwedd o'r meysydd gwaith ac wedi herio'r newidiadau. Mae paneli monitro perfformiad (Panel Cyflawni) sy'n cynnwys aelodau arweiniol hefyd wedi craffu cynnydd.

## 2.2 Gweledigaeth

Mae gweledigaeth y Cyngor yn cynnwys rhoi ffocws ar hyn y gallwn ni, ar draws adrannau'r Cyngor, a gyda'n partneriaid, ei wneud i gynnal pobl yn eu cymunedau mewn ffyrdd creadigol, hyblyg a chost effeithiol. Ar yr un pryd, rydym eisiau gwella'r profiadau a'r dewisiadau a gaiff pobl sydd ag anghenion dwys, gan gyfeirio ein hadnoddau at wasanaethau o'r radd flaenaf.

Er y newid pwyslais byddwn fel Cyngor yn sicrhau ein bod yn adnabod ac yn ymateb i anghenion y bobl hynny sydd a'r anghenion dwysaf gan flaenoriaethu ein hadnoddau i gyfarfod a'r anghenion hyn.

Rydym bellach wedi sylweddoli fod plethiad tynn iawn rhwng ystyriaethau tai a llety ac ystyriaethau gofal. Mae cartref addas yn gallu hwyluso penderfyniad i aros i fyw'n annibynnol. Ar gyfer y dyfodol bydd angen cynllunio ystod o ddarpariaethau llety fydd yn cyfarfod ag anghenion pobl Gwynedd gynnwys darpariaethau megis Tai Gofal Ychwanegol.

## 2.3 Sefyllfa Ariannol

Er bod Cyngor Gwynedd wedi gwneud cryn waith rhag baratoadol ar gyfer cyflawni arbedion effeithlonrwydd, mae'r angen i leihau'r gyllideb o oddeutu £50 miliwn yn golygu y bydd angen i'r ymdrechion o drawsnewid gwasanaethau wireddu arbedion sylweddol.

Gan fod canran uchel o wariant blynyddol y Cyngor ar ofal cymdeithasol, mae targed arbedion yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant (ac eithrio Tai a Gofal Cwsmer) am y tair blynedd nesaf yn £6.084m. Mae cynlluniau ar gyfer £2.968m o'r swm yma eisoes wedi eu hadnabod ac mae gwaith ar y gweill i ddatblygu cynlluniau i ganfod y gwahaniaeth.

O ran sefyllfa ariannol yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd, mae targed arbedion o £2.4m dros y 3 mlynedd nesaf gyda chynlluniau ar gyfer £1.259m o'r swm yma eisoes wedi eu hadnabod. Mae'r Adran hefyd mewn sefyllfa lle mae nifer uchel o'r gwasanaethau ymyrraeth gynnar a ddarperir yn cael eu hariannu drwy grantiau. Oherwydd nad oes gwarant fod y grantiau yma yn mynd i barhau wedi 2017, fe wynebir her o allu cynnal y gwasanaethau yma i'r dyfodol.

Dyma grynodeb sy'n manylu ar y sefyllfa gyllidol yn cynnwys yr arbedion sydd wedi eu hadnabod ar gyfer 2015/16:

| | **Cyllideb 2014/15 £** | **Cyllideb 2015/16 £** | **Arbedion 2015/18 wedi eu canfod £** | **Arbedion allan o gyllideb 2015/16 £** |
|---|---|---|---|---|
| Plant | 14,479,000 | 13,778,000 | 1,259,000 | 761,000 |
| Oedolion | 40,571,000 | 40,143,000 | *2,968,000 | *1,671,000 |
| Canolog / Cefnogaeth Busnes | 4,006,000 | 3,951,000 | * | * |
| **Cyfanswm** | **59,056,000** | **57,872,000** | **4,227,000** | **2,432,000** |

*Noder fod y symiau yma yn gyfanswm ar gyfer y Gwasanaethau Oedolion a'r Gwasanaethau Canolog a Chefnogaeth Busnes.

## 2.4 Integreiddio a chydweithio

Rydym wedi cychwyn ar y siwrnai o geisio gweithio mewn ffordd integredig yn arbennig gydag Iechyd a'r Trydydd Sector, ond mae mwy o waith i'w wneud os ydym am sicrhau gwasanaethau sy'n cynnig y canlyniadau gorau i bobl Gwynedd.

Yn unol â gofynion dogfen "Fframwaith ar gyfer Darparu Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig" Llywodraeth Cymru, bu i Wynedd, mewn partneriaeth a gweddill awdurdodau lleol Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC), gytuno a chyhoeddi Datganiad o Fwriad o ran Gofal Integredig ym Mawrth 2014.

I gyd-fynd â'r gwaith o ddatblygu'r Datganiad o Fwriad, datblygwyd cynllun gwaith. Mae'r cynllun yn rhoi amlinelliad o'r gweithredu a ddisgwylir ar lefel rhanbarthol a sirol, tra'n cydnabod y bydd blaenoriaethau'n amrywio yn ddibynnol ar sefyllfa gwasanaethau unigol a bwriad gwleidyddol yr ardal ddaearyddol.

Yma yng Ngwynedd sefydlwyd Fforwm Sirol ar lefel strategol i hyrwyddo a hybu gweithio'n integredig sydd â chynrychiolaeth uwch reolwyr y Cyngor, y Bwrdd Iechyd a'r Trydydd Sector. Mae'r Aelod Cabinet perthnasol a'r Pencampwr Pobl Hŷn hefyd yn aelodau.

Er mwyn hyrwyddo gwaith integredig penodwyd rheolwr ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd i arwain ar y rhaglen. Y bwriad oedd cyfrannu at wella profiadau i bobl sy'n derbyn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd y rôl yma yn pontio gwaith y Cyngor, y Bwrdd Iechyd a phartneriaethau trydydd sector ac yn atebol i'r Fforwm Sirol.

Ymhellach, ac ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd a'r trydydd sector, sicrhawyd grant o £1.3 refeniw a £600k cyfalaf drwy Gronfa Gofal Canolraddol Llywodraeth Cymru, i wella darpariaeth gofal canolraddol yn y sir. Mae'r adnoddau yma wedi ariannu ystod eang ag amrywiol o gynlluniau a mentrau yn cynnwys cynyddu Gwelyâu Ysbaid, Galluogi a Chanolraddol yn y Sir er mwyn hwyluso'r broses rhyddhau o ysbytai a lleihau'r arhosiad mewn ysbyty. Ariannwyd cynllun "fferyllwyr gofal canolraddol" sy'n gweithio mewn cartrefi cleifion a chartrefi preswyl i adolygu meddyginiaethau a hynny er mwyn ceisio gwella cydymffurfiaeth â meddyginiaethau, ac i leihau camgymeriadau a gwastraff.

Sefydlwyd hefyd Canolfannau Byw'n Dda mewn partneriaeth gyda Age Cymru Gwynedd a Môn gan ddatblygu neu ehangu canolfannau yn ardaloedd Blaenau Ffestiniog, Penrhyndeudraeth, Criccieth, Porthmadog a Tremadog. Mae'r rhain yn gweithio ar egwyddorion ataliol tymor hir er mwyn cadw pobl hŷn yn actif ac yn iach ac i wella a chreu cyfleoedd cymdeithasu o fewn eu cymunedau lleol.

***"Dwi'n byw ar fy mhen fy hun, felly mae llenwi'r diwrnod yn bwysig. Mae'r ganolfan yn rhywle i ddod, i gael paned a sgwrs. Mae'n le i gael gwybodaeth - os oes rhywbeth nad ydach chi'n ei ddeall am fudd-dal y mae gynnoch chi hawl iddo, mi gewch chi wybod mwy, a hynny mewn awyrgylch gartrefol."***
***Mynychwr canolfan Byw'n Dda yng Ngwynedd.***

Defnyddiwyd arian o'r gronfa hon hefyd i sefydlu tîm newydd aml ddisgyblaethol ar y cyd rhwng y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd a thrwy hyn treialu ffordd newydd o weithio. Mae'r Tîm wedi bod yn gweithio ym maes Pobl Hŷn ac Amhariad Corfforol ac yn torri tir newydd yn genedlaethol o ran gweithio'n gwbl integredig.

## 2.5 Iaith a Diwylliant unigryw Gwynedd

Fel pob Sir arall, y mae i Wynedd ei nodweddion ei hun. Caiff Gwynedd ei hadnabod fel un o gadarnleoedd yr iaith Gymraeg, a'r Gymraeg yw iaith weinyddol y Cyngor. Y mae hyn, yn ei dro, wedi dylanwadu'n ffafriol iawn ar ein gallu i gynnig gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg i'n dinasyddion.

Yn ystod 2014/15 aethpwyd ati i weithredu gofynion ail flwyddyn y fframwaith strategol Mwy na Geiriau' gan Lywodraeth Cymru. Rydym yn hyderus ein bod yn gweithredu canllawiau recriwtio Comisiynydd y Gymraeg ac yn cwrdd â'n dyletswyddau i gynllunio, datblygu, gweithredu a buddsoddi mewn gweithlu dwyieithog.

Mae rhai o lwyddiannau 2014/15 yn cynnwys:

- mapio'r ddarpariaeth a'r capasiti presennol er mwyn darparu gwasanaeth rhagweithiol o fewn y gwasanaeth dementia;
- enwebu Hyrwyddwyr y Gymraeg yn Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol ac Adran Cefnogaeth Gorfforaethol yr Awdurdod Lleol i arwain menter staff "iaith gofal yn y gwaith";
- sicrhau rhaglenni hyfforddiant a datblygu staff i gynyddu gallu staff i ddarparu gwasanaethau trwy'r Gymraeg, a
- chychwyn cynllun prentisiaeth mewn gofal gyda'r bwriad o recriwtio tua 7 o bobl ifanc Cymraeg eu hiaith i weithio o fewn ein cartrefi gofal.




Yng nghynhadledd Gwireddu'r Geiriau 2014 daeth Tîm Broceriaeth Gwasnaethau Cymdeithasol Gwynedd yn fuddugol yn y category "Gwaith â grwpiau sy'n flaenoriaeth - Pobl hyn".


Bu i staff Tîm Derwen (tîm integredig ar gyfer plant a phobl ifanc anabl a gwael) hefyd dderbyn cydnabyddiaeth am eu hymdrechion o ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Enillodd y Tîm yma ddwy wobr yn ystod y flwyddyn, sef Gwobr Cyrhaeddiad Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar gyfer 'Gwasanaethau i ofal iechyd dwyieithog' a gwobr arall dan faner 'Gweithio mewn Partneriaeth' drwy Wireddu'r Geiriau.

# 3.Diogelu

## 3.1 Datblygiadau strategol

Mae diogelu plant, phobl ifanc ac oedolion bregus yn flaenoriaeth i Gyngor Gwynedd. Nid cyfrifoldeb y Gwasnaethau Cymdeithasol yn unig yw hyn ond yn hytrach cydnabyddir ei fod yn gyfrifoldeb i bob aelod o staff ac i bob aelod etholedig. Adlewyrchir hyn yn y polisi corfforaethol ar ddiogelu plant ac oedolion bregus.

Er mwyn monitor cynnydd mewn perthynas diogelu ar lefel gorfforaethol, sefydlwyd panel strategol gyda chynrychiolwyr adrannol ac aelodau etholedig perthnasol. Yr Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc sy'n cadeirio'r panel yma sy'n arwain ar osod cyfeiriad strategol, monitro cynnydd mewn perfformiad, adnabod bylchau a gyrru datblygiadau yn y maes diogelu. Yn atebol i'r Panel sefydlwyd Panel Gweithredol Diogelu a fynychir gan gynrychiolwyr o bob Adran o fewn y Cyngor.




Fel rhan o'r rhaglen waith parhawyd gyda'r rhaglen hyfforddiant ar gyfer staff mewnol ac allanol ac aelodau etholedig er mwyn sicrhau bod ymwybyddiaeth o'r materion pwysig dan sylw yn ymledu ymhellach.

Gyda'r bwriad o sicrhau ansawdd ac o ddatblygu arbenigedd yn y maes diogelu yn ystod y flwyddyn sefydlwyd uned diogelu benodol.

Cryfhawyd systemau caffael y Cyngor hefyd yn sgil yr adroddiad gan sefydlu Grŵp Tasg Caffael a Chytundebau yn is grŵp i'r Panel Gweithredol ar Ddiogelu. Rhoddwyd arweiniad ar faterion diogelu o fewn llawlyfr gan bwysleisio'r angen i dystiolaethu bod recriwtio diogel, hyfforddiant diogelu priodol a chydymffurfiaeth a Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn digwydd. Nodwyd hefyd fod angen rheolwr dynodedig yn gyfrifol am faterion diogelu ym mhob sefydliad.

## 3.2 Diogelu Plant

Arhosodd y nifer o blant ar y gofrestr amddiffyn plant yn gyson. Ddiwedd 2014/15 roedd 84 plentyn yn hanu o 47 aelwyd ar y gofrestr (85 plentyn ddiwedd 2013/14). Mae gennym fesurydd lleol i fesur 'cyfradd y plant a gafodd eu trafod mewn goruchwyliaeth, lle rhoddwyd ystyriaeth i niwed sylweddol (a'r ateb wedi ei gofnodi)' ac roedd ein perfformiad yn 100% yn ystod 2014/15. Elfen arall a chaiff ei mesur gennym yw 'cyfradd yr asesiadau risg a gafodd eu cyflwyno i Gynadleddau Achos a oedd yn cael eu hystyried yn rhai a oedd yn dangos ansawdd wrth wneud penderfyniadau'. Roedd ein perfformiad ar gyfer 2014/15 yn 98%.

Yn ystod Ebrill a Mai 2014 cynhaliwyd archwiliad gan Arolygaeth Gwaith a Gofal Cymdeithasol Cymru (AGGCC) o drefniadau'r Cyngor i gynllunio gofal ar gyfer y plant a'r bobl ifanc hynny sydd fwyaf bregus ac sy'n arddangos ymddygiadau heriol allai eu gosod mewn perygl. Roedd yn gofyn a oedd ymarfer yn hyrwyddo gwrando ar lais plant ac yn hyrwyddo gwell canlyniadau iddynt. Pennodd yr arolygwyr bod trefniadau sefydlog mewn lle yng Ngwynedd a disgrifiwyd y gweithlu fel un sefydlog gyda moral uchel. Nodwyd nifer o wersi i'w dysgu a meysydd i'w datblygu yn ogystal â negeseuon cadarnhaol. Rhannwyd

canfyddiadau'r archwiliad gyda'r Panel Rhiantu Corfforaethol, Y Panel Strategol Diogelu Corfforaethol a Chabinet y Cyngor.

## 3.3 Diogelu Oedolion

Yn ystod 2014/15, bu newid yn y strwythur diogelu oedolion. Bellach mae Bwrdd Rhanbarthol mewn lle gyda Grwpiau Gweithredol lleol ar batrwm is rhanbarthol yn atebol iddo.

Yn ystod 2014/15, derbyniwyd 178 cyfeiriad Amddiffyn Oedolion Bregus (POVA) yng Ngwynedd, o'i gymharu â 187 y flwyddyn cynt. O ran achosion Dyrchafu Pryderon ('Escalating Concerns'), bu i ni ymdrin â 4 achos yn 2014/15, o'i gymharu â 2 yn 2013/14. Rydym wedi cydweithio â gweddill awdurdodau Gogledd Cymru i gytuno ar drefn Dyrchafu Pryderon rhanbarthol yn cynnwys cyhoeddi cyfarwyddiadau cyffredin ar draws y Gogledd.

Yn dilyn dyfarniad barnwrol Gorllewin Caer, mae'r meini prawf ar gyfer gweithredu rheoliadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid (DoLS) wedi eu haddasu. Gwelwyd cynnydd sylweddol yn y nifer o geisiadau DoLS yma yng Ngwynedd. Yn 2013/14 derbyniwyd 7 cais yng Ngwynedd ond erbyn 2014/15 cynyddodd y nifer i 365. Yn ystod y flwyddyn trefnwyd sesiynau hyfforddiant ar gyfer y gweithlu ac ar gyfer darparwyr. Yn ystod 2014/15, penodwyd cydlynydd i Wynedd, a hyfforddwyd 3 Asesydd Lles Gorau i gynorthwyo gydag ymateb i'r cynnydd mewn ceisiadau.

# 4.Gwella Gwasanaethau i Oedolion

## 4.1 Mesuryddion

O'r 4 mesurydd cenedlaethol statudol, roedd perfformiad 2 o'r rhain eleni yn well na'r llynedd, roedd 1 wedi gwaethygu ac 1 arall, er wedi lleihau, wedi gwella yn ôl ein gweledigaeth leol. Mae gan y gwasanaeth hwn hefyd 24 o fesuryddion eraill, sy'n gymysgedd o rai cenedlaethol anstatudol a rhai lleol. Gellir cymharu perfformiad â 2013/14 ar gyfer 17 ohonynt. O'r 17 roedd perfformiad 8 ohonynt (47%) wedi gwella, 1 wedi aros yn gyson (6%) ac 8 (47%) wedi gwaethygu rhwng 2013/14 a 2014/15.

Mae ein llwyddiant i gwblhau adolygiadau statudol o gynlluniau gofal wedi cynyddu'n raddol dros y chwe blynedd ddiwethaf ond wedi llithro ychydig eleni i 82.7% o'i gymharu â 85.3% llynedd.

Llwyddwyd eto eleni i berfformio yn arbennig o dda o ran osgoi oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty am resymau gofal cymdeithasol. Mae hyn yn dystiolaeth o'r modd yr ydym yn ymdrechu'n barhaus i gydweithio gyda'r Bwrdd Iechyd. Roedd ein perfformiad ar gyfer 2014/15 yn 1.2 am bob 1,000 o'r boblogaeth dros 75 oed* (*data lleol, i'w gadarnhau gan yr Uned Data Llywodraeth yn yr Haf gan mai Iechyd sy'n adrodd). Roedd ffigwr Cymru ar gyfer 2013/14 yn 4.7 am bob 1,000 o'r boblogaeth.

Ar ddiwedd 2014/15, roedd ein perfformiad ar gyfer cyfradd y bobl a gefnogir i fyw gartref yn 45.44 am bob 1,000 o'r boblogaeth dros 65 oed, o'i gymharu â ffigwr tebyg iawn y flwyddyn flaenorol, sef 46.21. Noder fod ein sylwadau hanesyddol, fod casglu'r mesurydd yn anghyson ar draws awdurdodau, wedi dwyn ffrwyth eleni gyda chanllawiau clir wedi mynd i'r Cynghorau i gadarnhau.

Yn 2014/15 datblygwyd trefniadau ar gyfer dadansoddi ein darpariaeth a gwariant ar ofal cartref, a hynny ar sail ddaearyddol, oedran, anghenion, costau, dwysedd a natur y gwasanaeth. Golyga hyn bod modd i ni ddadansoddi'r data mewn dull lle gellir adnabod yn union lle, ac felly pam, mae newidiadau yn y gwasanaeth yn digwydd a hyn yn galluogi'r gwasanaeth allu ymateb a gweithredu fel sy'n briodol pan fo angen.

Ar ddiwedd 2013/14, ar draws Cymru, roedd cyfartaledd o 19.84 person am bob 1,000 o'r boblogaeth dros 65 oed wedi eu cefnogi mewn cartref preswyl neu nyrsio. Roedd ein ffigwr cyfatebol ni yn 25.59 ar gyfer 2013/14 ond mae hyn bellach wedi gostwng i 24.15. Yn dilyn dadansoddiad, roedd yn glir mai mewn Gofal Nyrsio oedd y cynnydd yn 2013/14, ac o fewn y maes hwnnw mae'r gostyngiad wedi bod yn 2014/15.

## 4.2 Rhaglen Wella

### Adolygiad Gosod Cyfeiriad i Wasanaethau Pobl Hŷn a Gweithio'n Integredig

Mae 2014/15 wedi bod yn gyfnod o osod sylfeini cadarn ar gyfer gwasanaethau i Oedolion yng Ngwynedd. Er mwyn cyflawni hyn cynhaliwyd Adolygiad Gosod Cyfeiriad i Wasanaethau Pobl Hŷn sef adolygiad manwl o ymarfer fel ag y mae heddiw ynghyd ag argymhellion ar gyfer ymarfer y dyfodol. Cyhoeddir y rhain ym mis Medi 2015. Ochr yn ochr â'r adolygiad hwn, mae staff Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gwasanaeth Iechyd wedi bod yn adolygu'r modd y mae'r system yn ei chyfanrwydd yn gweithio ar gyfer Pobl Hyn a Phobl ag Anableddau Corfforol. Gyda chefnogaeth cwmni arbenigol o'r

enw Vanguard ceisiwyd darganfod yr hyn sy'n cyfri i'n defnyddwyr, ac yn greiddiol i hyn wedyn ceisio deall y meddylfryd sydd wedi ein harwain i fod yn gweithio yn y modd cyfredol.

Arweiniodd hyn i dreialu ffordd newydd o weithio gan sefydlu tîm aml disgyblaethol ar y cyd rhwng Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gwasanaeth Iechyd yn Ysbyty Alltwen, Tremadog. Trwy ddychmygu sut fyddai system 'ddelfrydol' yn edrych i'n defnyddwyr datblygwyd pwrpas newydd a set newydd o egwyddorion gweithredol.

Pwrpas newydd: "Fy helpu i fyw fy mywyd fel 'dwi isio"

Egwyddorion gweithredol newydd:

1. Yr hyn sydd yn cyfri i'r unigolyn yn ganolog i bopeth a wnawn.
2. Cael sgwrs gyda'r unigolyn ynglŷn â'u stori a'u cryfderau yr hoffent adeiladu arnynt; gan eu cefnogi i wneud penderfyniadau gwybodus.
3. Gwneud penderfyniadau hefo'r unigolyn ar yr amser cywir ac yn y man cywir.
4. Ymyraethau wedi'i selio ar yr hyn sy'n cyfri i'r unigolyn trwy weithio mewn partneriaeth hefo'i cysylltiadau personol.
5. Cadw perchnogaeth gan dynnu arbenigedd i mewn lle bo'r angen.
6. Gwybodaeth yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n cyfri i'r unigolyn, ac i bawb sydd ei angen gael mynediad rhwydd ato.
7. Mae ein mesuryddion yn gyrru ein dysgu a'n ffordd system lawn o weithio.
8. Ein bod yn gweithio fel un tîm.
9. Arweinwyr yn gweithredu i ddiddymu rhwystrau gan alluogi darpariaeth gwasanaeth effeithiol.

Mae'r tîm bellach yn weithredol yn ardal Porthmadog ers mis Ionawr 2015, ac er bod y gwaith yn ddatblygol a'i bod yn ddyddiau cynnar iawn o ran mesur effaith, mae canlyniadau positif iawn eisoes yn dod i'r golwg.

Yn ddibynnol wrth gwrs ar lwyddiant y gwaith ym maes Pobl Hyn ac Anableddau Corfforol, rhagwelir y byddwn yn datblygu ac yn gweithredu'r un ymagweddiad yng ngweddill meysydd Oedolion sef Anableddau Dysgu ac Iechyd Meddwl.

**Adolygiad Safon Gofal mewn Cartrefi Preswyl a Nyrsio**

Yn dilyn cyhoeddi 'Lle i'w alw'n Gartref' sef adolygiad o safon gofal mewn Cartrefi Preswyl a Nyrsio yng Nghymru gan y Comisiynydd Pobl Hyn, aethom ati i lunio rhaglen waith er mwyn cyfarch y disgwyliadau. Bellach cymeradwywyd y rhaglen waith gan y Comisiynydd ac mae'r uwch reolwyr yn sicrhau fod y gweithredu perthnasol yn digwydd. Roeddem yn hyderus fod monitro materion 'caled' megis iechyd a diogelwch eisoes yn digwydd ond efallai yn llai hyderus ein bod yn monitro safon y gofal o bersbectif y defnyddiwr. Mae'r cynllun yma yn mynnu ein bod yn gwneud hynny a byddwn yn adrodd ar ein darganfyddiadau yn flynyddol.

**Rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru 2014-2019**

Mae *Heneiddio'n Dda yng Nghymru* yn rhaglen strategol pum mlynedd sydd wedi ei chynllunio i wella bywydau pobl hŷn drwy ganolbwyntio ar atal salwch, ynysu cymdeithasol a gwella a hyrwyddo byw'n annibynnol. Mae'n gweithredu ar sail cryfderau'r unigolyn ac yn rhoi sylw i sawl agwedd o fywyd megis

bregusrwydd, gwaith rhyng-gynhedlaeth, gwaith ataliol ac ymyrraeth gynnar. Mae hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd gwrando a chlywed llais pobl hyn a gweithredu ar sail yr hyn mae ymchwil yn ei ddweud sy'n effeithiol.

Swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru sy'n gyrru'r agenda yma. Mae gofyn i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru gyhoeddi rhaglen waith lleol erbyn diwedd Hydref 2015 sydd yn ymateb i ofynion y Strategaeth Pobl Hŷn (Gwedd 3) Llywodraeth Cymru 2013-23 a'r Rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru 2014-19.

## Gwasanaethau Ataliol ac Ymyrraeth Gynnar

Yn unol â gofynion a disgwyliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae'r ffocws ar wasanaethau ataliol ac ymyraethau cynnar wedi cynyddu yn y Sir. Cyn gweithredu unrhyw ddatblygiadau sylweddol y mae angen i ni wneud gwaith dadansoddol er mwyn canfod lle yn union y dylem roi ein hymdrechion o ran ymyrraeth gynnar ac ataliol.

Roeddem wedi ymrwymo, yn ystod 2014/15, i ganfod beth yw natur yr asedau cymunedol sy'n bodoli o fewn y Sir, ceisio diffinio natur yr ymyrraeth ataliol sy'n angenrheidiol a chael cytundeb ar beth y dylai rôl a chyfraniad y trydydd sector fod o safbwynt cwrdd â'r anghenion hyn. Er ein bod wedi gwneud gwaith ymylol, bydd hi bellach yn 2015/16 ar y gwaith yma yn cael ei wireddu a bydd yn cael ei ddatblygu law yn llaw gyda'r gwaith ffurfio cynllun gwaith heneiddio'n dda Gwynedd, a'r gwaith rhanbarthol mae'r Cyngor yn rhan ohono o ran datblygu Cyfeirlyfr Gwasanaethau electroneg.

Fodd bynnag mae sawl cynllun ataliol ac ymyrraeth gynnar wedi'i ddatblygu a'i ariannu yn 2014/15 drwy gyfrwng Cronfa Gofal Canolraddol Llywodraeth Cymru (gweler Pennod 2). Enghreifftiau amlwg yw'r sesiynau DementiaGo yng nghanolfannau hamdden y Sir; cefnogi gofalwyr gwryw yn ardaloedd Dwyfor a Meirionnydd; ac ymgymryd â man addasiadau mewn tai pobl hŷn er mwyn hwyluso'r broses rhyddhau o'r ysbyty.

***"Gwych. Mae'r ymarferion yn dda iawn, mae'r dosbarth yn gymaint o fodd o ryddhau straen fel nad wyf eisiau iddo orffen. Hwn yw uchafbwynt fy wythnos. Dwi yn teimlo'n brafiach yn cael mynd adref i edrych ar ôl y gŵr ar ôl y dosbarth. Mae hwn yn stress buster go iawn."***
***Mynychwr sesiynau DementiaGO sydd yn gofalu am ei gŵr sy'n byw gyda dementia.***

Ddiwedd Mawrth 2015, cynhaliwyd sesiwn yn y Galeri Caernarfon i bartneriaid maes gofal ac iechyd er mwyn ail lansio'r Teclyn Asesu Risg Codymu (FRAT) ac i hyrwyddo gwaith rhaglen Atal Codymu Gogledd Cymru. Mae'r rhaglen yn cael ei gefnogi gan bartneriaid o Iechyd, yr Awdurdodau Lleol, a'r Trydydd sector a hynny o fewn ysbytai, y gymuned a chartrefi gofal. Mae'r gwasanaeth Atal Codymu, yn ogystal â'r broses teclyn asesu FRAT, ar gael i unrhyw un dros 65 oed sydd wedi cael codwm, neu sydd yn bryderus o godymu.

Yn ogystal yn ystod 2014/15 cynhaliwyd dosbarthiadau ymarfer er mwyn atal codymu a hynny drwy Gynllun Cyfeirio Ymarfer Cenedlaethol Gwynedd (NERS) ag adran Ffisiotherapi Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr. Mae'r dosbarthiadau yma yn atal codymau ac ymarfer cydbwysedd, yn rhedeg am 32 wythnos ac ar gael i bobl dros 65 oed. Mae saith elfen yn perthyn i'r cynllun yn cynnwys cryfder,


cydbwysedd, hyblygrwydd, dygnwch, gweithgareddau llawr, codi oddi ar y llawr a Thai chi. Rhaid cael cyfeiriad gan feddyg lleol i allu cymryd rhan yng nghynllun NERS.

Yn ystod 2014/15, bu i ni adolygu a diwygio ein gweithdrefnau ar gyfer darparu cefnogaeth Teleofal. Mae'r llif mynediad wedi'i adolygu a'i ddiwygio gan olygu fod angen i bawb arwyddo cytundeb. Mae'r pecynnau teleofal syml wedi bod yn boblogaidd ers tro ac o gofio hynny, nid oedd cynnydd mawr iawn wedi bod rhwng 2013/2014 (406 pecyn) a 2014/15 (cynnydd i 466 pecyn). Fodd bynnag, y llynedd bu ymdrechion gan y gwasanaeth i hyrwyddo'r offer cymhleth a chafwyd llwyddiant gyda'r nifer o becynnau cymhleth yn cynyddu o 30 pecyn yn 2013/14 i 146 pecyn yn 2014/15.

Mae gwaith wedi cychwyn ym maes Anableddau Dysgu i ymgorffori egwyddorion y model 'Symud Ymlaen' ym mhob agwedd o'r gwasanaethau a gynigir. Yn ei hanfod, y weledigaeth yw sicrhau bod pob unigolyn yn cyflawni hyd eithaf ei allu, ac yn cael ei annog i anelu'n uwch a meithrin sgiliau a phrofiadau newydd o hyd. Bu ymdrechion yn ystod 2014/15 i adolygu pecynnau unigol ac i gryfhau'r berthynas gyda'r Bwrdd Iechyd. Cafwyd ymdrechion hefyd i ddatblygu cyfleoedd dydd cyflogedig ac hefyd sefydlu cynllun man diogel i'w beilotio yn Mangor. Bydd y gwaith yma yn parhau yn 2015/16, ac yn cynnwys ymgysylltu gyda defnyddwyr a'u teuluoedd ac ail lunio cynlluniau gofal i adlewyrchu'r canlyniadau disgwyliedig i'r defnyddwyr gwasanaeth.

Mae cryn ffocws ar y maes Gofalwyr yn y Ddeddf Gwasnaethau Cymdeithasol Iechyd a Llesiant (Cymru) 2014 ac mae gwaith wedi mynd rhagddi o fewn y maes yma eto yn 2014/15. Lluniwyd dogfen strategaeth gofalwyr i Wynedd o dan oruchwyliaeth Partneriaeth Gofalwyr Gwynedd. Lluniwyd llyfryn argyfwng i ofalwyr a hefyd lansiwyd cerdyn argyfwng. Mae trafodaethau yn parhau i sicrhau gwell cydweithio gyda Phartneriaeth Gofalwyr Môn i'r dyfodol.

Mae'r cynllun Cerdyn Argyfwng Gofalwyr Gwynedd yn agored i unrhyw un sy'n edrych ar ôl rhywun sy'n dibynnu ar ofalwr oherwydd bod ganddynt salwch, anabledd neu eu bod yn fregus. Drwy ymaelodi efo'r cynllun rhad ac am ddim, mae'r gofalwr yn derbyn cerdyn maint cerdyn credyd, sy'n nodi aelodaeth o'r cynllun gyda rhif ffôn Gwasanaethau Cymdeithasol a rhif adnabod unigryw.




Mae'r gwasanaethau brys a staff ysbytai yn gwybod beth yw arwyddocâd y cerdyn ac o weld bod unigolyn yn cario'r cerdyn, os yw ef neu hi yn cael eu taro'n wael neu'n cael damwain difrifol, gwyddant fod rhywun sy'n llwyr ddibynnol ar gyfer gofal sylfaenol yn cael eu rhoi mewn sefyllfa anodd yn sgil absenoldeb y gofalwr. Bydd y Gwasanaethau Gofal yn cysylltu gyda'r bobl sydd wedi cael eu henwebu gan y gofalwr.

## Darpariaethau dwys

### Adolygiad o'r Gwasanaeth Galluogi

Mae'r gwasanaeth yma wedi ei seilio ar egwyddor o hybu annibyniaeth a pheidio creu dibyniaeth. Mae yn weithredol yng Ngwynedd ers Ionawr 2010. Mae yn wasanaeth sydd ar gael felly am gyfnod penodol, a gall hyn amrywio o ychydig o ddyddiau hyd at gyfnod o 12 wythnos. Mae'n wasanaeth sydd

yn cael ei ddarparu gan weithwyr gofal cartref gyda chefnogaeth arbenigol therapyddion galwedigaethol.

Ymddengys o'r mesuryddion yr ydym yn eu defnyddio ein bod yn llwyddo gyda'n cynlluniau galluogi ac yn sgil hyn wedi sicrhau arbedion. Fodd bynnag cynhaliwyd adolygiad rheolaethol gan y Gwasanaeth Pobl Hŷn yn 2014/5 ac, ymddengys er fod rhai agweddau yn gweithio'n dda y dylid newid agweddau eraill ar gyfer y dyfodol.

Y prif agweddau sydd angen eu newid neu lle bo gwersi i'w dysgu yw:

- ymddengys bod enghreifftiau o unigolion yn derbyn gwasanaeth galluogi er y byddent wedi cryfhau heb y mewnbwn yma.
- ei fod yn wasanaeth gymharol ddrud i'w ddarparu ac angen gwneud y defnydd gorau o'r adnodd drwy dargedu effeithiol a monitor cadarn
- dylai mesur perfformiad fod yn edrych ar gyflawni canlyniadau wedi'i cytuno gyda'r defnyddiwr ar gychwyn yr ymyrraeth

**Bwrdd Prosiect Lletya Cyngor Gwynedd**

Mae datblygiadau sylweddol yn digwydd o dan faner y Bwrdd Prosiect Lletya. Mae'r gwaith o ddatblygu unedau byw i bobl ag anableddau dysgu ar safle Pant yr Eithin Harlech yn prysur ddod i derfyn. O ran gwaith datblygu safle Frondeg, Caernarfon, mae opsiynau ar gyfer y safle wedi eu hadnabod ac mae angen eu gwerthuso a dod i benderfyniad ynglŷn â'r ffordd ymlaen er mwyn sicrhau llety addas i'r dyfodol.

O ran gweledigaeth y Cyngor i sicrhau unedau tai gofal ychwanegol yn ardal Porthmadog, mae'r Cyngor bellach wedi sicrhau gwerthiant safle cyn gartref preswyl Hafod y Gest, Porthmadog i gymdeithas tai cofrestredig lleol. Rhagwelir cychwyn adeiladu'r datblygiad yn Hydref 2015 a'i gwblhau yn Ebrill 2017

Mae'r gwaith adeiladu wedi gorffen erbyn hyn ar Gae Garnedd, cynllun tai gofal ychwanegol £8.35 miliwn ym Mangor ac fe ddechreuodd y preswylwyr symud i mewn i'w cartrefi newydd yn Rhagfyr 2014. Mae'r cynllun yn cynnwys 15 o fflatiau gydag un ystafell wely a 27 fflat gyda dwy ystafell wely.

Mae Cae Garnedd yn gynllun gofal i bobl hŷn wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth rhwng Tai Gogledd Cymru a Chyngor Gwynedd. Dyma'r cynllun gofal ychwanegol cyntaf o'i fath ym Mangor ac mae'n cynnig ffordd wahanol o fyw i bobl hŷn, i fyw'n annibynnol gyda gofal a chefnogaeth.

Erbyn diwedd 2014/15, roeddem wedi cyhoeddi drafft terfynol o Strategaeth Letya Pobl Hŷn, fydd yn ymgorffori gofal preswyl a nyrsio. Mae'r ddogfen yma (a ragwelir ei fabwysiadu yn derfynol erbyn Hydref 2015) yn gosod cyfeiriad o ran dyfodol ein cartrefi preswyl. Bydd hefyd yn hwyluso'r gwaith o ddylanwadu ar y Cynllun Datblygu Lleol ac ar ddarparwyr preifat a rhai o'r trydydd sector allai fod â diddordeb mewn cydweithio â ni i ddatblygu'r amrediad gorau bosibl o gyfleoedd lletya i bobl hŷn.

**Unedau Gofal Byrdymor Gwynedd**

Yn Ionawr 2015, agorodd Cyngor Gwynedd unedau gofal tymor byr ym mhedwar o'i gartrefi gofal preswyl. Mae hon yn fenter ar y cyd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Drwy weithio gyda'i gilydd maent yn ceisio sicrhau bod trigolion Gwynedd yn cael y "gofal cywir, ar yr adeg gywir, yn

y lle cywir a chan y bobl broffesiynol gywir".  Mae'r unedau wedi eu lleoli ym Mhlas y Don,  Pwllheli; Bryn Blodau, Llan Ffestiniog;  Llys Cadfan, Tywyn; a Phlas Pengwaith, Llanberis.

Gellir defnyddio'r ddarpariaeth yma'n hyblyg i ddarparu cyfnod o ofal seibiant ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth sydd fel arfer yn derbyn gofal yn y cartref, neu i ddarparu cyfnod o ofal ar gyfer unigolion sydd wedi cael eu hasesu fel pobl a allai elwa o gyfod o ymyrraeth a chefnogaeth.  Amcan hyn fyddai atal derbyniadau i'r ysbyty neu'r angen am ofal preswyl hir.  Gallasent hefyd ddarparu cyfnod o ail alluogi / adsefydlu i unigolion sy'n dioddef neu sy'n gwella o salwch acíwt/codymau ac sydd angen cymorth, neu sydd angen eu monitro neu eu hadsefydlu gan dimau adsefydlu cymunedol, nyrsys cymunedol, gofal preswyl a staff cymorth.

# 5.Gwella Gwasanaethau i Blant

## 5.1 Mesuryddion

Er bod yr Adran wedi bod mewn cyfnod o newid, mae perfformiad yn erbyn mwyafrif y targedau cenedlaethol a lleol unai wedi gweld gwelliant parhaus neu gynnal perfformiad llynedd. Unwaith eto llwyddwyd i berfformio ymysg y goreuon yng Nghymru yn y meysydd rheini sydd yn cael effaith cadarnhaol ar fywydau plant, yn benodol sefydlogrwydd lleoliadau, canlyniadau addysgol plant sydd yn derbyn gofal ac mewn ymateb yn amserol i atgyfeiriadau i'r Gwasanaeth.

O'r 8 mesurydd cenedlaethol, roedd y perfformiad ar gyfer 2 yn well na'r llynedd, ac roedd wedi aros yn gyson ar gyfer 2 arall (50% cystal â, neu'n well na, 2013/14). Mae gan y gwasanaeth hwn 58 o fesuryddion eraill, sy'n gymysgedd o rai cenedlaethol anstatudol a rhai lleol. Gellir cymharu perfformiad â 2013/14 ar gyfer 52 ohonynt. O'r 52, roedd perfformiad 44 ohonynt (85%) wedi gwella neu aros yn gyson rhwng 2013/14 a 2014/15.

Yn ei adolygiad o berfformiad Gwynedd 2013/14, bu i Arolygaeth Gwaith a Gofal Cymdeithasol Cymru amlygu'r angen i wella neu gynnal perfformiad o ran amseroldeb asesiadau cychwynnol, gostwng y nifer y plant sy'n cael eu hailgyfeirio, ac amseroldeb cynadleddau amddiffyn plant.

O ran asesiadau cychwynnol, nodwyd yr angen i wella canran yr asesiadau cychwynnol sy'n cael eu cwblhau cyn pen saith diwrnod. Yn y flwyddyn llwyddodd y Cyngor i gwblhau 70% o fewn y gofyn amser sydd yn welliant ar 67% yn 2013/14 ond dal rhyw gymaint yn is na chanran gyfartalog o 72% yng Nghymru yn 2013/14. O ran camau ymateb mae un swydd gweithiwr cymdeithasol wedi ei ychwanegu at sefydliad y Tîm Derbyn cyfeiriadau. Mae bellach trefniant mewn lle i uwch weithiwr fod yn cymeradwyo'r asesiadau er mwyn gwella'r perfformiad 7 diwrnod ac adroddiadau rheolaidd yn cael ei gynhyrchu i atgoffa rheolwr o achosion sydd angen eu cau.

Mewn perthynas ag ailgyfeiriadau, gwelwyd man welliant ym mherfformiad Gwynedd sydd yn galonogol ac yn adeiladu ar welliant blynyddoedd blaenorol. Mae'r 25.7% yn 2014/15 o'i gymharu â 26.6% yn 2013/14 ac 30% yn 2012/13 ond yn is na 22.2% Cymru yn 2013/14. Mae'r Adran Plant a Chefnogi Theuluoedd yn monitro hwn yn agos er mwyn sicrhau a chynnal y gwelliant parhaus ac mae systemau bellach yn gwahaniaethu rhwng cyfeiriadau a hysbysiadau, lle nad oedd hyn yn wir yn y gorffennol, sydd wedi arwain at welliant.

Yn ystod y flwyddyn, ac er gwaethaf problemau staffio, gwelwyd y perfformiad o ran amseroldeb cynadleddau amddiffyn plant yng Ngwynedd yn cael ei gynnal. (Roedd y canran yn 95.7% yn 2014/15 o gymharu â 96.9% yn y flwyddyn flaenorol.)

Un maes a dderbyniodd sylw yn y flwyddyn, a hynny ar lefel Pwyllgor Craffu Gwasanaethau'r Cyngor, oedd canran yr ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal yn digwydd ar amser. Mi roedd cyrhaeddiad 2014/15 yn 88.9% sydd yn barhad o'r gwelliant mewn perfformiad yn flynyddol ers 2010 ac yn gynnydd ar 83.7% yn 2013/14, a hefyd yn uwch na lefel Cymru o 85.3%.

Nododd arolygiad cenedlaethol AGGCC Arolygaeth Gwaith a Gofal Cymdeithasol Cymru o Blant Mewn Gofal yr angen i ddatblygu'r cyfleoedd i blant sy'n derbyn gofal i fanteisio ar wasanaethau iechyd sylfaenol a llety camu ymlaen. Fel rhan o'i gyfrifoldebau rhiantu corfforaethol, cydnabyddai'r Cyngor ei

gyfrifoldeb o sicrhau bod modd i'r plant y mae'n gofalu amdanynt ddefnyddio gofal iechyd sylfaenol. Gwelwyd y perfformiad ar gyfer cofrestru gyda Meddyg Teulu cyn pen 10 diwrnod yn gwella yn 2014/15 ac yn 87.4% ond dal ychydig yn is na lefel Cymru o 88.3% yn 2013/14. Er bod canran yr asesiadau iechyd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal wedi gwella eto eleni i 50.6%, mae'n parhau i fod lawer yn is na'r ganran gyfartalog yng Nghymru, sef 81%. Mae hyn yn peri pryder i'r Cyngor ac mae'n faes sydd yn cael sylw gan y Panel Rhiantu Corfforaethol sydd yn parhau i geisio cynnal y drafodaeth gyda BIPBC i weld gwelliant yn y sefyllfa.

## 5.2 Rhaglen Wella

**Trefniadau Rhiantu Corfforaethol**

Bu 2014/15 yn flwyddyn o ddatblygu'r Strategaeth Rhiantu Corfforaethol. Mae'r gwaith yma yn parhau gyda fersiwn drafft o'r strategaeth wedi ei lunio ac wedi bod yn destun trafodaeth yng nghyfarfodydd y Panel Rhiantu Corfforaethol. Bu i'r Panel Rhiantu Corfforaethol weithio gyda phlant sy'n derbyn gofal yn ystod 2014/15 er mwyn darparu amlinelliad i'r camau gweithredu y byddai rhaid i'r Cyngor eu cymryd er mwyn cynorthwyo plant mewn gofal.

Bydd angen i aelodau ddarparu mwy o gymorth er mwyn sicrhau bod y nodau strategol yn cael eu perchnogi mewn ffordd effeithiol a'u troi yn gamau gweithredu ar draws gwasanaethau'r Cyngor a gan asiantaethau partner. Bydd hyn yn sicrhau gofal iechyd priodol, gwell uchelgais addysgol gyda chefnogaeth addas a phriodol a chyfleoedd cyflogaeth a phrofiadau gwaith hyfyw yn y Cyngor ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

**Cynllunio Strategol**

Yn ei adolygiad o berfformiad Gwynedd 2013/14, bu i AGGCC Arolygaeth Gwaith a Gofal Cymdeithasol Cymru amlygu'r angen i fod yn gwneud gwell defnydd o'r wybodaeth gan baneli plant sy'n derbyn gofal a hynny er mwyn disgrifio tueddiadau ac anghenion y boblogaeth. Amlygwyd nad oedd systemau'r Cyngor yn cipio proffil o boblogaeth y plant sy'n derbyn gofal yn rheolaidd, a'u hanghenion a aseswyd a bod yr wybodaeth hon yn hanfodol os yw'r awdurdod yn mynd i werthuso effeithiolrwydd ei strategaethau lleoli a pharhad, a rhagweld yr angen am adnoddau yn y dyfodol.

Mae gan yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd eisoes baneli cynllunio gofal parhaol, panel adnoddau i edrych ar geisiadau o'r newydd yn ogystal â phanel comisiynu lleoliadau statudol. Mae Panel Rheoli Lleoliadau wedi ei sefydlu yn ychwanegol a hynny yn sgil canfyddiadau'r adolygiad "Dechrau i'r Diwedd" Plant. Bydd hwn yn cadw'r ffocws ar leoliadau newydd gan sicrhau fod lleoliadau yn cyfarfod anghenion plant, fod cynlluniau addas ar waith i gynllunio ar gyfer y dyfodol ar gyfer plant gan osgoi unrhyw oediad, a bod y Cyngor yn cael gwerth am arian o'r lleoliadau. Rydym yn symud i gryfhau'r modd yr ydym yn crynhoi'r wybodaeth a ddaw am anghenion gofal o'r paneli hyn i fwydo i strategaethau gofal y gwasanaeth. Bydd yr Adran yn gallu adnabod tueddiadau yn deillio o'r paneli yma ond rhaid cydnabod mai proses dros amser fydd hyn mewn gwirionedd.

Cafwyd datblygiadau hefyd yn y flwyddyn o ran y cynllunio strategol gyda BIPBC yn y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS), ac mae cyfarfodydd rheolaidd bellach yn cael eu cynnal er mwyn gwella'r berthynas strategol i'r dyfodol.

**Darpariaeth cefnogaeth - ymwybyddiaeth a defnydd o wasanaethau eiriolaeth**

Adroddodd arolygiad cenedlaethol AGGCC o Blant Mewn Gofal bod pobl ifanc yn dweud eu bod yn cael eu hannog i fynychu eu hadolygiadau a bod eiriolaeth ar gael. Fodd bynnag gwelwyd nad oedd rhai o'r bobl ifanc a welwyd yn ymwybodol o'r gwasanaeth eiriolaeth a bod y niferoedd yn manteisio ar y gwasanaeth eiriolaeth yn isel. Nodwyd bod diffyg eiriolwyr sy'n siarad Cymraeg yn rhwystr.

Yn ystod y flwyddyn mae gwaith wedi digwydd drwy grŵp tasg a gorffen rhanbarthol i ail ddylunio gwasanaethau eiriolaeth statudol ar gyfer plant a phobl ifanc er mwyn sicrhau gwasanaeth o ansawdd uchel sydd yn rhoi gwerth am arian ac yn bodloni canllawiau Llywodraeth Cymru yn ogystal ag argymhellion Comisiynydd Plant Cymru. Canlyniad y gwaith yma yw bod darparwr eiriolaeth wedi derbyn cytundeb i ddarparu ar draws y chwe Sir yn y Gogledd yn weithredol o Ebrill 1af, 2015. Yn sgil hyn hefyd rydym yn cyfrannu tuag at adolygiad o wasanaethau eiriolaeth genedlaethol gyda'r bwriad o sefydlu gwasanaeth cenedlaethol yn y dyfodol agos.

## Gwasanaethau Ataliol ac Ymyrraeth Gynnar

Yn ystod 2013/14, cwblhawyd yr adolygiad 'Dechrau i'r Diwedd' oedd wedi ei gychwyn ym maes Plant. Daethpwyd i'r prif gasgliad bod angen lleihau'r nifer o blant sydd mewn gofal, ynghyd â'r costau sy'n deillio o hynny. Bu i ran helaeth o raglen waith yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd ar gyfer 2014/15 gael ei selio ar yr argymhellion a wnaed yn sgil yr adolygiad.

**Dechrau'n Deg**

Mae'r datblygiadau ar y gweill i ddatblygu sawl menter drwy nawdd cyfalaf Dechrau'n Deg. Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn gyfnod o baratoi a chynllunio at y mentrau yma a fydd yn golygu fod gwasanaeth ar gael ym Methesda a Thalysarn fydd yn cynyddu'r niferoedd o blant cyn oed ysgol fydd yn derbyn gwasanaethau yn sylweddol. Rhagwelir y bydd hyn yn uchafu cyfleoedd i blant ac yn cyflawni gofynion y cynllun yn llawn. Yn ystod y cyfnod nesaf mae bwriad i ymestyn y cynllun yn ehangach i gynnwys ardaloedd Dolgellau, rhannau o Benygroes a Gallt y Sil yng Nghaernarfon.

**Tîm Gyda'n Gilydd**

Mae Tîm Gyda'n Gilydd (Tîm o amgylch y Teulu) yn eistedd o fewn yr Adran newydd. Cyn Ebrill 2014 roedd y tîm yn gyfrifoldeb yr Adran Addysg. Pwrpas y tîm yw cynorthwyo teuluoedd er mwyn mynd i'r afael â phroblemau cymdeithasol, iechyd ac addysgol fel maent yn datblygu a hynny drwy osod y tîm o amgylch y teulu. Mae'n raglen wirfoddol sy'n golygu nad oes rhaid i wasanaethau eraill, fel y Gwasanaethau Cymdeithasol, orfod camu i mewn i ddatrys pethau. Mae'r tîm yn parhau i ddatblygu ac mae ymwybyddiaeth o'r tîm yn parhau i gryfhau gyda llif cyson ac addas o gyfeiriadau yn dod i sylw gan amrywiaeth eang o asiantaethau.

> ***"Ein prif neges yn Gyda'n Gilydd yw rhoi'r teulu wrth galon y gwasanaethau. Felly pan maent mewn angen – er enghraifft os ydynt yn ei chael yn anodd i fyw ar yr arian sy'n dod i fewn neu os ydi eu plant yn cael problemau ymddygiad – mae'r gwahanol asiantaethau yn dod at ei gilydd i'w cefnogi."***
> ***Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc Cyngor Gwynedd***

Comisiynwyd a derbyniwyd adroddiad o Brifysgol Oxford Brookes yn ystod y flwyddyn i werthuso'r Tîm ac fe ddaeth i ganlyniadau cadarnhaol iawn am ansawdd y Gwasanaeth gan hefyd gyflwyno nifer o argymhellion i'w hystyried yn ystod y flwyddyn sydd i ddod. Mae gwaith pellach i'w wneud i gytuno ar gyfeiriad strategol y tîm i'r dyfodol yn sgîl nifer o newidiadau a ddaw gyda'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, ond mae yn galonogol fod cydweithio agos yn datblygu rhwng y tîm a'r gwasanaeth statudol o fewn yr Adran gyda datblygiadau yn digwydd o ran cytuno ar drefniadau cyfeirio o'r naill wasanaeth i'r llall er mwyn targedu anghenion teuluoedd yn well ac o hynny rheoli'r galw am wasanaethau statudol.

**Tîm Trothwy Gofal**

Un o'r materion oedd yn cael ei ddatblygu ar ddiwedd 2014 oedd sefydlu Tîm Trothwy Gofal oedd yn ganlyniad i gynnal adolygiad 'Dechrau i'r diwedd' yn y gwasanaeth. Ers dechrau Chwefror mae'r tîm yn weithredol ac yn gweithio ar achosion. Pwrpas y tîm yw gweithio yn ddwys gyda theuluoedd er mwyn unai arbed plentyn rhag dod i ofal neu i ddychwelyd plentyn, lle bo hynny yn ddiogel, i'w gartref o ofal. Mae hwn yn ddatblygiad cyffrous a phwysig i drawsnewid y gwasanaeth ac i wella canlyniadau i blant a phobl ifanc. Mae'r arwyddion cychwynnol yn galonogol o ran canlyniadau i deuluoedd o'r ychydig achosion sydd wedi derbyn sylw, a bydd y cyfnod nesaf yn gyfle euraidd i fanteisio ar sgiliau'r tîm yma i drawsnewid y gwasanaeth.

## Darpariaethau dwys

Ar ddiwedd Mawrth 2015 roedd gan yr Adran 106 o unedau maethu wedi eu cofrestru ac mae'r gwaith recriwtio yn parhau i fynd yn ei flaen yn gryf. Cafwyd yr arolwg blynyddol o'r gwasanaeth maethu yn Rhagfyr 2014 a oedd yn canolbwyntio eleni ar ansawdd bywyd y plant a'r bobl ifanc sydd mewn gofal maeth. Yr ydym yn hynod o falch o ganlyniad yr arolwg.

***'….mae gan y bobl hynny sydd yn defnyddio'r Gwasanaeth maethu lawer o feddwl ohono…. mae'r gwasanaeth* maethu *a ddarperir gan Gyngor Gwynedd yn sicrhau fod amrywiaeth o leoliadau maethu i blant a phobl ifanc…mae'r gwasanaeth wedi gwneud cynnydd drwy annog gofalwyr maeth i gymryd rhan yn y broses o ddatblygu'r gwasanaeth…' (Adroddiad Archwiliad Maethu AGGCC 2014)***

Rydym yn parhau i fod yn rhan o wasanaeth Rhanbarthol ym maes mabwysiadu ac mae'r gwasanaeth yn derbyn adolygiad ar hyn o bryd gan fod y cytundeb partneriaeth wreiddiol yn tynnu tua'i derfyn. Ail sefydlwyd bwrdd rheoli ar ei gyfer ac mae Gwynedd yn cael ei gynrychioli yn llawn.

Mae'r Adran wedi bod yn un o dri awdurdod sydd yn rhan o gynllun peilot 'Pan Fydda i'n Barod' gan Lywodraeth Cymru. Mae yn gynllun sydd yn hybu pobl ifanc i ymestyn eu lleoliadau maeth tu hwnt i'w pen-blwydd yn ddeunaw oed a symud allan o ofal mewn cyfnod yn eu bywydau lle maent yn fwy parod i wneud hynny. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae saith o bobl ifanc yng Ngwynedd wedi manteisio ar y cynllun yma ac wedi elwa o'r cyfle.

Yn ystod y flwyddyn sydd i ddod byddwn yn cymryd rhan mewn gweithdai a seminarau cenedlaethol i rannu gwybodaeth am y cynllun cyn iddo ddod yn statudol yn ystod 2015/16. Mae'r grŵp monitro wedi cyflwyno adroddiad i'r Llywodraeth ar ddiwedd y cyfnod peilot.

Mae cyfleoedd gwaith a hyfforddiant i bobl ifanc yn parhau i gael eu hybu a'u hannog ac rydym yn parhau i weithio yn agos gyda swyddogion gyrfaoedd i sicrhau fod pobl ifanc yn cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn cyrsiau i'w paratoi at waith.

# 6.Llywodraethu

Mae nifer o swyddogaethau cefnogol sydd angen eu cyflawni yn effeithiol ar draws meysydd plant ac oedolion er mwyn gosod sylfeini fydd yn ein galluogi i gynnal safonau.

## 6.1 Perfformiad ac Ansawdd

Amlygwyd yr angen i wella trefniadau sicrhau ansawdd gan Arolygaeth Gwaith a Gofal Cymdeithasol Cymru yn ystod adroddiad gwerthuso blynyddol y llynedd. Un o'r prif ddatblygiadau yn ystod y flwyddyn oedd sefydlu'r Uned Ddiogelu ac Ansawdd ar draws y gwasanaethau plant ac oedolion. Mae'r cydlynydd amddiffyn oedolion bregus yn aelod o'r tîm yma erbyn hyn ynghyd â swyddogion adolygu annibynnol a'r cydlynydd amddiffyn plant dan arweiniad un rheolwr. Mae'r uned wedi llwyddo i gynnal perfformiad boddhaol iawn ym maes cynnal adolygiadau statudol a chynadleddau amddiffyn plant.

Bu i'r uned gyfrannu yn helaeth tuag at gynnal gweithdai diogelu ar gyfer Rheolwyr ac Aelodau Etholedig yn ystod y flwyddyn ac mae bwriad i barhau gyda'r gwaith yma yn ystod y flwyddyn sydd i ddod ynghyd â pharatoi ar gyfer y newidiadau a ddaw yn sgîl Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ym maes ymarfer diogelu plant ac oedolion pan ddaw'r Ddeddf yn weithredol ym mis Ebrill 2016.

Mae gallu'r cyngor i adrodd am berfformiad mewn ffordd fanwl wedi parhau i wella. Mae'r trefniadau rheoli risg o fewn y gwasanaeth wedi gwella wrth wneud defnydd rheolaidd o gofrestr risg, a'i diweddaru. Rydym hefyd yn monitro trwy gyfrwng system yn seiliedig ar y model llywodraethu gwasanaethau cymdeithasol.


O ran data datblygwyd system newydd ym Mawrth 2014 er mwyn tynnu data yn uniongyrchol o system Rheoli Cofnodi Data'r Adran ac adrodd ar ansawdd data. Mae gwaith llunio strategaeth sicrhau ansawdd ar draws yr Adran Oedolion Iechyd a Llesiant yn mynd rhagddo gyda threfniadau wedi eu peilotio yn 2014/15.

Byddwn yn paratoi adroddiad chwarterol gan dynnu at ei gilydd y prif negeseuon o gwynion, dangosyddion perfformiad, unrhyw archwiliadau a gwybodaeth drwy'r drefn fonitro contractau. Bwriad yr adroddiad fydd crynhoi'r holl wybodaeth ac yna amlygu'r prif negeseuon a risgiau. Y mae cynnal archwiliadau ansawdd ymarfer gwaith cymdeithasol bellach yn rhan o'r cynlluniau.

Bydd fframwaith gwarantu ansawdd plant yn cael ei ffurfioli fel rhan o raglen waith Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd yng nghyfnod blwyddyn berfformiad 2015/16.

### Cwynion

Ar 1af o Awst 2014 daeth trefn gwynion statudol newydd i rym gan ddisodli'r canllawiau cenedlaethol 'Gwrando a Dysgu'. Bu i ni ymateb i'r newidiadau drwy lansio polisi lleol newydd a oedd yn adlewyrchu'r newidiadau, cynnal sesiynau codi ymwybyddiaeth i staff a rheolwyr a lansio taflen wybodaeth newydd i ddefnyddwyr. Mae prosiect hefyd ar



y gweill i gyd-weithio gyda pherson ifanc i ddatblygu taflen benodol i blant a phobl ifanc ar y drefn gwynion.

Mae dysgu o gwynion a defnyddio'r wybodaeth er mwyn gwella gwasanaethau yn thema bwysig o fewn meddylfryd Gwynedd o sicrhau bod y dinesydd yn ganolog i bob dim yr ydym yn ei wneud. Mae'r Cyfarwyddwr corfforaethol yn ystyried yr holl ymchwiliadau a gynhelir gan yr Ombwdsmon.

## 6.2 Llywodraethu Gwybodaeth a'n Strategaeth TG a Chyfathrebu

Yn ystod 2014/15 cynhaliwyd rhaglen hyfforddiant eang i gynyddu dealltwriaeth staff o bwysigrwydd parchu gwybodaeth a hynny yn sgil ymateb i nifer gynyddol o achosion yn y gorffennol lle na lwyddwyd i ddiogelu data yn effeithiol.

Yn dilyn chwarae rôl arweiniol a chanolog yn y prosiect caffael am system genedlaethol ac integredig ar gyfer Gofal Cymdeithasol ac Iechyd (Gofal Cymunedol), mae'r broses caffael wedi dod i ganlyniad positif o ddewis cyflenwr buddugol a hefyd wedi sicrhau cyllid canolog gan Lywodraeth Cymru i gyfrannu i'r pryniant (£6.7m).

Rydym yn cydweithio'n rhanbarthol ar gyfer mewnosod y system newydd CCIS (Community Care Information System) yn y dyfodol agos, a bydd hwn yn olynydd i'r system bresennol (RAISE) yng Ngwynedd, ond yn cynnwys buddion pellach yn deillio o gydweithio a rhannu gwybodaeth.

## 6.3 Comisiynu a Chaffael

### Comisiynu Strategol

Mae datblygu ein perthynas gyda'r trydydd sector yn parhau yn faes lle rydym angen cryfhau er mwyn sicrhau ein bod yn symud i fod yn gweithio'n llawer mwy cyd-gynhyrchiol â'r sector. Mae hyn yn allweddol er mwyn gosod y cyfeiriad ar weledigaeth i'r dyfodol o ran yr hyn fydd i'w gomisiynu o fewn y maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Parheir i weithio ar lunio cynlluniau comisiynu cyfredol ar gyfer y meysydd Oedolion, Anableddau Dysgu ac rydym wedi cychwyn ar y gwaith o ddatblygu cynllun comisiynu iechyd meddwl am y tro cyntaf. Byddwn yn sicrhau bod y rhain yn ymgorffori'r egwyddor o weithio'n fwy integredig gan gynyddu'r ffocws ar gyd-gynhyrchu gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar i'r dyfodol.

Bydd trefniadau a strwythurau comisiynu'r Adran Oedolion Iechyd a Llesiant yn cael eu hadolygu fel rhan o broses ail-strwythuro'r Adran gyda'r posibilrwydd o fod yn comisiynu ar sail llwybrau gofal i'r dyfodol.

### Caffael a Chontractau

Mae Cyngor Gwynedd wedi parhau yn rhan o brosiect rhanbarthol 'Caffael 3 Sir', ac yn sgil y gwaith hwn rydym bellach wedi ymrwymo, ar y cyd â siroedd Fflint a Dinbych, i symud at drefn Rheolaeth Categori. Yn ystod 2015/16 bydd camau i'w cymryd i ddisodli'r Uned Comisiynu a Chontractau gwasanaethau cymdeithasol a sefydlu Uned Rheolaeth Categori fydd yn gweithredu'r drefn newydd o

gaffael i'r dyfodol. Disgwylir i hyn gryfhau ein perthynas a'n darparwyr a gwella ein trefniadau o ran prynu gwasanaethau priodol i gwrdd ag anghenion.

## 6.4 Datblygu'r Gweithlu a Hyfforddiant

Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2104 wedi bod yn flaenoriaeth yn 2014/15 o ran cyd weithio yn genedlaethol a rhanbarthol ar gyfer anghenion datblygu gweithlu'r gwasanaethau. Mae hyfforddiant wedi'i gynnal ar gyfer gweithwyr cymdeithasol gyda chyfres o gyrsiau mwy penodol i'w cynnal i wahanol grwpiau o staff dros 2015/16.

Mae'r cynllun hyfforddi *'Active Support'* (tebyg i alluogi) yn y maes anableddau dysgu wedi bod yn llwyddiannus a'r sesiynau dilyniant wedi helpu efo'r broses integreiddio'r dysgu i ymarfer. Mae'r hyfforddiant model risg yn parhau yn flaenoriaeth yn y maes plant ac rydym yn symud at banel ar gyfer gweithwyr sydd eisiau symud i'r lefel nesaf o hyfforddiant uwch trwy dangos eu dealltwriaeth o'r dysgu a sut mae'n gweithio mewn ymarfer.

Bellach mae nifer o weithwyr wedi cofrestru ar y Rhaglen Cadarnhau Porth Agored a hyd yma mae 5 o weithwyr cymdeithasol Gwynedd wedi cwblhau'r cymhwyster yn llwyddiannus. Yn 2014/15, roedd cynllun prentisiaeth mewn gofal wedi rhedeg yn llwyddiannus efo 2 weithiwr wedi ei lleoli o'r colegau lleol mewn cartrefi yn ardal Caernarfon. Mae'r 2 bellach yn cwblhau'r cymhwyster addas ar gyfer ei swyddi ac wedi cael swyddi efo'r Cyngor. Mae'r cynllun am gael ei ymestyn yn 2015/16 i ardal Meirionnydd i geisio helpu efo'r her o recriwtio yn yr ardal.

Bu i staff Tîm Derwen (tîm integredig ar gyfer plant a phobl ifanc anabl a gwael) yn ogystal gyfrannu yn helaeth at yr agenda dysgu a hyfforddi yn ystod y flwyddyn. Bu i'r uned gymryd rhan mewn sesiynau hyfforddi ar y cyd gyda Phlant yng Nghymru i sôn am weithio integredig gyda phlant anabl a'u teuluoedd ac ynglŷn â darparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae rheolwr yr Uned Datblygu Gweithlu yn eistedd ar sawl grŵp rhanbarthol neu genedlaethol sydd yn sicrhau ein bod mewn sefyllfa i ddylanwadu ar ddatblygiadau.

## 6.5 Ymgysylltu a chyd-gynhyrchu

Bydd ymdrechion hanner cyntaf 2015/16 yn cynnwys mapio gofynion ymgysylltu'r Adran dros y cyfnod nesaf mewn perthynas â'r rhaglenni trawsffurfio gwasanaethau.

O ran ymdrechion cyd-gynhyrchu, mae aelodau o staff wedi mynychu cyrsiau a digwyddiadau hyrwyddo gyd-gynhyrchu wrth ddatblygu a gweithredu gwasanaethau i'r dyfodol. O ran llwyddiant cyd-gynhyrchu diweddar, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi llunio Grŵp Tasg a Gorffen, yn cynnwys defnyddwyr gwasanaeth, i gyd-gynhyrchu polisïau a chanllawiau Taliadau Uniongyrchol i Wynedd. Cymeradwywyd y polisïau a chanllawiau yma gan Gabinet Cyngor Gwynedd yn Ebrill 2015. Ein bwriad yn ystod 2015/16 yw parhau gyda'r gwaith o gyd gynhyrchu a sefydlu gweithdrefnau newydd gyda'r amcan o gynyddu'r defnydd o daliadau uniongyrchol.

# 7.Edrych i'r Dyfodol

## 7.1 Cynllun Strategol Strategol Cyngor Gwynedd 2013-17

Does dim angen pwysleisio eto'r her sy'n wynebu'r maes hwn i'r dyfodol, ac felly yn y bennod hon canolbwyntir ar y cyfleoedd gwirioneddol sydd o'n blaenau yn y blynyddoedd nesaf. Nodir hefyd y trefniadau sy'n eu lle ar gyfer cyflawni a chyfarch ein bwriadau.

Trwy adolygu'r Cynllun Strategol a ffocysu prif bwyslais strategol y Cyngor ar rhai cynlluniau trawsnewidiol allweddol bydd trefniadau perfformiad corfforaethol yn sicrhau sylw priodol ar gyfer cyflawni. Bydd ffocws arbennig yn cael ei roi ar ddatblygu ymhellach y cydweithio a'r integreiddio sydd ar waith gyda'r Bwrdd Iechyd a phartneriaid allweddol. Ar yr un pryd byddwn yn ymdrechu i sicrhau fod pobl Gwynedd yn ymwybodol o'r her sydd yn wynebu maes Oedolion a sut y gallant gyfrannu'n gymunedol.

O ran maes plant, bydd sylw strategol yn cael ei roi i sicrhau ystod o wasanaethau ataliol ar gyfer grwpiau bregus o blant a phobl ifanc Gwynedd. Fel sydd wedi ei gyfeirio ato yn yr adroddiad, mae'r Tîm Trothwy Gofal wedi'i sefydlu eleni a byddwn yn cadw golwg ar y ffrwyth gwaith yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

Ynghyd a'r meysydd Oedolion a Phlant a Phobl Ifanc, fe fydd y maes Diogelu yn derbyn sylw penodol yn y Cynllun Strategol a phrosiectau penodol wedi eu hadnabod i barhau i wella trefniadau, ymwybyddiaeth a pherchnogaeth yn adrannol ac wrth gwrs yn gorfforaethol. Er bod camau allweddol wedi eu cymryd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, golyga natur y maes ei bod yn hanfodol dal ati i ddysgu oddi wrth achosion lleol a chenedlaethol gan sicrhau ein bod yn parhau i ymateb yn rhagweithiol.

Yng nghorff yr adroddiad hwn, y mae llawer o gyfeiriadau at yr hyn y bwriadwn ei gyflawni yn ystod 2015/16 i wella ein gwasanaethau. Gellir gweld copi o'r Cynllun Strategol, sy'n cynnwys manylion ynglŷn â'r holl brosiectau, canlyniadau a mesuryddion unigol fesul blaenoriaeth, ar safle we'r Cyngor trwy ddilyn y linc http://www.gwynedd.gov.uk.

## 7.2 Blaenoriaethau Eraill

Fe fyddwn yn gweld datblygiadau pellach o ran rhiantu corfforaethol, ac yn sicrhau fod gweithdrefnau a chyfrifoldebau yn cael ei deall yn glir gan swyddogion ac aelodau etholedig y Cyngor. Trwy gadarnhau ymrwymiad y Cyngor ac atgyfnerthu cyfrifoldeb corfforaethol ymdrechir i sicrhau bod cyfleoedd bywyd plant a phobl ifanc yn gwella, a'r bwlch canlyniadau yn culhau.

Yn flynyddol, rydym yn croesawu cefnogaeth a sylwadau rheoleiddwyr a chomisiynwyr allanol ar sut y gallwn wella i'r dyfodol. Mae rhaglenni gwaith clir wedi ei gosod eisoes ac fe fydd cyfle'r flwyddyn nesaf i ymateb yn rhagweithiol i'r argymhellion.

Ar y gwastad adrannol, bydd yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn parhau i ddefnyddio'r gyfundrefn Reolaeth Rhaglenni ar gyfer canolbwyntio a sicrhau trosolwg o'r prosiectau allweddol. Bydd yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd hefyd yn parhau â threfniadau rheoli prosiect cadarn a arweiniodd at gwblhau'r adolygiad 'dechrau i'r diwedd' er mwyn sicrhau bod cynllun gweithredu'r adolygiad yn cael ei wireddu'n llawn.

## 7.3 Diweddglo

Os hoffech gynnig unrhyw sylwadau neu gwestiynau mewn perthynas â'r cynllun hwn, mae croeso i chi wneud hynny. Cysylltwch â'r Uned Gofal Cwsmer, Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, Cyngor Gwynedd, Stryd y Castell, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH, e-bost gcgc@gwynedd.gov.uk , rhif ffôn 01286 679268. Gall yr uned eich cynorthwyo hefyd os hoffech dderbyn copi o'r adroddiad hwn mewn fformat neu iaith wahanol.

# Eitem 10

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Y CYNGOR** |
| **DYDDIAD** | **9fed o Orffennaf 2015** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR** |
| **PWRPAS** | **Adolygu Cydbwysedd Gwleidyddol y Cyngor** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Dyrannu Seddau ar Bwyllgorau** |
| **AWDUR** | **Cynghorydd Dyfed Edwards** |
| **SWYDDOG CYSYLLTIOL** | **Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Yn dilyn newidiadau mewn aelodaeth grwpiau gwleidyddol, mae cyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:-

| | |
|---|---|
| Plaid Cymru | 37 |
| Annibynnol | 18 |
| Llais Gwynedd | 10 |
| Llafur | 5 |
| Democratiaid Rhyddfrydol | 2 |
| Aelod Unigol | 2 |
| **Cyfanswm** | **74** |

1.2 Mae un sedd wag ar hyn o bryd, ward Morfa Nefyn. (Gweler 4.1 isod)

## 2. DYRANIAD Y SEDDAU AR BWYLLGORAU

2.1 I atgoffa'r aelodau, nodir yma'r pedair prif reol yn Neddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 ynglŷn â dyrannu seddau:-

2.2 (a) Ni chaiff pob sedd ar bwyllgor ei dyrannu i'r un grŵp gwleidyddol;

(b) Rhaid dyrannu mwyafrif y seddau ar bwyllgor i grŵp gwleidyddol os yw nifer y personau sy'n perthyn i'r grŵp yn fwyafrif o aelodau'r Cyngor;

(c) Yn amodol ar baragraffau (a) a (b) uchod, bydd nifer y seddau ar y pwyllgorau cyffredin a ddyrennir i bob grŵp gwleidyddol yr un fath â'r nifer o'r holl seddau sydd gan aelodau'r grŵp hwnnw ar y Cyngor;

(ch) Yn amodol ar (a),(b) ac (c) uchod, bydd nifer y seddau ar bwyllgor a ddyrennir i bob grŵp gwleidyddol yr un gyfran o'r seddau ar y pwyllgor â'r nifer o seddau sydd gan aelodau'r grŵp hwnnw ar y Cyngor.

2.3 Er mwyn sicrhau y glynir wrth y rheolau hyn, mae'r Cyngor wedi bod yn ymdrin â phwyllgorau mewn blociau gwahanol yn y gorffennol. Mae hyn yn ei gwneud yn haws i sicrhau y glynir wrth reol (c) ym mharagraff 2.2 uchod hefyd.

## 3. NEWIDIADAU I DDYRANIAD Y SEDDAU AR BWYLLGORAU

3.1 Mae'r newid yn y cydbwysedd gwleidyddol yn golygu bod Plaid Cymru yn ennill sedd ar y Pwyllgor Craffu Cymunedau a'r Pwyllgor Archwilio ar draul Grŵp LLais Gwynedd sydd yn colli sedd ar y ddau Bwyllgor.

3.2 Golyga hefyd fod Plaid Cymru yn ennill sedd ar y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, y Pwyllgor Iaith, Pwyllgor Cynllunio a'r Pwyllgor Trwyddedu Canolog ar draul Grŵp Llais Gwynedd sydd yn colli un sedd ar bob un o'r Pwyllgorau hynny.

3.3 Golyga hefyd fod Plaid Cymru yn ennill sedd ar Pwyllgor Pensiynau ac ar Bwyllgor CYSAG ar draul Grŵp Llais Gwynedd sydd yn colli sedd ar y Pwyllgorau hynny. (Gweler **Atodiad A**)

## 4. YSTYRIAETHAU ERAILL

4.1 Yn ychwanegol, dylid nodi y cynhelir is-etholiad yn ward Morfa Nefyn heddiw (9fed o Orffennaf 2015). Bydd yn ofynnol ystyried os oes effaith ar y cydbwysedd gwleidyddol yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Llawn ar 8fed o Hydref, 2015.

## 5. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Cyngor drafod a chytuno ar y newid i ddyraniad y seddau ar y pwyllgorau fel y noder yn 3.1 - 3.3 uchod yn unol â chytundeb y Grŵp Busnes.

**ATODIAD A**

**PWYLLGORAU CRAFFU**

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur | Democratiaid Rhyddfrydol | Aelod Unigol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Corfforaethol | 9 | 4 | 3 | 1 | 1 | |
| Cymunedau | 9 | 4 | 2 | 1 | 1 | 1 |
| Gwasanaethau | 9 | 4 | 3 | 1 | | 1 |
| Archwilio | 9 | 5 | 2 | 2 | | |

**PWYLLGORAU ERAILL**

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur | Democratiaid Rhyddfrydol | Aelod Unigol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Democratiaeth | 8 | 4 | 2 | 1 | | | |
| Iaith | 8 | 4 | 2 | 1 | | | |
| Cynllunio | 8 | 3 | 2 | 1 | 1 | | |
| Trwyddedu Canolog | 8 | 4 | 2 | | | 1 | |
| Apelau Cyflogaeth | 3 | 1 | 1 | 1 | | 1 | |
| Penodi Prif Swyddogion | 7 | 4 | 2 | 1 | 1 | | |
| **Nifer y seddau** | **78** | **37** | **21** | **10** | **4** | **4** | **154** |

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur | Democratiaid Rhyddfrydol | Aelod Unigol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pensiynau | 3 | 2 | 0 | 1 | 1 | | |
| Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol | 6 | 2 | 2 | 1 | | | |
| Cydbwyllgor Addysg Anghenion Arbennig | 3 | 2 | 1 | | | 1 | |
| Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd | 4 (3 sedd ac un eilydd) | 2 | 1 | 1 | | | |
| CYSAG | 4 | 2 | 1 | | | | |
| **Cyfanswm y Seddau** | **98** | **47** | **26** | **13** | **5** | **5** | **194** |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Y CYNGOR |
| **DYDDIAD** | 9fed Gorffennaf 2015 |
| **PWNC** | ABSENOLDEB AELOD O'R CYNGOR |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | CYFLWYNO CAIS I GYMERADWYO ABSENOLDEB AELOD O'R CYNGOR |
| **AWDUR** | GERAINT OWEN, PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD |

**1. CEFNDIR**

1.1 Mae Adran 85 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn nodi os yw aelod o awdurdod lleol yn methu mynychu unrhyw gyfarfod o'r awdurdod am gyfnod o chwe mis yn olynol o ddyddiad eu presenoldeb diwethaf, yna ni fyddant yn aelod o'r awdurdod mwyach.

1.2 Yr unig eithriad i hyn yw os y cymeradwyir yr absenoldeb gan yr awdurdod.

**2. SEFYLLFA PRESENNOL CYNGHORYDD YNG NGHYNGOR GWYNEDD**

2.1 Mae'r Cynghorydd Linda Morgan yn derbyn triniaeth ar hyn o bryd ac felly mae hyn yn debygol effeithio ar ei gallu i fynychu cyfarfodydd ffurfiol o'r awdurdod, er nad yw'n glir ar hyn o bryd am ba hyd y mae hyn am fod yn broblem.

2.2 Mae gofyn i'r Cyngor Llawn gymeradwyo absenoldeb y Cynghorydd Linda Morgan o gyfarfodydd yr awdurdod er mwyn ei galluogi i barhau i fod yn aelod.

2.3 Os na roddir cymeradwyaeth i'r absenoldeb, yna byddai cyfnod y Cynghorydd Linda Morgan fel aelod o'r Cyngor yn dod i ben 6 mis ar ôl ei phresenoldeb diwethaf mewn cyfarfod o'r Cyngor.

2.4 Awgrymir, o dan yr amgylchiadau, y dylid cymeradwyo absenoldeb y Cynghorydd Linda Morgan.

**3. ARGYMHELLIAD**

3.1 Argymhellir bod y Cyngor Llawn yn cymeradwyo absenoldeb y Cynghorydd Linda Morgan o gyfarfodydd y Cyngor oherwydd yr amgylchiadau personol, yn unol ag Adran 85 Deddf Llywodraeth Leol 1972, gan ei galluogi i barhau i fod yn aelod o Gyngor Gwynedd.

# Daily Post

Blwch Post 202, Vale Road, Cyffordd Llandudno, Conwy LL31 9ZD
Rhif Ffôn Golygyddol 01492 574455 Ffacs 01492 574433
Rhif Ffôn Hysbysebion 01492 574466 Ffacs 01492 574 422
www.icnothwales.co/uk

Eirian Roberts
Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu
Gwasanaethau Democrataidd
Adran Gefnogaeth Gorfforaethol
Cyngor Gwynedd
Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

27.05.2015

Annwyl Ms Roberts

Diolch yn fawr iawn am eich llythyr yn cynnwys manylion y cynnig a basiwyd gan Gyngor Gwynedd yn mynegi pryder ynglŷn â chau ein swyddfa yng Nghaernarfon ar ddiwedd mis Mehefin.

Mae pryder dealladwy'r Cyngor ein bod yn cynnal ein rôl mewn democratiaeth leol ac fel darparwr gwybodaeth a newyddion i'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu yng ngogledd a gorllewin Cymru yn un rydym ni yn *Trinity Mirror* yn ei rannu.

Fodd bynnag, mae'r diwydiant papurau newydd wedi bod dan bwysau ariannol eithriadol ers sawl blwyddyn bellach ac mae rheolaeth ofalus o'n costau yn bwysig os ydym am barhau i allu darparu gwasanaeth i'n cynulleidfaoedd yn y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Polisi'r cwmni yn hyn o beth yw buddsoddi yn ein pobl dalentog yn hytrach na mewn brics a mortar. Felly, wrth wynebu'r angen i leihau ein costau, mae'n gwneud synnwyr i'r cwmni, ein gweithwyr ac i'r cwsmeriaid ( i'r sawl yr ydym yn darparu gwasanaeth), i gau adeiladau a chael ein newyddiadurwyr sydd ag offer digidol llawn a'r timau gwerthu hysbysebion yn gweithio yn y maes.

Ni fydd unrhyw newyddiadurwyr yn colli eu swyddi o ganlyniad i'r cyhoeddiad hwn a byddwn yn parhau i weithio'n galed i ddarparu'r gwasanaeth gorau ar gyfer yr ardal. Roedd y nifer o bobl leol a alwodd i mewn i'n swyddfa i roi storïau i ni neu i archebu hysbysebion wedi lleihau i ddim ond dyrnaid bob wythnos. Mae'r rhan fwyaf o bobl heddiw naill ai yn ein e-bostio neu yn ein galw dros y ffôn. Byddwn yn ymateb i'w ymholiadau'r un mor gyflym ac effeithiol heb fynd i'r gost o gynnal swyddfa yn y dref.

Rydym yn ymgynghori yn unigol ar hyn o bryd gyda phob un o'n staff sydd wedi cael eu heffeithio ac rydym yn ystyried rhai dewisiadau arloesol drwy ddefnyddio datrysiadau uwch-dechnoleg er mwyn sicrhau y cyflawnir eu holl anghenion. Golyga hyn y bydd ein newyddiadurwyr yn treulio llawer mwy o amser allan yn y cymunedau maent yn eu gwasanaethu, cyfarfod pobl, cyfweld â hwy a chael storïau. Mae wedi gweithio'n dda i ni mewn ardaloedd eraill ac rydym yn hyderus y gall hyn weithio'r un mor effeithiol yng Nghaernarfon.

Fel rhan o'r broses hon, mewn cydweithrediad â'r NUJ, rydym yn chwilio am nifer o ddewisiadau, i gael safleoedd ble y gall ein newyddiadurwyr fewngofnodi i rwydweithiau wi-fi a ffeilio'u storïau.

Rydym wrth gwrs yn ymwybodol bod gan Gaernarfon gysylltiadau traddodiadol hir gyda chynhyrchu papurau newydd ac rydym yn ymwybodol o'r ffaith mai ni yw'r swyddfa bapur newydd olaf mewn tref a oedd ar un adeg gyda llawer. Mae hyn yn amlwg yn achos rhyw dristwch ac mae hwn yn deimlad yr ydym yn ei rannu. Ond mae'r ffaith bod pob un o'r swyddfeydd eraill wedi diflannu ers amser yn dangos y realiti economaidd a'r ffaith, gobeithio, bod *Trinity Mirror* yn parhau yn ymrwymedig iawn i Gaernarfon ac i ogledd-orllewin Cymru yn gyffredinol.

Cofion cynnes

Mark Thomas
Golygydd
Daily Post